



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
(Cofnod y Trafodion)**

**The National Assembly for Wales  
(The Record of Proceedings)**

**Dydd Mawrth, 12 Gorffennaf 2005**

**Tuesday, 12 July 2005**

## Cynnwys Contents

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister .....	4
Datganiad Busnes Business Statement.....	28
Datganiad ar yr Ymosodiadau Diweddar Statement on the Recent Terrorist Attacks .....	32
Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor ar Ysmygu mewn Mannau Cyhoeddus The Welsh Assembly Government's Response to the Report of the Smoking in Public Places Committee .....	41
Pwyntiau o Drefn Points of Order .....	58
Cymeradwyo Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Cychwyn Rhif 3) 2005 Approval of the Public Audit (Wales) Act 2004 (Commencement No. 3) Order 2005 .....	62
Cymeradwyo Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Symud ar draws Ffin) (Cymru) 2005, Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Cymru) 2005, a Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Holrhain a'u Labelu) (Cymru) 2005 Approval of the Genetically Modified Organisms (Transboundary Movements) (Wales) Regulations 2005, the Genetically Modified Organisms (Deliberate Release) (Amendment) (Wales) Regulations 2005, and the Genetically Modified Organisms (Traceability and Labelling) (Wales) Regulations 2005.....	68
Cymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2005 Approval of the National Health Service (Charges for Drugs and Appliances) (Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2005 .....	85
Cymeradwyo Rheoliadau Addysg (Adolygu Strwythur Staffio) (Cymru) 2005 Approval of the Education (Review of Staffing Structure ) (Wales) Regulations 2005 .....	101
Newid Rheolau Sefydlog Change to Standing Orders.....	107
Atal Rheolau Sefydlog Suspension of Standing Orders .....	109
Diwygio'r Rheolau Sefydlog Revision to Standing Orders.....	110
Cynnig Trefniadol Procedural Motion.....	111

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.  
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

## **Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister**

### **Polisiau Iechyd Health Policies**

**Q1 Helen Mary Jones:** Will the First Minister make a statement on the implementation of the Welsh Assembly Government's policies for health in mid and west Wales? OAQ0686(FM)

**The First Minister (Rhodri Morgan):** Patients in mid and west Wales will benefit from a specific grant of £8.78 million for new equipment and buildings announced last year, which will cut long waiting times even further across the region.

**Helen Mary Jones:** You will be aware that the Assembly's 'Designed for Life' programme has raised some concerns in rural Wales that services may be centralised. Those concerns are shared by the residents of Llanelli. Will you give me an assurance that the 'Designed for Life' programme will not lead to the downgrading of Prince Phillip Hospital in Llanelli and that it will retain its status as a district general hospital?

**The First Minister:** I am not sure that you can argue both of those propositions at the same time. Last time I visited Llanelli, I would not have called it 'rural', and it has not been rural for about 250 years. There will always be fears about change, and people will sometimes think that change is bound to be bad for them. In the implementation of Wanless, you are either serious about it and go into it saying, 'Where is the best place for this service to be deployed for that particular catchment area?', or you are not. It will involve change, and, without change, Wanless will not work, and, without Wanless working, we have no real chance of being able to provide the kind of fast-response, high-quality, low-waiting-list service that everyone in Wales wants to see.

**C1 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar weithredu polisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer iechyd yng nghanolbarth a gorllewin Cymru? OAQ0686(FM)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Bydd cleifion yn y Canolbarth a'r Gorllewin yn elwa oherwydd grant penodol o £8.78 miliwn a gyhoeddwyd y llynedd ar gyfer offer ac adeiladau newydd, ac a fydd yn cwtogi mwy fyth ar amseroedd aros hir drwy'r rhanbarth.

**Helen Mary Jones:** Byddwch yn ymwybodol bod rhaglen 'Cynllun Oes' y Cynulliad wedi achosi ofnau yn y Gymru wledig y gallai gwasanaethau gael eu canoli. Mae'r pryderon hyn yn cael eu rhannu gan drigolion Llanelli. A wnewch roi sicrwydd imi na fydd y rhaglen 'Cynllun Oes' yn arwain at israddio Ysbyty'r Tywysog Phillip yn Llanelli ac y bydd yn cadw'i statws fel ysbyty cyffredinol dosbarth?

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf yn siŵr a oes modd i chi ddadlau dros y ddau osodiad hynny ar yr un pryd. Y tro diwethaf imi ymweld â Llanelli, ni fyddwn wedi ei alw'n 'wledig', ac nid yw wedi bod yn wledig ers 250 o flynyddoedd. Bydd pobl bob amser yn poeni am newid, ac weithiau bydd pobl yn credu bod newid yn siŵr o fod yn ddrwg iddynt. Ynglŷn â Wanless, yr ydych un ai o ddifrif wrth ei weithredu ac yn bwrw ymlaen gan ddweud, 'Lle yw'r man gorau i gael y gwasanaeth hwn ar gyfer y dalgylch arbennig hwn?' neu nid ydych o ddifrif. Bydd yn golygu newid a, heb newid, ni fydd Wanless yn llwyddo ac, oni bai fod Wanless yn llwyddo, nid oes gennym obaith gwirioneddol o fedru darparu'r math o wasanaeth ymateb cyflym, o ansawdd uchel, gyda rhestrau aros byr yr hoffai pawb yng Nghymru ei weld.

**Lisa Francis:** In respect of health policy, your Government does not undertake research into the effects of Tetra masts on the health of children, and only seeks advice on the health effects of Tetra masts from the Health Protection Agency. Given that the Scottish Parliament has declared a moratorium on further Tetra masts, and that a number of mid and west Wales Assembly Members have been approached by many concerned parents in Haverfordwest, where a Tetra mast has been erected in the vicinity of eight schools, and where parents have cited nausea, nose bleeds and sleeping problems as evidence of the harmful effects of this mast, do you not now concede that it is time that your Government looked into this matter properly?

**The First Minister:** Looking into a matter properly normally involves getting the best people that you can find to carry out the research. That does not necessarily mean duplicating research carried out by others just for the sake of having a second set of research in the hope that, somehow, they will produce different conclusions from the first lot and that they might be more politically convenient for one particular side of a campaign. I believe that our approach is highly professional and it involves seeking the best advice, not the advice that might be politically convenient.

#### **Cydweithio gydag Awdurdodau Lleol Lloegr sy'n Ffinio â Chymru Liaison with English Local Authorities Bordering Wales**

**Q2 Ann Jones:** Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's arrangements for liaison with English local authorities bordering Wales? OAQ0699(FM)

**The First Minister:** We are part funding, with nine partners, a study that aims to advise on a potential spatial strategy for the west Cheshire and north-east Wales sub-region.

**Ann Jones:** As you know, cross-border working is an area that I have been closely involved with. I seek your assurance that the Welsh Assembly Government will keep this as a high priority. The spatial plan, for which

**Lisa Francis:** O ran polisi iechyd, nid yw'r Llywodraeth yn cynnal ymchwil i effeithiau mastiau Tetra ar iechyd plant, a'r unig beth y mae'n ei wneud yw gofyn am gyngor yr Asiantaeth Diogelu Iechyd am effeithiau mastiau Tetra ar iechyd plant. O gofio bod Senedd yr Alban wedi cyhoeddi moratoriwm ar ragor o fastiau Tetra, a bod nifer o rieni pryderus o Hwlffordd wedi cysylltu â nifer o Aelodau'r Cynulliad o'r Canolbarth a'r Gorllewin, lle y mae mast Tetra wedi ei godi'n agos at wyth o ysgolion, a lle y mae rhieni wedi cyfeirio at gyfog, gwaedlifau o'r trwyn a phroblemau cysgu fel tystiolaeth o effeithiau niweidiol y mastiau hyn, a wnewch bellach gyfaddef ei bod yn bryd i'ch Llywodraeth ymchwilio'n drylwyr i'r mater hwn?

**Y Prif Weinidog:** Mae ymchwilio i'r mater yn drylwyr fel arfer yn golygu cael y bobl orau posibl i ymgymryd â'r ymchwil. Nid yw hynny o reidrwydd yn golygu ailadrodd ymchwil a gynhaliwyd gan eraill dim ond er mwyn cael ail set o ymchwil yn y gobaith y bydd, rywsut, yn dod i gasgliadau gwahanol i'r ymchwil gyntaf ac y bydd yn fwy gwleidyddol gyfleus i un ochr i'r ymgyrch. Yr wyf yn credu bod ein dull ni'n un proffesiynol dros ben ac mae'n golygu gofyn am y cyngor gorau, ac nid cyngor a all fod yn wleidyddol gyfleus.

**C2 Ann Jones:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar drefniadau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cydweithio gydag awdurdodau lleol Lloegr sy'n ffinio â Chymru? OAQ0699(FM)

**Y Prif Weinidog:** Ynghyd â naw partner arall yr ydym yn cyd-ariannu astudiaeth sydd â'r nod o roi cyngor ar strategaeth ofodol bosibl ar gyfer isranbarth gorllewin sir Gaer a gogledd-ddwyrain Cymru.

**Ann Jones:** Fel y gwyddoch, mae gweithio ar draws ffiniau'n faes yr wyf wedi bod yn gysylltiedig ag ef. Hoffwn gael sicrwydd gennych y bydd hyn yn parhau'n flaenoriaeth bwysig i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

we have a responsibility, is a useful tool to reinforce cross-border working. However, we need to keep it at the top of the agenda because constituencies such as mine should be able to benefit from that work in terms of travel-to-work times and job opportunities, and in terms of ensuring that we get the best from public services for all constituents in north Wales.

**The First Minister:** I agree with all of that, and it reflects the purpose of the joint study. It will report in draft shortly, before the end of this month, and I believe that the final report will be available in September. Tom Middlehurst, when he was an Assembly Member, sometimes used the dramatic phrase, 'In north-east Wales and Deeside, the border does not exist'. We all know what he means by that, because there is so much daily commuting between the regions that there is no natural dividing line. That is the reason for the huge investment that is being made by us and partners in north-west England in the Woodbank to Drome Corner road scheme, which is intended to smooth traffic flows. It is not a local authority scheme, it is a trunk road scheme, but I think that we are jointly funding that with authorities in the north-west to ensure that there are not blockages, because people from both sides of the border work at Airbus, and at the Deeside industrial park, and there is a great deal of long-distance commuting and of leisure travel, travelling both ways between north-east Wales and north-west England and west Cheshire in particular.

**Glyn Davies:** First Minister, yesterday your Government put out a policy statement on affordable housing. Nothing has a greater impact on affordable housing in Wales than policies in relation to affordable housing over the border in England. What discussions and arrangements do you have to ensure that the impact on Wales is properly known in England and is taken into account, which will help the situation in Wales?

**The First Minister:** You are right, and I am

Mae'r cynllun gofodol, y mae gennym gyfrifoldeb drosto, yn gyfrwng defnyddiol i atgyfnerthu gweithio'n drawsffiniol. Fodd bynnag, mae angen inni ei gadw ar frig yr agenda oherwydd y dylai etholaethau fel fy un i allu elwa oherwydd y gwaith hwnnw o ran amseroedd teithio i'r gwaith a chyfleoedd gwaith, ac o ran sicrhau ein bod yn cael y gorau o wasanaethau cyhoeddus ar gyfer pob etholwr yn y gogledd.

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn cytuno â hynny oll, ac mae'n adlewyrchu pwrpas y gydastudiaeth. Bydd yn ymddangos mewn fersiwn ddrafft yn fuan, cyn diwedd y mis hwn, a chredaf y bydd yr adroddiad terfynol ar gael ym mis Medi. Pan oedd yn Aelod o'r Cynulliad, o bryd i'w gilydd arferai Tom Middlehurst ddefnyddio'r ymadrodd dramatig, 'Yng ngogledd-ddwyrain Cymru a Glannau Dyfrdwy, nid yw'r ffin yn bod'. Yr ydym i gyd yn gwybod beth a olygai wrth hynny, gan fod cymaint o gymudo'n digwydd yn ddyddiol rhwng y rhanbarthau fel nad oes rhaniad pendant yn bodoli. Dyna'r rheswm am y buddsoddiad enfawr sy'n cael ei wneud gennym ni a'r partneriaid yn y cynllun ffordd o Woodbank i Drome Corner yng ngogledd-orllewin Lloegr, sydd â'r nod o sicrhau llif traffig esmwyth. Nid cynllun awdurdod lleol ydyw, ond cynllun cefnffordd, ond yr wyf yn credu ein bod yn ei gyllido ar y cyd ag awdurdodau yn y gogledd-orllewin i sicrhau nad oes tagfeydd, gan fod pobl o'r ddwy ochr i'r ffin yn gweithio yn Airbus, ac ym mharc diwydiannol Glannau Dyfrdwy, a bod llawer o gymudo dros bellteroedd hir a theithio hamdden yn digwydd, gan deithio i'r ddau gyfeiriad rhwng gogledd-ddwyrain Cymru a gogledd-orllewin Lloegr a gorllewin sir Gaer yn fwyaf arbennig.

**Glyn Davies:** Brif Weinidog, ddoe cyhoeddodd eich Llywodraeth ddatganiad polisi ar dai fforddiadwy. Nid oes dim sy'n cael mwy o effaith ar dai fforddiadwy yng Nghymru na pholisiau sy'n ymwneud â thai fforddiadwy dros y ffin yn Lloegr. Pa drafodaethau a threfniadau yr ydych yn eu cael i sicrhau bod yr effaith ar Gymru'n hysbys yn Lloegr a bod hynny'n cael ei ystyried, ac a fydd yn helpu'r sefyllfa yng Nghymru?

**Y Prif Weinidog:** Yr ydych yn iawn, ac yr

glad that you have drawn attention to it. The 16-week consultation period, starting yesterday, on the affordable housing toolkit for Welsh authorities, is extremely important. If there were markedly different policies, and the availability of affordable housing was going to be treated in very different ways, so that affordable housing was going to be preferentially on one side of the border rather than another, I would deprecate that. I hope that that will be dealt with fully in the responses from all the relevant local authorities during the consultation period. If you have particular concerns, Glyn, living as close as you do to the English border, we would be pleased to hear them, either directly from you or from organisations with which you are in contact.

wyf yn falch eich bod wedi tynnu sylw ato. Mae'r cyfnod ymgynghori o 16 wythnos, a ddechreuodd ddoe, ar y pecyn tai fforddiadwy i awdurdodau yng Nghymru, yn bwysig dros ben. Pe bai polisiau gwahanol iawn, a phe bai mater y tai fforddiadwy sydd ar gael yn mynd i gael ei drin mewn ffyrdd gwahanol iawn, fel bod tai fforddiadwy'n ffafrio un ochr i'r ffin yn fwy na'r llall, byddwn yn anghymeradwyo hynny. Yr wyf yn gobeithio y bydd hynny'n cael sylw manwl yn yr ymatebion gan yr holl awdurdodau lleol perthnasol yn ystod y cyfnod ymgynghori. Os oes gennych unrhyw bryderon penodol, Glyn, gan eich bod yn byw mor agos at y ffin â Lloegr, byddem yn falch o'u clywed, un ai gennych chi'n uniongyrchol neu gan sefydliadau yr ydych mewn cysylltiad â hwy.

### **Cyllid Addysg Uwch Higher Education Funding**

**Q3 The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne):** Will the First Minister update us on his policies for funding higher education in Wales? OAQ0693(FM)

**C3 Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Nick Bourne):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r newyddion diweddaraf i ni ynglŷn â'i bolisiau ar gyfer cyllido addysg uwch yng Nghymru? OAQ0693(FM)

**The First Minister:** We have agreed to consider whether further steps are required to put our higher education institutions on an equivalent financial footing to their counterparts elsewhere in the United Kingdom. We will report back to this Assembly with our conclusions before the end of this coming budget round.

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym wedi cytuno i ystyried a oes angen cymryd camau pellach i roi ein sefydliadau addysg uwch ar yr un telerau ariannol â'u cymheiriaid yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Byddwn yn adrodd yn ôl i'r Cynulliad hwn gyda'n casgliadau cyn diwedd cylch y gyllideb nesaf

**Nick Bourne:** I am grateful for the First Minister's response, and commend his response overall in involving opposition party leaders in the development of the policy. I will press him a little more on the precise timescale of that funding gap. I know that there is a debate about the size of that gap, but I know that he accepts, as I think that we all do, that there is a gap. Could he give us a clearer indication of when he will be able to come back to the Assembly with an indication of the size of the gap and proposals for tackling that over time?

**Nick Bourne:** Yr wyf yn ddiolchgar i'r Prif Weinidog am ei ymateb, ac yr wyf yn cymeradwyo ei ymateb cyffredinol wrth gynnwys arweinwyr y gwrthbleidiau wrth ddatblygu'r polisi. Pwysaf ychydig mwy arno ar union amserlen y bwllch o ran cyllid. Gwn fod dadlau ynghylch maint y bwllch hwnnw, ond gwn ei fod yn derbyn, fel yr wyf yn siŵr bod y gweddill ohonom yn derbyn, bod bwllch yn bodoli. A allwch roi syniad gwell inni pa bryd y bydd yn gallu dod yn ôl i'r Cynulliad gydag awgrym o faint y bwllch a chynigion i fynd i'r afael â hynny dros amser.

**The First Minister:** We have to bottom it out. That is key. There are such sharply different methodologies in calculating the

**Y Prif Weinidog:** Mae'n rhaid i weld faint ydyw. Mae hynny'n allweddol. Mae methodolegau mor wahanol ar gael i gyfrifo'r

unit of resource that we have to undertake a pretty major, proper, professional, and, I hope, once-in-a-decade exercise to settle this question of how big the funding gap is, and, if there is a gap, to sort it out. The more thorough and professional a job you do, the more unpredictable the timescale for its completion might be. However, as I have said, the essential part of our commitment is that the full set of information bottoming this out once and for all—at least for this decade, let us say—needs to be carried out in time for it to be incorporated into this year's, or this next budget round. That is the key thing that everyone in higher education in Wales will want to hear.

**Jeff Cuthbert:** First Minister, do you agree that it is really important, in terms of funding higher education, that this is always looked at in a joined-up way and that we must ensure that we maintain adequate provision for all other funding of education, particularly early years, as Professor Rees highlighted when she talked about the importance of getting people ready for university. Indeed, funding must be properly identified to assist part-time students, because their difficulties with childcare and access present special problems.

**The First Minister:** I agree, and I could give almost a similar answer to that I gave to Nick Bourne about the issue of the funding gap—or, as some would say, the alleged funding gap—to the question about part-time students, for the reason that you referred to. You have also widened it very wisely, Jeff, into the points that Professor Rees made. The question of widening access to higher education, on which there is all-party agreement, is not always about finance at the age of 19, or even at the age of 25, for older students. It can be about finance at 16. We hope that will be solved by the availability now of education maintenance allowances. There is a divide, if you like, between those who reach the gate and enter higher education at 19, and those who have been split off much earlier in life so that they cannot be there at the gate at 19. According to some people, that can be as early as in

uned adnoddau fel bod rhaid inni ymgymryd ag ymarferiad priodol, proffesiynol, eithaf mawr ac unwaith mewn degawd, gobeithio, i ateb y cwestiwn pa mor fawr yw'r bwlch o ran cyllid ac, os oes bwlch, datrys hynny. Po fwyaf trylwyr a phroffesiynol yw'r gwaith a wneir, anoddaf yn y byd y gallai rhagweld hyd yr amserlen ar gyfer ei gwblhau fod. Fodd bynnag, fel y dywedais, y rhan allweddol o'n hymrwymiad yw bod rhaid i'r set gyflawn o wybodaeth sy'n dangos beth yw hyn unwaith ac am byth - am y degawd hwn o leiaf, gadewch inni dweud - gael ei chynnal mewn pryd i gael ei hymgorffori yng nghylch y gyllideb am eleni, neu'r nesaf. Hynny yw'r peth allweddol y bydd pawb mewn addysg uwch yng Nghymru am ei glywed.

**Jeff Cuthbert:** Brif Weinidog, a ydych yn cytuno ei bod yn wirioneddol bwysig, o ran cyllido addysg uwch, fod hyn yn cael ei ystyried mewn modd cydgyssylltiedig bob amser a bod rhaid inni sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar gael ar gyfer ariannu pob agwedd arall ar addysg, yn enwedig y blynyddoedd cynnar, fel y pwysleisiodd yr Athro Rees wrth drafod pwysigrwydd paratoi pobl ar gyfer y brifysgol. Yn wir, mae'n rhaid i gyllid gael ei bennu'n briodol i gynorthwyo myfyrwyr rhan-amser, gan fod eu hanawsterau gyda gofal plant a mynediad yn achosi problemau arbennig.

**Y Prif Weinidog:** Cytunaf, a gallwn roi ateb tebyg i'r hyn a roddais i Nick Bourne ar fater y bwlch o ran cyllid—neu, fel y byddai rhai'n dweud, y bwlch honedig o ran cyllid—i'r cwestiwn ynghylch myfyrwyr rhan-amser, am y rheswm y cyfeiriasoch ato. Yr ydych hefyd wedi ei ehangu'n ddoeth iawn, Jeff, i gynnwys y pwyntiau a wnaethpwyd gan yr Athro Rees. Nid yw cwestiwn ehangu mynediad i addysg uwch, rhywbeth y mae pob plaid yn cytuno arno, yn ymwneud â chyllid bob amser o ran rhai 19 oed, na hyd yn oed rhai 25 oed, yn achos myfyrwyr hŷn. Gall fod yn ymwneud â chyllid yn 16 oed. Yr ydym yn gobeithio y caiff hynny ei ddatrys yn awr drwy ddarparu'r lwfansau cynhalieth addysg. Mae gwahaniaeth, os mynnwch, rhwng y rhai sy'n cyrraedd y giât ac yn dechrau cael addysg uwch yn 19 oed, a'r rhai sydd wedi eu gwahanu'n llawer cynharach yn eu bywyd fel na allant fod yno wrth y giât yn



kindergarten. If we are really serious about widening access to higher education, we have to look at that.

2.10 p.m.

**Peter Black:** The other unresolved piece of work from the agreement is on part-time students, and I understand that you are considering commissioning another body to consider that in the new year. In terms of the finance that that body will have to work with, what provision will be made to ensure that its recommendations will also be fully funded?

**The First Minister:** Telling a committee in advance that you will guarantee funding for whatever it asks for is an invitation for it to name a large figure and then add a couple of noughts to it. Therefore, I cannot give such an advance guarantee—and Sue Essex would not like it if I did. It is important that the case is strongly argued on the basis of fact and evidence. We all agree that the importance of part-time students has been down-played and almost neglected in the recent changes in the provision of higher education in England. We want to ensure that that is not the case in Wales. For some institutions in Wales, part-time students comprise almost half of their entrants, so they are of huge significance to us. It is a major area of widening access, and of fitting higher education institutions into the economy in a way that benefits them as well as the economy.

19 oed. Yn ôl rhai pobl, gall hynny ddigwydd mor gynnar â'r ysgol feithrin. Os ydym o ddifrif ynglŷn ag ehangu mynediad i addysg uwch, mae'n rhaid inni edrych ar hynny.

**Peter Black:** Y rhan arall o'r cytundeb sydd heb ei chwblhau yw'r un sy'n ymwneud â myfyrwyr rhan-amser a deallaf eich bod yn ystyried comisiynu corff arall i ystyried hynny yn y flwyddyn newydd. O ran y cyllid a fydd gan y corff hwnnw i wneud y gwaith, pa ddarpariaeth a wneir i sicrhau y bydd ei argymhellion hefyd yn cael eu hariannu'n llawn?

**Y Prif Weinidog:** Mae dweud ymlaen llaw wrth bwyllgor y byddwn yn gwarantu cyllid ar gyfer beth bynnag y bydd yn gofyn amdano cystal â'i wahodd i bennu swm enfawr ac yna ychwanegu rhyw ddau sero arall ar ei ddiwedd. Felly, ni allaf roi sicrwydd ymlaen llaw - ac ni fyddai Sue Essex yn hapus pe bawn yn gwneud hynny. Mae'n bwysig i'r ddadl gael ei chyflwyno'n gryf ar sail y ffeithiau a'r dystiolaeth. Yr ydym i gyd yn cytuno nad yw pwysigrwydd myfyrwyr rhan-amser wedi cael digon o sylw a'i fod wedi cael ei esgeuluso'n llwyr bron yn y newidiadau diweddar i ddarpariaeth addysg uwch yn Lloegr. Yr ydym am sicrhau na fydd hynny'n digwydd yng Nghymru. Yn achos rhai sefydliadau yng Nghymru, myfyrwyr rhan-amser yw bron hanner eu myfyrwyr newydd, felly maent yn bwysig dros ben inni. Mae'n elfen bwysig o ran ehangu mynediad, a gosod sefydliadau addysg uwch yn yr economi mewn modd sydd o fudd iddynt hwy yn ogystal â'r economi.

### Trwyddedu Mannau Trwyddedig Licensing Licensed Premises

**C4 Alun Ffred Jones:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi eu cynnal gyda Gweinidogion y Deyrnas Gyfunol ar unrhyw ganllawiau ar gyfer cyfundrefn trwyddedu manau trwyddedig? OAQ0685(FM)

**Q4 Alun Ffred Jones:** What discussions has the First Minister held with UK Government Ministers on any guidelines on the system for licensing licensed premises? OAQ0685(FM)

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf wedi cynnal unrhyw drafodaethau gyda Gweinidogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Nid yw trwyddedau alcohol ac adloniant yn fater sydd wedi'i ddatganoli i'r Cynulliad

**The First Minister:** I have not held any discussions with UK Government Ministers. Alcohol and entertainment licensing is not a matter devolved to the National Assembly. I have been in contact with UK Ministers over

Cenedlaethol. Bûm mewn cysylltiad â Gweinidogion y Deyrnas Unedig ar nifer o faterion, yn fwyaf diweddar mewn perthynas â sicrhau bod ffurflenni cais Cymraeg ar gael.

**Alun Ffred Jones:** Ar yr union fater hwnnw, yn nhrefodaeth yr wythnos diwethaf ar 'Iaith Pawb', clywsom y datganiad y bydd y Gymraeg bellach yn ymddangos ar basbortau. Y gwir amdani yw bod y Llywodraeth Lafur yn Llundain wedi methu, ac wedi gwrthod cynhyrchu ffurflenni Cymraeg yn y maes hwn, sy'n camwahaniaethu yn erbyn busnesau sy'n dymuno gwneud busnes drwy gyfrwng y Gymraeg. Ai dyma enghraifft arall o'r Llywodraeth yn dweud un peth ac yn gwneud rhywbeth gwahanol?

**Y Prif Weinidog:** Yn ddiweddar, ar lefel swyddogion yn hytrach na Gweinidog, bu'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon mewn cysylltiad â'n swyddogion ni a Bwrdd yr Iaith Gymraeg ynghylch ceisio cael ffurflenni cais ar gyfer trwyddedau alcohol ac adloniant yn Gymraeg. Yr ydym wedi ei gwneud hi'n glir i'r adran ein bod yn disgwyl iddi wneud hynny, oherwydd dyna ein dehongliad ni o'r gyfraith o ran statws cyfartal y Gymraeg a'r Saesneg mewn busnes cyhoeddus fel hwn.

**Lorraine Barrett:** First Minister, whenever it is that you discuss the issue of licences, particularly for city-centre pubs and clubs, will you do what you can to promote the use of plastic glasses in these establishments, especially where there is a history of glass attacks?

**The First Minister:** Yes. For everyone's attention, I commend the innovative, brilliant and occasionally life-saving work of Professor Shepherd at the medical school in Cardiff, who has been a pioneer in this area. We think of this issue particularly in the context of hot-weather weekends such as that which we have just had, when people may well think about carrying their beer glasses outside. Assuming that it is possible to sit outside or go out onto the pavement, it is essential that you use a plastic glass, because things can deteriorate rapidly when a lot of alcohol has been drunk. The hotter the weather, the more people are inclined to do that. Using plastic glasses is important, given

various issues, most recently with respect to the availability of Welsh-language application forms.

**Alun Ffred Jones:** On precisely that point, during last week's debate on 'Iaith Pawb', we heard the statement that Welsh would now appear on passports. The fact of the matter is that the Labour Government in London has failed, and is refusing to produce the relevant Welsh-language forms in this area, which discriminates against businesses wanting to conduct their business in Welsh. Is this not another example of the Government saying one thing and doing another?

**The First Minister:** Recently, at official rather than ministerial level, the Department for Culture, Media and Sport has been in contact with our officials and officials from the Welsh Language Board concerning providing Welsh-language application forms for alcohol and entertainment licences. We have made it clear to the department that we expect it to deliver on that, because that is our interpretation of the law relating to the equal status of the Welsh and English languages in a public business such as this.

**Lorraine Barrett:** Brif Weinidog, bob tro y byddwch yn trafod mater trwyddedau, yn enwedig trwyddedau i dafarnau a chlybiau yng nghanol dinas, a wnewch hynny a allwch i hybu defnyddio gwydrau plastig yn y manau hynny, yn enwedig rhai lle y mae ymosodiadau â gwydrau wedi bod?

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf. Hoffwn, gerbron pawb, gymeradwyo'r Athro Shepherd yn yr ysgol feddygol yng Nghaerdydd, sydd wedi gwneud gwaith arloesol, gwych, sydd ar adegau wedi arbed bywydau, ac sydd wedi torri tir newydd yn y maes hwn. Yr ydym yn meddwl am y mater hwn yn fwyaf arbennig yng nghyd-destun penwythnosau o dywydd poeth fel yr un yr ydym newydd ei gael, pan fydd pobl efallai yn meddwl am fynd â'u gwydrau cwrw allan gyda hwy. Os bydd modd eistedd y tu allan neu fynd allan ar y palmant, mae'n hanfodol eich bod yn defnyddio gwydrau plastig, gan fod pethau'n gallu dirywio'n gyflym pan yfir cryn dipyn o alcohol. Yn y tywydd poeth, mae pobl yn fwy

our type of alcohol-drinking culture, which does not involve the same measure of self control as the wine-sipping countries 400 or 500 miles to the south of us. When you combine the culture of binge drinking with occasional hot weather, it can result in fights, fights can result in glassing, and glassing can result in the loss of life or the loss of an eye.

**Nick Bourne:** On the point raised by Alun Ffred Jones, what discussions have you had with the Secretary of State for Wales on the issue of forms provided or generated by Westminster that are not available in Welsh? This raises serious issues. I note what you say, and we had a written statement by the Finance Minister last week on this issue. These forms are due in by 6 August, so what indulgence is being shown to people who want to fill in these forms in Welsh when they are not available in Welsh? Is that not a breach of the Act?

**The First Minister:** I am not sure that our interpretation is that it is a breach of the Act. However, it is certainly not in line with the Act to fail to provide these forms in Welsh. We have made it clear to the Department for Culture, Media and Sport that that is our view. I wrote to you on 24 June, following a previous question, explaining that DCMS had some concerns about the potential practical difficulties arising from applications made in Welsh, but that we had made it clear that we did not regard those difficulties as insurmountable, and that we expected it to find a workable solution with the assistance of our specialist officials and those of the Welsh Language Board.

**Nick Bourne:** I acknowledge that you wrote to me speedily after I first raised the issue in the Chamber. However, that is not my question. I asked whether you had raised the matter with the Secretary of State across the board, and what indulgence, or latitude, will be shown to those who want to fill in the forms in Welsh but who have not received them, bearing in mind that the deadline is 6

tueddol o wneud hynny. Mae defnyddio gwydrau plastig yn bwysig, o ystyried ein diwylliant o yfed alcohol, lle na cheir yr un hunan-reolaeth ag a geir yn y gwledydd sy'n sipian gwin 400 neu 500 milltir i'r de oonom. Pan fyddwch yn cyfuno'r diwylliant o oryfed yn gymdeithasol â thywydd poeth achlysurol, gall arwain at ymladd, gall ymladd arwain at ymosodiadau â gwydrau, a gall defnyddio gwydr fel hyn arwain at golli bywyd neu golli llygad.

**Nick Bourne:** Ynglŷn â'r pwynt a godwyd gan Alun Ffred Jones, pa drafodaethau yr ydych wedi eu cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch ffurflenni a ddarperir neu a gynhyrchir gan San Steffan nad ydynt ar gael yn Gymraeg? Mae hyn yn codi pwyntiau difrifol. Nodaf yr hyn sydd gennych i'w ddweud, a chawsom ddatganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid ar y mater hwn yr wythnos diwethaf. Rhaid dychwelyd y ffurflenni hyn erbyn 6 Awst, felly pa ras sy'n cael ei roi i bobl sydd am lenwi'r ffurflenni hyn yn Gymraeg a hwythau heb fod ar gael yn Gymraeg? Onid yw hynny'n torri gofynion y Ddeddf?

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf yn siŵr a yw'n torri gofynion y Ddeddf yn ôl ein dehongliad ni. Fodd bynnag, mae'n sicr bod methu â darparu'r ffurflenni hyn yn Gymraeg yn groes i'r Ddeddf. Yr ydym wedi mynegi ein barn yn groyw i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Ysgrifennais atoch ar 24 Mehefin, wedi cael cwestiwn o'r blaen, i esbonio bod gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon rai pryderon ynglŷn â'r anawsterau ymarferol posibl sy'n deillio o geisiadau yn Gymraeg, ond ein bod wedi ei gwneud yn amlwg nad oeddem yn cytuno nad oedd modd eu datrys, a'n bod yn disgwyl iddynt ddod o hyd i ateb ymarferol gyda chymorth ein swyddogion arbenigol a rhai Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

**Nick Bourne:** Yr wyf yn derbyn eich bod wedi ysgrifennu ataf yn fuan ar ôl imi godi'r mater gyntaf yn y Siambr. Fodd bynnag, nid hynny yw fy nghwestiwn. Gofynnais a ydych wedi codi'r mater gyda'r Ysgrifennydd Gwladol a pha faddeuant, neu ras, a roir i'r rhai sydd am lenwi'r ffurflenni yn Gymraeg ond sydd heb eu derbyn, gan gofio bod y dyddiad cau ar 6 Awst?

August?

**The First Minister:** I have not raised this specific issue with the Secretary of State, as we have been dealing directly with DCMS on this matter. I will look into the issue of whether further latitude is required. The reason for that is that, about a month ago, regardless of whether the application forms were to be filled in in Welsh or in English, in principle, there was a great deal of concern that fewer than 10 per cent of pubs or other institutions that would require an alcohol licence had bothered to fill them in. That percentage has risen sharply over the last fortnight due to the fact that the deadline is approaching; we all know of the phenomenon of leaving things to the last minute when insurance needs to be renewed and so on. Pub chains are obviously no different to other human beings or Assembly Members in that regard. However, they seem to be catching up quickly. Whether or not this is a practical problem because of the non-availability until a late date—or not at all—of Welsh forms is something that I will have to look into, and I will write to you with the answer.

**Nick Bourne:** I am grateful for that. In view of the fact that recess is pending, will you put a copy of that response in the Library, so that it is available to other Members?

**The First Minister:** I always follow that practice, and I give you that guarantee on this occasion.

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf wedi codi'r mater penodol hwn gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, gan ein bod wedi bod yn delio'n uniongyrchol â'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ynglŷn â'r mater. Ystyriaf y cwestiwn a oes angen rhagor o ras. Y rheswm am hynny yw, tua mis yn ôl, boed y ffurflenni cais i'w llenwi yn Gymraeg neu yn Saesneg, o ran egwyddor, fod cryn bryder mai llai na 10 y cant o dafarnau a sefydliadau eraill y byddai angen trwydded alcohol arnynt oedd wedi trafferthu eu llenwi. Mae'r ganran honno wedi codi'n sylweddol yn ystod y pythefnos diwethaf oherwydd bod y dyddiad cau'n dynesu'n gyflym; yr ydym i gyd yn gyfarwydd â gadael pethau tan y funud olaf pan fydd angen adnewyddu yswiriant ac yn y blaen. Mae'n amlwg nad yw'r cwmnïau sy'n berchen ar dafarnau'n wahanol i fodau dynol eraill nac Aelodau'r Cynulliad yn hynny o beth. Fodd bynnag, ymddengys eu bod yn dechrau deffro. Bydd yn rhaid imi ystyried a yw hyn yn broblem ymarferol ai peidio oherwydd nad oes ffurflenni Cymraeg ar gael nes ei bod yn hwyr—neu nad ydynt ar gael o gwbl—ac ysgrifennaf atoch gyda'r ateb.

**Nick Bourne:** Yr wyf yn ddiolchgar am hynny. Gan fod y toriad ar ein gwarthaf, a wnewch chi roi copi o'r ateb hwnnw yn y Llyfrgell, er mwyn iddo fod ar gael i Aelodau eraill?

**Y Prif Weinidog:** Byddaf yn gwneud hynny bob amser, ac yr wyf yn rhoi'r sicrwydd hwnnw ichi y tro hwn.

### Ynni Adnewyddadwy Renewable Energy

**Q5 Glyn Davies:** Will the First Minister outline his Government's proposals for developing sources of renewable energy? OAQ0696(FM)

**The First Minister:** Our consultation document, 'Wales Energy Route Map', sets out proposals for developing clean and affordable energy in Wales, including renewable energy. It contains a range of actions, some of which are under way, for secure and diverse energy generation, which

**C5 Glyn Davies:** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynigion ei Lywodraeth ar gyfer datblygu ffynonellau o ynni adnewyddadwy? OAQ0696(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae ein dogfen ymgynghori 'Map Llwybrau Ynni Cymru' yn cyflwyno cynigion i ddatblygu ynni glân a fforddiadwy yng Nghymru, gan gynnwys ynni adnewyddadwy. Mae'n cynnwys amrywiaeth o gamau, rhai ohonynt ar waith isoes, ar gyfer cynhyrchu ynni diogel ac

minimises impact on the environment while maintaining economic competitiveness.

**Glyn Davies:** Before I ask my supplementary question, I should declare a potential family interest in a windfarm.

One of my greatest concerns, like many others, is the single-minded focus of your Government on onshore wind as a source of renewable energy. Almost no attention is paid to alternative sources, such as hydro, solar or biomass energy. Why is it that, underpinning almost everything that your Government does, there is this single-minded obsession with onshore wind? This breeds resentment in so many parts of Wales, and damages something that all Members should be backing.

**The First Minister:** That characterisation is wrong. If we are to make reasonable progress on achieving the target of renewable energy generation by 2010, at this moment in time there is only one show in town, which is onshore wind energy. Other technologies—the most obvious of which is offshore wind—are beginning to play a part; we already have the North Hoyle windfarm. Between 2010 and 2020, you would expect to see a much wider diversity of renewable energy sources, such as biomass, offshore wind, solar power and so on.

2.20 p.m.

Over the next five years, those technologies will not be available for reaching a 10 per cent target for renewable energy. However, in the second decade of the twenty-first century we would expect a much bigger concentration and we are preparing for it now. There is no obsession with one single technology—it simply concerns the timing in which those technologies are effectively available to us.

**John Griffiths:** Climate change is becoming ever more apparent as a huge threat to the future of the planet and the future of all life on the planet—it is as serious as that. I agree with your comments about the immediate role that wind power has to play. Would you

amrywiol, sy'n lleihau unrhyw effeithiau ar yr amgylchedd ond gan barhau'n gystadleuol yn economaidd.

**Glyn Davies:** Cyn imi ofyn fy nghwestiwn atodol, dylwn ddatgan buddiant teuluol posibl mewn fferm wynt.

Un o'm pryderon mwyaf, fel llawer o bobl eraill, yw pwyslais diwyro eich Llywodraeth ar wynt ar y tir fel ffynhonnell ynni adnewyddadwy. Nid oes dim sylw bron wedi ei roi i ffynonellau amgen, megis ynni dŵr, ynni'r haul neu ynni bio-màs. Beth yw'r rheswm am yr obsesiwn diwyro hwn gyda gwynt ar y tir, sy'n sail i bopeth bron y mae eich Llywodraeth yn ei wneud? Mae hyn yn achosi dicter mewn llawer rhan o Gymru, ac mae'n niweidio rhywbeth y dylai pob Aelod fod yn ei gefnogi.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r dehongliad hwnnw'n anghywir. Os ydym am wneud cynnydd rhesymol i gwrdd â'r targed o gynhyrchu ynni adnewyddadwy erbyn 2010, ar hyn o bryd dim ond un ffordd sydd gennym o wneud hynny, sef ynni gwynt ar y tir. Mae technolegau eraill - y mwyaf amlwg o'r rhain yw gwynt ar y môr - yn dechrau chwarae rhan; mae'r fferm wynt yn North Hoyle gennym eisoes. Rhwng 2010 a 2020, byddech yn disgwyl gweld llawer mwy o amrywiaeth o ran ffynonellau ynni adnewyddadwy, megis bio-màs, gwynt ar y môr, ynni'r haul ac yn y blaen.

Yn ysgod y pum mlynedd nesaf, ni fydd y technolegau hynny ar gael i gyrraedd targed o 10 y cant ar gyfer ynni adnewyddadwy. Fodd bynnag, yn ail ddegawd yr unfed ganrif ar hugain, byddem yn disgwyl cael mwy o lawer ohonynt ac yr ydym yn paratoi ar gyfer hynny'n awr. Nid oes obsesiwn ag un math o dechnoleg—mae a wnelo â pha bryd y bydd y technolegau hynny ar gael inni i'w defnyddio.

**John Griffiths:** Mae'r newid yn yr hinsawdd yn dod yn fwyfwy amlwg fel byggythiad anferth i ddyfodol y blaned ac i ddyfodol yr holl fywyd sydd ar y blaned—mae mor ddifrifol â hynny. Cytunaf â'ch sylwadau ynghylch y rhan sydd i'w chwarae gan ynni

also agree that those who find windfarms contentious should bear in mind that one of the alternatives is a greater use of nuclear energy, which involves huge inherent risks and terribly unresolved questions about what to do with nuclear waste?

**The First Minister:** I agree, in the sense that our proposals would be based on a mixture of renewable energies, clean coal and liquified natural gas fire-powered stations from the additional gas supplies which will be made available within Wales by 2007-08 in the Milford Haven area, as it becomes Britain's key port for importing LNG. That is what we would expect the energy mix to be—renewable energy, clean coal and LNG-based gas-fired, combined cycle power stations as the next decade proceeds.

gwynt yn awr. A gytunech hefyd y dylai'r rhai sydd yn credu bod ffermydd gwynt yn ddadleuol gofio mai un o'r dewisiadau eraill yw mwy o ddefnydd o ynni niwclear, y mae peryglon enbyd yn gysylltiedig ag ef, ynghyd â chwestiynau sydd ymhell o gael eu hateb ynghylch yr hyn y dylid ei wneud â gwastraff niwclear?

**Y Prif Weinidog:** Cytunaf, yn yr ystyr y byddai ein cynigion yn seiliedig ar gymysgedd o fathau o ynni adnewyddadwy, glo glân a gorsafoedd trydan a fydd yn llosgi nwy naturiol hylifol a geir o'r cyflenwadau nwy ychwanegol a fydd ar gael yng Nghymru erbyn 2007-08 yn ardal Aberdaugleddau, wrth iddo ddod yn brif borthladd Prydain ar gyfer mewnforio nwy naturiol hylifol. Cymysgedd felly o ynni a ddisgwyliem—ynni adnewyddadwy, glo glân a gorsafoedd trydan cylch cyfunol sydd yn llosgi nwy naturiol hylifol—wrth i'r degawd nesaf fynd rhagddo.

### Cyfraddau Anweithgarwch Inactivity Rates

**C6 Arweinydd yr Wrthblaid (Ieuan Wyn Jones):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y cyfraddau anweithgarwch diweddaraf yng Nghymru? OAQ0708(FM)

**Y Prif Weinidog:** Y cyfraddau anweithgarwch ymysg pobl o oedran gwaith rhwng Chwefror ac Ebrill 2005 oedd 25.2 y cant, sef cynnydd ar y flwyddyn flaenorol. Er hynny, yr oedd nifer y bobl a oedd yn hawlio budd-daliadau salwch ac anabledd yng Nghymru ym mis Chwefror—yn ôl ffigurau diweddaraf 2005—2.8 y cant yn is na'r flwyddyn flaenorol.

**Ieuan Wyn Jones:** Yr ydych yn ymwybodol eich bod wedi dewis ffigurau o fis Chwefror, tra bo'r ffigurau ar gyfer mis Mehefin yn rhoi darlun eithaf gwahanol. Rhwng Mehefin 2004 a Mehefin 2005, yr oedd 12,000 o bobl yng Nghymru yn llai yn weithgar yn economaidd. Gan eich bod yn honni bod eich polisi economaidd yn llwyddiant, sut yr ydych yn ei gysoni â'r ffigurau hynny?

**Y Prif Weinidog:** Yr ystadegwyr sydd wedi dewis y cyfnod a roddwyd fel ateb i'ch cwestiwn. Y peth pwysig yw ei fod yn dangos darlun dryslyd, sef bod cwmp eithaf

**Q6 The Leader of the Opposition (Ieuan Wyn Jones):** Will the First Minister make a statement on the latest inactivity rates in Wales? OAQ0708(FM)

**The First Minister:** The working age economic inactivity rate in Wales between February and April 2005 was 25.2 per cent, an increase on the previous year. However, the number of people claiming out-of-work sickness and disability benefits in Wales in February 2005—according to the latest 2005 figures—was 2.8 per cent down on the previous year.

**Ieuan Wyn Jones:** You will be aware that you have chosen figures from February, while the figures for June paint quite a different picture. Between June 2004 and June 2005, there were 12,000 less economically active people in Wales. Since you claim that your economic policy is a success, how do you reconcile it with those figures?

**The First Minister:** It is the statisticians who have chosen the period given in answer to your question. The important thing is that it shows a very confusing picture, namely that

sylweddol o 2.8 y cant yng nghanran y bobl sy'n dibynnu ar fudd-daliadau salwch ac anabled a chynnydd yng nghanran, neu gyfradd, y bobl sydd yn y categori anweithgarwch yn gyffredinol. Nid wyf yn siŵr sut y mae datrys y dryswch, a cheisio deall sut y gall un ffigur fod at i lawr, a'r ffigur arall at i fyny. Fodd bynnag, mae'n dangos bod y ffigur anweithgarwch wedi cynyddu, ond ei fod lawer yn is nag ydoedd yn 1999. O ran y ffigur sy'n mynd i'r cyfeiriad y byddem oll am ei weld, sef gostyngiad yn y nifer sy'n anweithgar, mae'n werth sylwi y bu cwmp y Nghymru a chynnydd ym Mhrydain Fawr yn gyffredinol.

**Ieuan Wyn Jones:** Pa ffordd bynnag yr ydych yn edrych ar y sefyllfa, y ffaith amdani yw bod llai o bobl yn weithgar yn economaidd fis ar ôl mis ers rhai blynyddoedd yng Nghymru. O roi hynny o'r neilltu am eiliad, gan y bydd y ffigurau yn dangos hynny, rhaid ichi gydnabod bod y diwydiant gweithgynhyrchu a'r diwydiant prosesu bwyd yng Nghymru wedi cael colledion o gannoedd o swyddi yn ystod y misoedd diwethaf. Yn benodol, collwyd tua 1,500 o swyddi mewn cyfnod cymharol fyr. Mae hynny yn ychwanegol at y toriadau sylweddol mewn gweithgynhyrchu ers 1999. A ydych yn derbyn bod gennych chi, y Prif Weinidog, a'ch Llywodraeth gyfrifoldeb a rôl i'w chwarae i greu'r hinsawdd economaidd gywir i sicrhau na chawn golledion fel y rhain fis ar ôl mis?

**Y Prif Weinidog:** Wrth gwrs, ond pan ystyriwch y ganran o bobl sy'n ddi-waith yng Nghymru yn awr, rhaid derbyn ei bod ar lefel nas gwelwyd ers 30 mlynedd. Mae'r lefel yn awr yr un ag ar ddechrau 1975, ac, felly, dylem ni, yn enwedig o ystyried y sefyllfa ar draws Ewrop, ymfalchïo yn hynny. Cydymdeimlaf yn llwyr â'r bobl hynny sydd naill ai dan fygythiad colli swydd neu sydd wedi ei cholli, fel y clywsom mewn cyhoeddiadau diweddar gan Sony ac eraill. Y pwynt pwysig yw nad oes amser da i golli swydd, ond, yn gymharol, mae'n llai gwael colli swydd pan fo'r cyfanswm o bobl ddi-waith yn llai nag a fu ers cenhedlaeth.

there has been a quite significant decrease of 2.8 per cent in the percentage of people dependent on sickness and disability benefits, and an increase in the percentage, or rate, of people in the inactive category in general. I am not sure how to resolve the confusion, and try to understand how one figure can be down and the other figure up. However, it shows that the inactivity figure has increased, but it is much lower than it was in 1999. In terms of the figure going in the direction we would all like to see, namely a decrease in inactivity, it is worth noting that there has been a decrease in Wales and an increase in Great Britain in general.

**Ieuan Wyn Jones:** Whichever way you look at the situation, the fact is that the economically inactive figures have been increasing month on month for some years in Wales. Putting that aside for a moment, as the figures will show that to be the case, you must acknowledge that the manufacturing and food processing industries in Wales have experienced hundreds of job losses during the past months. Specifically, about 1,500 jobs were lost in a relatively short period. That is in addition to the significant cuts in manufacturing since 1999. Do you accept that you, the First Minister, and your Government have a responsibility and a role to play in creating the right economic climate to ensure that we do not see such losses month after month?

**The First Minister:** Of course, but when you consider the proportion of people who are out of work in Wales now, you must accept that it is at a level that has not been seen for 30 years. It is at the same level now as it was at the beginning of 1975, so we should, especially in the light of the European context, take pride in that. I sympathise completely with those who are under the threat of losing their jobs or who have already lost their jobs, as we heard in the recent announcements by Sony and others. The important point is that there is never a good time to lose your job, but, comparatively, it is less bad for someone to be made redundant when the total number of people unemployed is lower than it has been for a generation.

**Leighton Andrews:** There are several important schemes to help deal with economic inactivity, such as the Department for Work and Pensions scheme being run jointly with Rhondda Cynon Taf Local Health Board, which is running a pilot programme as part of a UK-wide scheme. There is also a scheme to which the Assembly Government is starting to give additional support through additional regional selective assistance grants to companies that qualify for RSA. Do you agree that, given that the scheme is intended to take people who are currently economically inactive, it is important that the scheme is properly marketed to those companies that qualify for RSA?

**The First Minister:** Indeed, and, although I cannot quote an example from Rhondda Cynon Taf, I can give one from an adjoining area that is also taking part in the Pathways to Work pilot scheme, which, you were right to say, we are running, as junior partners, with the Department for Work and Pensions. I heard passionate advocacy of the successful potential of that scheme from the personnel manager of a particular company—I think it was Cooper Standard Automotive Ltd in Maesteg—who said that he was amazed and that, having participated in the scheme, he was initially a sceptic as to whether it was possible to get reasonable productivity from people coming off a special list held by the Department for Work and Pensions. However, he found that the productivity of those people was in fact above average, and not below average, and that he would recommend that every HR manager go along to the DWP to see whether they could have access to that special list, because you get extra motivation from people who have perhaps not been in the conventional labour market for quite a while.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German):** The WDA is our key agency for dealing with economic inactivity. Last month, the Minister for Economic Development and Transport said of the WDA that, according to the WDA's own assessment of its—frankly devastating—internal review:

**Leighton Andrews:** Ceir sawl cynllun pwysig i helpu i ddelio ag anweithgarwch economaidd, fel cynllun yr Adran Gwaith a Phensiynau sydd yn cael ei redeg ar y cyd â Bwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf, sydd yn rhedeg rhaglen beilot fel rhan o gynllun ar gyfer y DU gyfan. Mae cynllun hefyd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gychwyn i roi cymorth ychwanegol drwy grantiau cymorth rhanbarthol dewisol ychwanegol i gwmnïau sydd yn gymwys i gael cymorth rhanbarthol dewisol. A ydych yn cytuno, gan mai'r hyn y bwriedir ei wneud drwy'r cynllun yw derbyn pobl sydd yn economaidd anweithgar ar hyn o bryd, ei bod yn bwysig marchnata'r cynllun yn iawn ymysg y cwmnïau hynny sydd â hawl i gael cymorth rhanbarthol dewisol?

**Y Prif Weinidog:** Yn wir, ac, er na allaf gyfeirio at enghraifft yn Rhondda Cynon Taf, gallaf gyfeirio at un mewn ardal gyfagos sydd hefyd yn cymryd rhan yng nghynllun peilot Llwybrau at Waith, yr ydym yn ei redeg, fel y dywedasoch, fel partner iau, gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau. Clywais ddadl angerddol dros y posibilrwydd o gael llwyddiant drwy'r cynllun hwnnw gan reolwr staff rhyw gwmni—credaf mai Cooper Standard Automotive Cyf ym Maes-teg ydoedd—a ddywedodd ei fod wedi rhyfeddu, ac, wedi iddo gymryd rhan yn y cynllun, ei fod yn amheus ar y dechrau ynghylch a fyddai modd cael cynhyrchiant gweddol gan rai a fu ar restr arbennig gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Er hynny, cafodd fod cynhyrchiant y bobl hynny'n uwch na'r cyfartaledd, ac nid yn is na'r cyfartaledd, a dywedodd y byddai'n argymhell y dylai pob rheolwr adnoddau dynol fynd at yr Adran Gwaith a Phensiynau i gael gwybod a gâi weld y rhestr arbennig honno, oherwydd ceir mwy o frwdfrydedd ymysg rhai nad ydynt efallai wedi bod yn y farchnad lafur gonfensiynol ers cryn amser.

**Arweinydd Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Michael German):** Y WDA yw'r brif asiantaeth sydd gennym i ddelio ag anweithgarwch economaidd. Y mis diwethaf, dywedodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth am y WDA, gan gyfeirio at asesiad y WDA o'i adolygiad mewnol ei hun—sydd yn un deifiol, a dweud y gwir—fod:



'The international division significantly underperformed in 2004-05 and failed to reach its own job target... The WDA's internal review has shown clearly that the international division has severely underperformed.'

In June 2004, Peter Hain said:

'Perhaps I may take this opportunity of praising the team there. It is an exceptionally able and dedicated team, it is relatively small, but it really is going great guns in making sure that all opportunities are open for Wales. I have nothing but the highest praise for the WDA.'

Given that the WDA has a reputation garnered over many years, do you agree that the turnaround in fortunes between June 2004 and June 2005 could only have come as a result of your announcement of its closure and the way in which you have subsequently hamstrung its operations?

**The First Minister:** I am afraid that your timing is all wrong, Mike. Think how long it takes for a project to move from the time the job-finding agency—the 'punter hunters' as you might say, employed by the WDA in the USA, Japan or wherever—makes contact with the company, to the time it becomes a registerable figure for jobs created that goes down into the figure of underperformance in 2004-05, which you are correct to allude to; it clearly could have nothing to do with the announcement that I made this time last year. You are right to refer to the fact that there was underperformance: that was uncovered by the internal review undertaken by Gareth Hall, the new acting chief executive. He discovered a mismatch between, at least, certain parts of the international division—I think that north America had only produced 70 jobs, which was well below target. Of course, the market is changing, but even so, that was still seen as a much-below-par performance. There was a mismatch between the resource applied and the results achieved. However, any drop-off in performance in 2005 would have been as a result of the failure to follow up or discover leads during 2002 and 2003 and could not have had any causal connection with the announcement

perfformiad yr is-adran ryngwladol ymhell o fod cystal â'r disgwyl yn 2004-05 a'i bod wedi methu â chyrraedd ei tharged ei hun ar gyfer swyddi... Mae adolygiad mewnol y WDA wedi dangos yn glir fod yr is-adran ryngwladol wedi tanberfformio'n ddifrifol.

Ym Mehefin 2004, dywedodd Peter Hain:

Efallai y caf achub ar y cyfle hwn i ganmol y tîm sydd yno. Mae'n dîm eithriadol o alluog ac ymroddedig, mae'n gymharol fach, ond mae'n mynd fel fflamiau wrth sicrhau bod pob cyfle ar gael i Gymru. Nid oes gennyf ddim ond y clod mwyaf i'r WDA.

Gan fod y WDA wedi ennill enw iddo'i hun dros flynyddoedd lawer, a ydych yn cytuno mai'r unig beth a allasai beri'r newid yn ei ffawd rhwng Mehefin 2004 a Mehefin 2005 yw eich cyhoeddiad ei fod yn cael ei gau a'r modd yr ydych wedi llesteirio ei weithgareddau wedyn?

**Y Prif Weinidog:** Mae arnaf ofn fod eich amseru'n holl anghywir, Mike. Ystyriwch yr amser y mae'n ei gymryd i brosiect symud ymlaen o'r adeg y mae'r asiantaeth sy'n chwilio am swyddi—yr 'helwyr cwsmeriaid' fel y gallech eu galw, a gyflogir gan y WDA yn UDA, Siapan, neu ble bynnag y bo—yn cysylltu â'r cwmni, hyd yr adeg y gellir cofnodi nifer y swyddi a grewyd drwyddo sydd yn cael ei gynnwys yn ffigur y tanberfformiad yn 2004-05, yr ydych yn iawn wrth gyfeirio ato; mae'n amlwg na allai hynny fod yn gysylltiedig â'r cyhoeddiad a wneuthum yr adeg hon y llynedd. Yr ydych yn iawn wrth gyfeirio at y ffaith bod tanberfformiad: datgelwyd hynny drwy'r adolygiad mewnol a gynhaliwyd gan Gareth Hall, y prif weithredwr dros dro newydd. Darganfu fod diffyg ym mherfformiad rhai rhannau o'r is-adran ryngwladol, o leiaf—credaf nad oedd gogledd America ond wedi creu 70 o swyddi, sydd yn is o lawer na'r targed. Wrth gwrs, mae'r farchnad yn newid, ond hyd yn oed os ydyw, barnwyd bod y perfformiad hwnnw'n anfoddhaol iawn. Yr oedd diffyg cyfatebiaeth rhwng yr adnoddau a ddefnyddiwyd a'r canlyniadau a gafwyd. Fodd bynnag, byddai unrhyw ostyngiad yn y perfformiad yn 2005 yn ganlyniad i fethu â

made last year.

dilyn neu ddarganfod trywyddau yn ystod 2002 a 2003 ac ni allai fod yn gysylltiedig â'r cyhoeddiad a wnaethpwyd y llynedd.

2.30 p.m.

**Michael German:** You are probably aware of the performance of the international division of the WDA in 2003-04, which is the year preceding 2004-05, during which you say there was underperformance. In 2003-04, we had a high level of performance, when we were first in the UK in terms of creating jobs, and then the following year we did not see that high level of performance. The difference between one year and the next is that we are seeing a collapsing morale within the WDA as its opportunities have been moved around. In addition, all the people who are queuing up, as you say, to perhaps invest in the UK, are being told by our competitors that there is no point in dealing with the WDA because it is being disbanded. Surely, that is bound to have an effect on potential investors, and is that not the real reason why there was a downturn?

**The First Minister:** Not at all. That downturn, if there ever was to be one, would not show up until 2006 or 2007, given the length of time that it takes for leads to turn into actual investment decisions that you can put down in the list. It is important for me to correct you. I did not say that there was underperformance; it was Gareth Hall's report that stated that there was underperformance and a mismatch of resources and results within the WDA. That is a problem that the WDA has uncovered and will be correcting. It will be matching the performance with the resources applied in a way in which you would always expect it to: having found that there is a problem, it will then correct it. We will give it every support in doing that.

**Michael German:** Let me ask the question in another way, First Minister. Can you tell me when you learnt from the board of the WDA that there was a significant reduction in the number of inquiries about Wales in terms of inward investors?

**The First Minister:** I do not remember being informed of that; that is a matter for the board

**Michael German:** Mae'n debyg eich bod yn gwybod am berfformiad is-adran ryngwladol y WDA yn 2003-04, sef y flwyddyn cyn 2004-05, pan gafwyd tanberfformiad, fel y dywedaso. Yn 2003-04, cawsom berfformiad rhagorol, a ninnau'n gyntaf yn y DU o ran creu swyddi, ac yna yn y flwyddyn ddilynol ni welsom berfformiad ragorol o'r fath. Y gwahaniaeth rhwng y naill flwyddyn a'r llall yw ein bod yn gweld digalonni yn y WDA gan fod ei gyfleoedd wedi'u newid. Yn ogystal â hynny, mae pawb sydd yn disgwyl eu tro, fel y dywedwch, i fuddsoddi yn y DU, o bosibl, yn cael eu hysbysu gan ein cystadleuwyr nad oes diben delio â'r WDA gan ei fod yn cael ei ddirwyn i ben. Mae hynny'n sicr o gael effaith ar fuddsoddwyr posibl, ac onid hynny yw'r gwir reswm dros y gostyngiad?

**Y Prif Weinidog:** Dim o gwbl. Ni fyddai gostyngiad o'r fath, pe bai'n digwydd ryw dro, yn dod i'r golwg tan 2006 neu 2007, oherwydd yr amser a gymerir i'r trywyddau a ddilyniir droi'n benderfyniadau i fuddsoddi y gellir eu rhoi ar y rhestr. Mae'n bwysig imi eich cywiro. Ni ddywedais fod tanberfformiad; adroddiad Gareth Hall a ddywedodd fod tanberfformiad a diffyg cyfatebiaeth rhwng yr adnoddau a'r canlyniadau yn y WDA. Mae hynny'n broblem y mae'r WDA wedi ei darganfod a bydd yn ei datrys. Bydd yn sicrhau cyfatebiaeth rhwng y perfformiad a'r adnoddau a ddefnyddir fel y disgwyliech iddo wneud: ar ôl darganfod bod problem, bydd yn ei datrys. Rhoddwn bob cefnogaeth iddo wrth iddo wneud hynny.

**Michael German:** Gadewch imi ofyn y cwestiwn ar ffurf arall, Brif Weinidog. A allwch ddweud wrthyf pa bryd y cawsoch wybod gan fwrdd y WDA fod gostyngiad sylweddol yn nifer yr ymholiadau am Gymru gan fewnfuddsoddwyr?

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf yn cofio cael fy hysbysu am hynny; mae hynny'n fater y dylai

of the WDA to have picked up from the performance of its different divisions. I am not sure which members of the board sit on the sub-committee that deals with the international investment division. However, I believe that the first indications that we had that there had been this level of mismatch between resources applied and results achieved was when the Gareth Hall report was published.

**Peter Law:** Will you now be using your influence with UK Ministers to change for the better the regional development policy in order to allow a change in the direction of industry so that it is developed in places such as my constituency of Blaenau Gwent, where there is a great lack of quality jobs? Since the closure of the Ebbw Vale steelworks, we are still looking around for jobs to be directed into the area so that the families of those people fortunate to secure those jobs have a quality of life. Will you use all your influence to persuade UK Government Ministers that we have to have something different to ensure that we are not left as have-nots while others in Britain are the haves?

**The First Minister:** This is not the first time that you have asked me this question. If I had the level of influence that you credit me with, we would have a lot of industry flowing into Blaenau Gwent and other parts of Wales. However, we must accept that that will not happen. That is not part of the Government's strategy, and it would involve an absolutely massive change in the overall approach. Therefore, it is the incentive-based strategy that will continue to be applied, and we are having successes. I was in Blaenau Gwent around a month ago celebrating the major new investment in the Sogefi plant in Tredegar. People there told me how incredibly pleased they were with the performance of their workforce and with the way in which we had incentivised their decision to invest. Although it is an Italian company with a strong French influence, it decided that Tredegar and Llantrisant was the place for it.

bwrdd y WDA fod wedi cael gwybod amdano drwy berfformiad ei wahanol is-adrannau. Nid wyf yn sicr pa aelodau o'r bwrdd sydd yn eistedd ar yr is-bwyllgor sydd yn delio â'r is-adran buddsoddi rhyngwladol. Fodd bynnag, credaf inni gael gwybod am yr arwyddion cyntaf bod diffyg cyfatebiaeth o'r fath rhwng yr adnoddau a ddefnyddiwyd a'r canlyniadau a gafwyd pan gyhoeddwyd adroddiad Gareth Hall.

**Peter Law:** A wnewch arfer eich dylanwad yn awr gyda Gweinidogion y DU i newid y polisi datblygu rhanbarthol er gwell er mwyn caniatáu newid yng nghyfeiriad diwydiant fel y bydd yn datblygu mewn lleoedd fel fy etholaeth i, sef Blaenau Gwent, lle y mae swyddi da'n brin iawn? Ers cau gwaith dur Glynebwy, yr ydym yn dal i chwilio am swyddi i'w cyfeirio i'r ardal fel y bydd teuluoedd y rhai a lwydda i gael y swyddi hynny'n cael ansawdd bywyd da. A wnewch arfer eich holl ddylanwad i berswadio Gweinidogion Llywodraeth y DU i weld bod rhaid inni gael rhywbeth gwahanol er mwyn sicrhau na chawn ein gadael heb ddim tra bo digon gan eraill ym Mhrydain?

**Y Prif Weinidog:** Nid hwn yw'r tro cyntaf ichi ofyn y cwestiwn hwnnw. Pe meddwn ar y dylanwad y credwch ei fod gennyf, byddai llawer o ddiwydiannau'n llifo i Flaenau Gwent a rhannau eraill o Gymru. Fodd bynnag, rhaid inni dderbyn na ddigwydd hynny. Nid yw hynny'n rhan o strategaeth y Llywodraeth, a byddai'n golygu newid aruthrol yn y dull cyffredinol o weithredu. Gan hynny, bydd y strategaeth sydd yn seiliedig ar anogaethau'n dal i gael ei defnyddio, ac yr ydym yn cael llwyddiant. Bûm ym Mlaenau Gwent tua mis yn ôl yn dathlu'r buddsoddiad mawr newydd yng ngwaith Sogefi yn Nhredegar. Cefais wybod gan rai yn y fan honno eu bod yn fodlon dros ben ar berfformiad eu gweithwyr a'r modd yr oeddem wedi rhoi anogaeth iddynt benderfynu buddsoddi. Er mai cwmni o'r Eidal sydd â chryn ddylanwad Ffrengig arno ydyw, penderfynodd mai yn Nhredegar a Llantrisant yr oedd am fod.

### **Ambiwlansys yn y Canolbarth a'r Gorllewin Ambulances in Mid and West Wales**

**Q7 Lisa Francis:** Will the First Minister **C7 Lisa Francis:** A wnaiff y Prif Weinidog

make a statement on the response times of ambulances in Mid and West Wales? OAQ0698(FM)

**The First Minister:** A total of 56.5 per cent of first responses to category A immediately life-threatening calls arrived within eight minutes. This is an increase in performance on the same quarter for the previous year, when it was 53.6 per cent.

**Lisa Francis:** The Minister for Health and Social Services tells me that ambulance response times are an operational issue for the Welsh Ambulance Services NHS Trust, Health Commission Wales and local health boards. However, latest figures, while improved, show that, in Powys, only 45 per cent of emergency call-outs get a response from an ambulance within the target time of eight minutes.

A Llanidloes GP recently described the response times as 'skating on thin ice' and a road traffic accident victim in Llandrindod Wells had to be taken to hospital by the police after being left lying in the road for half an hour. What will it take for your Government to get involved in these so-called operational matters, or is that not politically convenient?

**The First Minister:** None of those things. It is simply that you cannot expect an override by the health Minister of the micromanagement of operational decisions by ambulance controllers. That is not practical and would not result in an improvement. That is some sort of myth, which opposition politicians will occasionally wave around and state that the health Minister should be directing ambulances to those places. That is just not realistic, to be honest.

You should consider the fact that, although the Powys performance of 45 per cent looks low, it is an awful lot better than the 40 per cent of the previous year. We set the standards and expect them to achieve those standards. Clearly, something good was

ddatganiad ar amseroedd ymateb ambiwlansys yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ0698(FM)

**Y Prif Weinidog:** Yr oedd 56.5 y cant o'r ambiwlansys a ymatebodd gyntaf i alwadau yng nghategori A ar gyfer achosion lle'r oedd bygythiad i fywyd ar y pryd wedi cyrraedd cyn pen wyth munud. Mae'r perfformiad hwnnw'n well na'r un yn yr un chwarter yn y flwyddyn flaenorol, pan oedd yn 53.6 y cant.

**Lisa Francis:** Dywed y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthyf mai mater gweithredol i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru, Comisiwn Iechyd Cymru a'r byrddau iechyd lleol yw amseroedd ymateb ambiwlansys. Fodd bynnag, mae'r ffigurau diweddaraf, er eu bod wedi gwella, yn dangos mai dim ond 45 y cant o'r galwadau brys y mae ambiwlans yn ymateb iddynt o fewn yr amser targed o wyth munud ym Mhowys.

Disgrifiodd meddyg teulu o Lanidloes yr amseroedd aros fel 'sglefrïo ar rew tenau' yn ddiweddar a bu'n rhaid i rywun oedd wedi cael ei anafu mewn damwain yn Llandrindod gael ei gludo i'r ysbyty gan yr heddlu ar ôl bod yn gorwedd ar y ffordd am hanner awr. Beth sy'n rhaid iddo ddigwydd cyn y bydd eich Llywodraeth yn mynd ati i ymhel â'r materion hyn sy'n cael eu galw'n faterion gweithredol, neu a yw hynny'n anghyfleus yn wleidyddol?

**Y Prif Weinidog:** Dim un o'r pethau hynny. Y gwir syml yw na allwch ddisgwyl i'r Gweinidog iechyd wrth-wneud microeolaeth y rheolwyr ambiwlansys dros benderfyniadau gweithredol. Nid yw hynny'n ymarferol ac ni fyddai'n arwain at welliant. Mae'n rhyw fath o fyth, y mae gwleidyddion y gwrthbleidiau yn ei chwifio o amgylch o bryd i'w gilydd gan ddweud y dylai'r Gweinidog iechyd fod yn cyfarwyddo ambiwlansys i'r mannau hynny. Nid yw hynny'n realistig, a bod yn onest.

Dylech ystyried y ffaith, er bod perfformiad Powys o 45 y cant i'w weld yn isel, ei fod lawer iawn yn well na'r 40 y cant y flwyddyn flaenorol. Gosod y safonau yr ydym ni ac yr ydym yn disgwyl iddynt gyrraedd y safonau hynny. Yn amlwg, yr oedd rhywbeth da yn

happening in the sense that there were sharp improvements in some of the rural parts covered by the Mid and West Wales Ambulance Service—not always, because the percentage decreased in some places. However, performance certainly improved in Ceredigion and Powys, where it increased by 5 per cent, which is pretty good.

**Kirsty Williams:** The ambulance crew in Ystradgynlais recently had to respond to calls in Glasbury-on-Wye and Newbridge-on-Wye—a distance of over 50 miles from their ambulance station. That is the equivalent of an ambulance in Cardiff responding to a call in Llanelli. They did not reach their destination in eight minutes. If your Minister is not interested in the micromanagement of the ambulance service, is he interested in its macromanagement? Will he make more funds available so that the ambulance trust can employ more crews and more vehicles in Brecon and Radnorshire?

**The First Minister:** I am glad that you appreciate the difference between standard-setting, macromanagement and micromanagement. That was an absurd proposition from the previous questioner. The important point is that not all ambulances spend their time in the ambulance station per se. It is not necessarily the case that if they are coming from Ystradgynlais ambulance station, for example, they must have started from Ystradgynlais. In fact, it is very rarely the case; it may have been on this occasion, but usually in rural areas, the ambulance station is simply the garage. They then move to stand-off points, where they are most conveniently located without knowing to where they will be called. However, ambulance stations, which you can see all over rural Wales, are usually in lay-bys on main roads from where they can shoot off and, on the basis of past experience, minimise the journey time. It may be that, on this occasion, they did leave directly from the garage, but that would rarely be the case. Perhaps we need a little more information from you on what happened on this occasion.

digwydd yn yr ystyr bod gwelliannau amlwg mewn rhai o'r rhannau gwledig a wasanaethir gan Wasanaeth Ambiwllans Canolbarth a Gorllewin Cymru—nid bob amser, oherwydd gostyngodd y ganran mewn rhai manau. Fodd bynnag, bu gwelliant yn sicr yn y perfformiad yng Ngheredigion a Phowys, lle y cynyddodd 5 y cant, sydd yn bur dda.

**Kirsty Williams:** Yn ddiweddar bu'n rhaid i'r criw ambiwlans yn Ystradgynlais ymateb i alwadau yn y Clas ar Wy a'r Bontnewydd ar Wy—pellter o dros 50 milltir o'u gorsaf ambiwlansys. Mae hynny'n cyfateb i ambiwlans yng Nghaerdydd yn ymateb i alwad yn Llanelli. Ni chyraeddasant eu cyrchfan mewn wyth munud. Os nad oes gan eich Gweinidog ddiddordeb ym microeolaeth y gwasanaeth ambiwlans, oes diddordeb ganddo yn y facoreolaeth drosto? A wnaiff ddarparu rhagor o arian fel bod modd i'r ymddiriedolaeth ambiwlans gyflogi rhagor o griwiau a rhagor o gerbydau ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed?

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn falch eich bod yn sylweddoli beth yw'r gwahaniaeth rhwng gosod safonau, macoreolaeth a microeolaeth. Yr oedd hwnnw'n gynnig hurt gan yr holwr blaenorol. Y pwynt pwysig yw nad yw pob ambiwlans yn treulio ei hamser i gyd yn yr orsaf ambiwlansys fel y cyfryw. Nid yw'n wir o reidrwydd, os ydynt yn dod o orsaf ambiwlansys Ystradgynlais, er enghraifft, eu bod wedi cychwyn yn Ystradgynlais. Yn wir, anaml iawn y mae hynny'n digwydd; efallai mai felly y bu hi ar yr achlysur hwn, ond fel arfer mewn ardaloedd gwledig, nid yw'r orsaf ambiwlansys yn ddim ond garej. Wedyn maent yn symud i fannau aros, lle y maent wedi eu lleoli yn fwyaf hwylus heb wybod i ble y cânt eu galw. Fodd bynnag, mae'r gorsafedd ambiwlansys, sydd i'w gweld ar draws y Gymru wledig, fel arfer mewn cilfannau ar brif ffyrdd lle y gallant ruthro oddi yno ar eu taith ac, ar sail profiadau'r gorffennol, cwtogi'r amser teithio i'r eithaf. Efallai, ar yr achlysur hwn, eu bod wedi gadael yn uniongyrchol o'r garej, ond anaml y byddai hynny'n digwydd. Efallai fod angen ychydig rhagor o wybodaeth arnom oddi wrthych am yr hyn a ddigwyddodd ar yr achlysur hwn.

**Elin Jones:** Efallai fod y targed yng Ngheredigion wedi cynyddu o 5 y cant ond mae'n parhau i fod 10 y cant yn is na tharged y Llywodraeth. Mae'r diffyg cyllid i ddarparu digon o ambiwlansau i gwrdd â'r targedau hyn yn amlwg yng Ngheredigion. Mae diffyg hefyd o £1.4 miliwn yng nghyllid y GIG yng Ngheredigion eleni, sy'n achosi perygl gwirioneddol i gleifion a gwasanaethau cleifion yng Ngheredigion. A dderbyniwch fod y gost o ddarparu gwasanaeth iechyd mewn ardal wledig yn uwch oherwydd yr angen i ddarparu dros bellteroedd? Os felly, a gredwch y dylai hynny gael ei adlewyrchu mewn system ariannu ar gyfer y GIG?

**Elin Jones:** The target in Ceredigion may have risen by 5 per cent, but it is still 10 per cent below the Government's target. The lack of funding to provide enough ambulances to meet those targets is quite evident in Ceredigion. There is also a shortfall of £1.4 million in the NHS budget in Ceredigion this year, which causes a real danger to patients and patient services in Ceredigion. Do you accept that the cost of providing healthcare in rural areas is higher because of the greater distances involved? If so, do you think that that should be reflected in a funding system for the NHS?

**Y Prif Weinidog:** Wrth gwrs, mewn egwyddor, ond o faint? Dyna'r peth pwysig: beth yw'r gost ychwanegol pan fo'r pellteroedd yn fwy na'r cyffredin? Pwynt pwysig arall yw eich bod yn addasu'r gwasanaeth i natur yr ardal. Dyna pam mai'r criwiau ambiwlans sy'n gwasanaethu mewn ardaloedd megis canolbarth a gorllewin Cymru—277 ohonynt—oedd y cyntaf i'w hyfforddi i ddarparu thrombolysis i gleifion. Gwnaed y buddsoddiad yn eu hyfforddiant oherwydd bod y pellteroedd o'r ysbytai lawer yn fwy yn y Canolbarth a'r Gorllewin nag mewn ardaloedd eraill yng Nghymru.

**The First Minister:** Of course, in principle, but by how much? That is the important point: what is the additional cost when the distances are greater than usual? Another important point is that you adapt the service to the local area. That is why the ambulance crews serving areas such as mid and west Wales—227 of them—were the first to be trained to perform thrombolysis on patients. That investment in their training was made because the distances from hospitals are much greater in mid and west Wales than they are in other parts of Wales.

### **Y Sector Gwirfoddol The Voluntary Sector**

**Q8 Carl Sargeant:** Will the First Minister make a statement on the voluntary sector in Wales? OAQ0694(FM)

**C8 Carl Sargeant:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y sector gwirfoddol yng Nghymru? OAQ0694(FM)

**The First Minister:** The voluntary sector remains at the forefront of Assembly policy. The recommendations of the independent commission, which reviewed the Assembly's voluntary sector scheme are being taken forward in partnership with the sector itself. These include a strategic action plan for its future development.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r sector gwirfoddol yn dal i fod â lle blaenllaw ym mholisi'r Cynulliad. Mae argymhellion y comisiwn annibynnol, a adolygodd gynllun sector gwirfoddol y Cynulliad, yn cael eu rhoi ar waith mewn partneriaeth â'r sector ei hun. Mae'r rhain yn cynnwys cynllun gweithredu strategol ar gyfer ei ddatblygiad i'r dyfodol.

2.40 p.m.

**Carl Sargeant:** Sandy Mewies and I, the elected Members for Flintshire, attended the Flintshire Local Voluntary Council meeting on Friday. Flintshire neighbourhood watch had a stand at the event, and it told me about its prestigious work promoting community

**Carl Sargeant:** Bu Sandy Mewies a minnau, yr Aelodau etholedig dros sir y Fflint, yng nghyfarfod Cyngor Gwirfoddol Lleol sir y Fflint ddydd Gwener. Yr oedd gan gynllun gwarchod cymdogaeth sir y Fflint stonddin yn y digwyddiad, a dywedwyd wrthyf am waith

safety for young and old. Will you ask your Minister to write to me on the financial position and support for Flintshire neighbourhood watch in the future?

**The First Minister:** I will ask Edwina Hart to do that. From what you say, it sounds as though it is doing a sterling job and should be given every encouragement to continue to do so.

**Janet Ryder:** At the last meeting of the North Wales Regional Committee, the many hospice movements in north Wales gave a presentation. The movements are part of the voluntary sector, and they all raised the same issue: that the funding that they have been granted by the National Assembly runs out in April 2006. At the date of that meeting, none of them had been contacted by officials or your Minister regarding continuing funding. They would all like to have discussions with the Minister and his officials regarding the development of revenue funding. Will you ensure that those discussions take place?

**The First Minister:** We have not been ungenerous on the question of hospice funding. Hospices throughout Wales have, in general, said that they are quite pleased with the way in which we have prioritised them. About 12 months before the end of a three-year funding period, people always start to get very twitchy. However, I am sure that they will find that we are not going to neglect the hospice movement.

**William Graham:** Will you join with me in saluting other members of voluntary services, including mountain and cave rescue crews and the Royal National Lifeboat Institution, who will probably be called upon a great deal over the next couple of months as it is the holiday season?

**The First Minister:** Indeed. I have met the central Brecon Beacons mountain rescue team at their operating base in Merthyr Tydfil. They do a remarkable job, but they are not alone. The RNLI and mountain rescue are a critical part of the back-up to any enjoyment of the more dangerous parts of our environment, which provide a challenge and

da'r cynllun yn hyrwyddo diogelwch cymunedol i'r ifanc a'r hen. A wnaiff y Gweinidog ysgrifennu ataf am sefyllfa ariannol cynllun gwarchod cymdogaeth sir y Fflint a'r gefnogaeth iddo i'r dyfodol?

**Y Prif Weinidog:** Gofynnaf i Edwina Hart wneud hynny. Yn ôl yr hyn a ddywedwch, mae'n swnio fel pe bai'n gwneud gwaith rhagorol a dylid rhoi pob anogaeth iddo i barhau i wneud hynny.

**Janet Ryder:** Yng nghyfarfod diwethaf Pwyllgor Rhanbarthol y Gogledd, rhoddodd y llu o fudiadau hosbis yn y Gogledd gyflwyniad. Mae'r mudiadau yn rhan o'r sector gwirfoddol, a chodwyd yr un mater ganddynt i gyd: bod y cyllid y mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi ei roi iddynt yn dod i ben ym mis Ebrill 2006. Adeg y cyfarfod, nid oedd y swyddogion na'ch Gweinidog wedi cysylltu â'r un ohonynt ynghylch parhau â'r cyllid. Byddent i gyd yn hoffi cael trafodaethau gyda'r Gweinidog a'i swyddogion ynghylch datblygu cyllid refeniw. A wnewch sicrhau bod y trafodaethau hynny'n digwydd?

**Y Prif Weinidog:** Nid ydym wedi bod yn grintachlyd ar fater cyllido hosbisau. Yn gyffredinol, mae hosbisau ledled Cymru wedi dweud eu bod yn bur fodlon â'r ffordd yr ydym wedi eu blaenoriaethu. Tua 12 mis cyn diwedd cyfnod cyllido tair blynedd, mae pobl bob amser yn dechrau poeni. Fodd bynnag, yr wyf yn siŵr nad ydym yn mynd i esgeuloso'r mudiad hosbisau.

**William Graham:** A wnewch ymuno â mi i ganmol aelodau eraill gwasanaethau gwirfoddol, gan gynnwys y criwiau achub mynydd ac ogofâu a Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub, y bydd cryn dipyn o alwadau arnynt mae'n debyg dros y misoedd nesaf yn ystod y tymor gwyliau?

**Y Prif Weinidog:** Yn wir. Yr wyf wedi cwrdd â thîm achub mynydd canol Bannau Brycheiniog yn eu canolfan weithredu ym Merthyr Tudful. Maent yn gwneud gwaith hynod, ond nid hwy yw'r unig rai. Mae'r RNLI a'r timau achub mynydd yn rhan hollbwysig o'r cymorth wrth gefn wrth inni fwynhau rhannau mwyaf peryglus ein

a huge attraction to people, not all of whom go out with the full equipment. In any case, you can always be caught out by bad weather, whether at sea or on the top of a mountain in the Brecon Beacons or Snowdonia. In such cases, you simply have to have the mountain rescue or the lifeboat crews to help to bring you safely down or safely to land.

hamgylchedd, sy'n her ac yn atyniad enfawr i bobl, nad yw pawb ohonynt bob amser yn mynd allan gyda'r holl gyfarpar. A pha un bynnag, gallwch bob amser gael eich dal gan dywydd mawr, boed hynny ar y môr neu ar gopa mynydd ym Mannau Brycheiniog neu Eryri. Mewn achosion felly, rhaid ichi gael criwiau achub mynydd neu fad achub i helpu i ddod â chi i lawr yn ddiogel neu i ddod â chi i'r lan yn ddiogel.

### **Proffil a Delwedd Cymru The Profile and Image of Wales**

**Q9 John Griffiths:** Will the First Minister make a statement on progress in developing the profile and image of Wales in the world? OAQ0700(FM)

**C9 John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynnydd a wnaed gyda datblygu proffil a delwedd Cymru gerbron y byd? OAQ0700(FM)

**The First Minister:** There was a very good example of this yesterday and today, as the first informal ministerial meeting of the six months of the British presidency is taking place in Wales. Last night, the reception was in City Hall; today, it is about to commence its final session. That involves 50 Ministers—perhaps more—from the 25 EU countries as well as, I think, Bulgaria and Romania, as applicant countries; four European commissioners; and people from the Department of Trade and Industry, as the lead ministry. Andrew Davies also took part in yesterday's session. That is a very good example of raising Wales's profile. The reception that we had last night in the impressionist gallery of the National Museum and Gallery went extremely well.

**Y Prif Weinidog:** Cafwyd enghraifft dda iawn o hyn ddoe a heddiw, gan fod y cyfarfod anffurfiol cyntaf i weinidogion yn ystod chwe mis llywyddiaeth Prydain yn cael ei gynnal yng Nghymru. Neithiwr, yr oedd y derbyniad yn Neuadd y Ddinas; heddiw, mae ar fin dechrau ar ei sesiwn derfynol. Mae hynny'n golygu 50 o Weinidogion—mwy efallai—o'r 25 o wledydd yn yr UE yn ogystal ag o Bwlgaria a Rwmania, fel gwledydd sy'n gwneud cais, fe gredaf; pedwar o gomisiynwyr Ewropeaidd; a phobl o'r Adran Masnach a Diwydiant, fel y weinyddiaeth sy'n arwain. Cymerodd Andrew Davies hefyd ran yn y sesiwn ddoe. Mae hynny'n enghraifft dda iawn o godi proffil Cymru. Aeth y derbyniad a gawsom neithiwr yn yr oriel argraffiadol yn yr Amgueddfa a'r Oriel Genedlaethol yn arbennig o dda.

**John Griffiths:** It is good to see such events taking place in Wales. I also welcome the statement that you will make tomorrow on Wales's contribution to the Make Poverty History campaign. Do you agree that developing Wales's role in combating the awful problems of extreme poverty in the developing world is worthwhile, and that it will show an outward-looking, internationalist and progressive Wales and Assembly, committed to adding value to the worldwide effort for fairness and justice for the developing world?

**John Griffiths:** Mae'n dda gweld digwyddiadau o'r fath yn cael eu cynnal yng Nghymru. Croesawaf hefyd y datganiad y byddwch yn ei wneud yfory am gyfraniad Cymru tuag at yr ymgyrch Rhowch Derfyn ar Dlodi. A ydych yn cytuno ei bod yn werth chweil datblygu rôl Cymru wrth ymladd yn erbyn problemau dychrynlyd tlodi enbyd yn y byd sy'n datblygu, ac y bydd yn dangos Cymru a Chynulliad rhyngwladol a blaengar, sy'n edrych tuag allan, wedi ymrwymo i ychwanegu gwerth at yr ymdrech fyd-eang o blaid tegwch a chyfiawnder i'r byd sy'n datblygu?



**The First Minister:** All of those points were highlighted at the Gleneagles G8 summit last week. Now that Britain is chairing that body as well as the EU presidency for the same six months, I commend to everyone the successful negotiating of a conclusion. It may not be perfection in the view of many voluntary organisations that specialise in the field, but it would not be life in politics if they expressed themselves to be completely satisfied. However, I commend Prime Minister Tony Blair, as president of the G8, on his efforts in brokering a settlement there. With regard to tomorrow's statement, you will have to wait until tomorrow before you know whether you really welcome it, John, because we have not yet had the business statement.

**Jonathan Morgan:** First Minister, Welsh food is becoming increasingly important as a marketing tool to sell Wales around the world. The European Union has a number of labels that can be used to protect the status of food products, for example, the protected designation of origin label and the protected geographical indication label. When United Kingdom food products are listed under these labels, Welsh beef and lamb are obviously listed. This is a good way not only of protecting the status of these products, but also of underpinning their quality. Bearing in mind the range of other foodstuffs that Wales is becoming well known for, do you think that we should be doing more to get Welsh products listed under this particular labelling so that we can market these products and Wales further, not just within the EU but further afield?

**The First Minister:** I agree with that, Jonathan. In a way, branded food and drink exports are the advance guard of other exports. If we had the equivalent of Guinness in Ireland and whisky in Scotland in promoting an image of those countries, it would make it easier for other products to follow behind. I commend the efforts of Carwyn Jones in persuading the authorities in Dubai on behalf of the whole of the United Arab Emirates to lift the ban on Welsh lamb. It has had the consequence of lifting the ban

**Y Prif Weinidog:** Pwysleisiwyd y pwyntiau hynny i gyd yn uwchgyhadledd yr G8 yn Gleneagles yr wythnos diwethaf. Gan fod Prydain bellach yn cadeirio'r corff hwnnw yn ogystal â llywyddu'r UE yn ystod yr un cyfnod o chwe mis, yr wyf yn cymeradwyo i bawb y modd y llwyddwyd i negodi penderfyniad. Efallai nad yw'n berffaith yn ngolwg llawer o fudiadau gwirfoddol sy'n arbenigo yn y maes, ond ni fyddai'n beth arferol mewn gwleidyddiaeth iddynt ddatgan eu bod yn gwbl fodlon. Fodd bynnag, yr wyf yn cymeradwyo'r Prif Weinidog, Tony Blair, fel llywydd yr G8, ar ei ymdrechion wrth gael cytundeb yno. O ran y datganiad yfory, bydd yn rhaid ichi aros tan yfory nes y byddwch yn gwybod a ydych yn ei groesawu mewn gwirionedd, John, oherwydd nid ydym wedi cael y datganiad busnes eto.

**Jonathan Morgan:** Brif Weinidog, mae bwyd o Gymru yn dod yn arf marchnata cynyddol bwysig i werthu Cymru ar draws y byd. Mae gan yr Undeb Ewropeaidd nifer o labeli y gellir eu defnyddio i ddiogelu statws cynhyrchion bwyd, er enghraifft, y label dynodi tarddiad gwarchoddedig a'r label dynodiad daearyddol gwarchoddedig. Pan gaiff cynhyrchion bwyd o'r Deyrnas Unedig eu rhestru o dan y labeli hyn, yn amlwg rhestrir cig eidion a chig oen o Gymru. Mae hon yn ffordd dda nid yn unig o ddiogelu statws y cynhyrchion hyn, ond hefyd o sefydlu eu hansawdd. A chadw mewn cof yr ystod o fwydydd eraill y mae Cymru yn dod yn enwog amdanynt, a ydych o'r farn y dylem fod yn gwneud mwy i sicrhau bod cynhyrchion o Gymru'n cael eu rhestru o dan y drefn labelu neilltuol hon fel bod modd inni farchnata'r cynhyrchion hyn a Chymru ymhellach, nid o fewn yr UE yn unig ond yn fwy eang?

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn cytuno â hynny, Jonathan. Mewn ffordd, mae allforion bwyd a diod wedi eu brandio yn rhagflaenwyr i allforion eraill. Pe bai gennym rywbeth sy'n cyfateb i Guinness yn Iwerddon a wisgi yn yr Alban o ran hyrwyddo delwedd o'r gwledydd hynny, byddai'n ei gwneud yn llawer haws i gynhyrchion eraill ddilyn yn eu sgîl. Cymeradwyaf ymdrechion Carwyn Jones yn perswadio'r awdurdodau yn Dubai ar ran yr Emiradau Arabaidd Unedig drwyddynt draw i godi'r gwaharddiad ar gig oen o Gymru.

on British lamb as well. It was Welsh lamb that they really wanted, but there was no practical legal way of defining Welsh lamb in that sense. It is a huge coup and an enormous feather in our cap for us, for Carwyn and for the officials both in our division of rural affairs and in WalesTrade International that that ban has been lifted. If you can get that lamb accepted in the whole of the United Arab Emirates, it gives an indication of the high quality of our meat exports. Everything else can then move in behind that because of the prestige involved.

Mae wedi arwain at godi'r gwaharddiad ar gig oen o Brydain hefyd. Cig oen o Gymru yr oeddent yn dymuno ei gael mewn gwirionedd, ond nid oedd dull cyfreithiol ymarferol o ddiffinio cig oen o Gymru yn yr ystyr hwnnw. Mae'n orchest enfawr ac yn glod o'r mwyaf i ni, i Carwyn ac i swyddogion yn ein his-adran materion gwledig ac ym MasnachCymru Rhyngwladol fod y gwaharddiad wedi cael ei godi. Os gallwch sicrhau bod y cig oen hwnnw'n cael ei dderbyn yn yr Emiradau Arabaidd Unedig drwyddynt draw, mae'n arwydd o ansawdd da ein hallforion cig. Gall popeth arall wedyn ddilyn yn sgîl hynny oherwydd y bri sydd ynghlwm â'r datblygiad.

### **Y Gyfarwyddeb Ansoffedd Ewropeaidd The European Insolvency Directive**

**Q10 Owen John Thomas:** What representations has the First Minister made to the Westminster Government regarding the European insolvency directive? OAQ0701(FM)

**C10 Owen John Thomas:** Pa sylwadau y mae'r Prif Weinidog wedi eu cyflwyno i Lywodraeth San Steffan parthed y gyfarwyddeb ansolfedd Ewropeaidd? OAQ0701(FM)

**The First Minister:** I have not met UK Government Ministers regarding this recently, but I met Mick Leahy, general secretary of the Community Union, previously known as the Iron and Steel Trades Confederation, regarding this matter yesterday. We have been in quite frequent communication with the UK Government on this issue over the past three years.

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf wedi cwrdd â Gweinidogion Llywodraeth y DU ynglŷn â hyn yn ddiweddar, ond cyfarfûm â Mick Leahy, ysgrifennydd cyffredinol Undeb y Gymuned, a arferai gael ei alw'n Gydffederasiwn y Gweithwyr Haearn a Dur, ynglŷn â'r mater hwn ddoe. Yr ydym wedi cysylltu'n weddol reolaidd â Llywodraeth y DU ynghylch y mater hwn yn ystod y tair blynedd diwethaf.

**Owen John Thomas:** You will be aware, First Minister, that there are two reasons for the delays in meeting the needs of the steelworkers in this matter. The first is that the National Insurance Contributions Office is understaffed, and is taking a long time to get its wind-up process under way. That is, it is being brought to an end. The other matter is that of the hearing for the European directive, which is being delayed because the Government has refused to fast-track it, although the union has applied to it to do that. What you are doing to facilitate those two processes—one that can be brought forward by employing people in NICO, and the second by your persuading your Government to bring forward the hearing on that European directive?

**Owen John Thomas:** Byddwch yn ymwybodol, Brif Weinidog, fod dau reswm dros yr oedi cyn bodloni anghenion gweithwyr dur yn y mater hwn. Y cyntaf yw nad oes digon o staff yn y Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol, a'i bod yn cymryd amser hir i roi ei phroses o ddirwyn i ben ar waith. Y mater arall yw'r gwrandawriad ar gyfer y gyfarwyddeb Ewropeaidd, y mae oedi yn ei gylch am fod y Llywodraeth wedi gwrthod ei roi ar y trywydd cyflym, er bod yr undeb wedi gwneud cais am iddi wneud hynny. Beth yr ydych yn ei wneud i hwyluso'r ddwy broses hynny—byddai modd symud y gyntaf ymlaen drwy gyflogi pobl yn y Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol, a'r ail wrth ichi berswadio eich Llywodraeth i ddod â'r

gwrandawriad ar y gyfarwydddeb Ewropeaidd hon ymlaen?

**The First Minister:** When you say a hearing on the European directive, you mean the actual case that the Community Union is bringing, asking for it to be transferred directly to the European Court of Justice before exhausting all the European law. Everyone in Wales was disappointed by the view taken by the British Government's lawyers that the conventional procedure of exhausting the UK's legal procedures, including the House of Lords, had to be followed before they would accept that it should be transferred to the European Court of Justice. Everyone is disappointed by that; Mick Leahy expressed the same point of view to me yesterday. The NICO issue is one that we discussed with the trustees in that particular case. I will write to you about the question of understaffing that you allege.

**Y Prif Weinidog:** Pan gyfeiriwch at wrandawriad ar y gyfarwydddeb Ewropeaidd, yr ydych yn golygu'r achos y mae Undeb y Gymuned yn ei ddwyn, yn gofyn iddo gael ei drosglwyddo'n uniongyrchol i Lys Cyfiawnder Ewrop cyn iddo fynd drwy'r holl gyfraith Ewropeaidd. Yr oedd pawb yn siomedig gyda barn cyfreithwyr y Llywodraeth Brydeinig fod yn rhaid dilyn y drefn gonfensiynol o fynd drwy holl weithdrefnau cyfreithiol y DU, gan gynnwys Tŷ'r Arglwyddi, cyn y byddent yn derbyn y dylai gael ei drosglwyddo i Lys Cyfiawnder Ewrop. Mae pawb yn siomedig am hynny; mynegodd Mick Leahy yr un safbwynt wrthyf ddoe. Mae'r mater ynglŷn â'r Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn un a drafodwyd gennym gyda'r ymddiriedolwyr yn yr achos neilltuol hwnnw. Ysgrifennaf atoch ynghylch eich honiad bod diffyg staff.

#### Gwasanaethau Trên Train Services

**Q11 Irene James:** Will the First Minister make a statement on improving train services through the south Wales Valleys? OAQ0703(FM)

**C11 Irene James:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar wella gwasanaethau trên drwy Gymoedd y De? OAQ0703(FM)

**The First Minister:** On 26 January, Andrew Davies announced that an additional £50 million is to be spent on extra rolling stock for the Cardiff Valleys network to reduce overcrowding and to go into four-carriage operations. Allied with that is the work starting shortly on the reopening of the Ebbw Vale passenger line. The work will take place during 2006 and 2007. That represents a major further investment on top of the reopening of the Vale of Glamorgan line.

**Y Prif Weinidog:** Ar 26 Ionawr, cyhoeddodd Andrew Davies fod £50 miliwn ychwanegol i gael ei wario ar gerbydau ychwanegol ar gyfer rhwydwaith Caerdydd a'r Cymoedd i leihau'r gorlenwi ac i sefydlu gwasanaethau pedwar cerbyd. Law yn llaw â hynny y mae'r gwaith a fydd yn dechrau'n fuan ar ailagor rheilffordd Glynebwy i deithwyr. Bydd y gwaith yn cael ei wneud yn ystod 2006 a 2007. Mae hynny'n golygu buddsoddiad mawr pellach ar ben ailagor rheilffordd Bro Morgannwg.

2.50 p.m.

**Irene James:** Rhodri, do you agree with the Bevan Foundation report 'Ambitions for the Future', that improving transport and communications, and especially public transport, is an essential prerequisite for regeneration of the Valleys? Would you further agree that prioritising the Ebbw Vale

**Irene James:** Rhodri, a ydych yn cytuno ag adroddiad Sefydliad Bevan 'Ambitions for the Future', fod gwella trafndiaeth a chysylltiadau, ac yn enwedig trafndiaeth gyhoeddus, yn ofyniad hanfodol i adfywio'r Cymoedd? A fydddech yn cytuno hefyd y bydd rhoi blaenoriaeth i lein Glynebwy, a

line, which will serve the people of my constituency in Islwyn, will remove many of the restrictions and limitations of poor accessibility, and will spur on greater local investment?

**The First Minister:** I believe that it will, both in terms of investment and access to jobs, travelling north and south on that line. You will be pleased to know that tenders are programmed to be returned by the end of this month, with a view to a contract award later this year. We hope it will be opened before April 2007, and we are all looking forward to that. Phase 2, the Newport link, subject to a major re-signalling works and station capacity at Newport, is programmed to open in 2009.

fydd yn gwasanaethu pobl fy etholaeth yn Islwyn, yn cael gwared ar lawer o'r cyfyngiadau a'r trafferthion sydd ynghlwm wrth fod yn anhygyrch, ac y bydd yn rhoi hwb i fuddsoddiad yn lleol?

**Y Prif Weinidog:** Credaf y bydd yn gwneud hynny, o ran buddsoddiad a mynediad at swyddi, wrth deithio i'r gogledd a'r de ar y lein honno. Byddwch yn falch o glywed bod y tendrau i fod i gael eu dychwelyd erbyn diwedd y mis hwn, a'r contract i fod i gael ei ddyfarnu yn ddiweddarach eleni. Yr ydym yn gobeithio y bydd wedi ei hagog cyn Ebrill 2007, ac yr ydym i gyd yn edrych ymlaen at hynny. Disgwylir y bydd Cam 2, cyswllt Casnewydd, lle y mae gwaith mawr ar y signalau ac i wella'r orsaf yng Nghasnewydd yn cael ei wneud, yn cael ei agor yn 2009.

### **Datganiad Busnes Business Statement**

**The Business Minister (Jane Hutt):** I have two changes to report to this week's business. Following this statement, the First Minister will make a statement on the recent terrorist attack in London, and later this afternoon I will seek to move a procedural motion to bring forward no-named day motion NNDM2553 to change Standing Orders. Business for the next three weeks is as set out on the draft statement, which can be found on the Chamberweb, under supporting documents. Further to this morning's deliberations in the Business Committee, it has been determined that the following items of subordinate legislation need not be referred to a subject committee for extended consideration: the Local Government (Access to Information) (Variation) (Wales) Order 2005, the Adoption Information and Intermediary Services (Pre-commencement Adoptions) (Wales) Regulations 2005 and the Access to Information (Post-commencement Adoptions) (Wales) Regulations 2005.

**Y Llywydd:** A oes gwrthwynebiad i'r datganiad busnes? Gwelaf nad oes. Felly, gwahoddaf sylwadau.

**Elin Jones:** Bydd y Trefnydd yn gwybod bod

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Mae gennyf ddau newid i'w cyhoeddi i fusnes yr wythnos hon. Yn dilyn y datganiad hwn, bydd y Prif Weinidog yn gwneud datganiad ar yr ymosodiad terfysgol diweddar yn Llundain, ac yn ddiweddarach y prynhawn yma byddaf yn gwneud cynnig trefniadol i gyflwyno cynnig heb ddyddiad trafod NNDM2553 i newid Rheolau Sefydlog. Bydd y busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i gwelir ar y datganiad drafft, sydd i'w weld ar we'r Siambr, o dan ddogfennau ategol. Yn dilyn y trafodaethau y bore yma yn y Pwyllgor Busnes, penderfynwyd nad oes angen cyfeirio'r eitemau canlynol o is-ddeddfwriaeth at bwylgor pwnc i'w hystyried ymhellach: Gorchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2005, Rheoliadau Gwybodaeth Mabwysiadu a Gwasanaethau Cyfryngol (Mabwysiadu Cyn Cychwyn) (Cymru) 2005 a'r Rheoliadau Mynediad at Wybodaeth (Mabwysiadu ar ôl Cychwyn) (Cymru) 2005.

**The Presiding Officer:** Are there any objections to the business statement? I see that there are none. I therefore invite comments.

**Elin Jones:** The Business Minister will know

Plaid Cymru wedi gwneud cais yn y Pwyllgor Busnes y bore yma am ddadl ar ddyfodol cymorth gwladwriaethol. Mae'r gallu i gynnig cymorth rhanbarthol dewisol a grantiau busnes yn un o'r arfau pwysicaf sydd gan unrhyw lywodraeth, ac mae'n hanfodol i ni gael y rhyddid mwyaf yng Nghymru i gynnig grantiau i fusnesau. Mae perygl i ni weld dirywiad sylweddol yn y grantiau y bydd gennym hawl i'w cynnig o dan reolau'r Comisiwn Ewropeaidd yn y dyfodol. Mae hynny yn bennaf oherwydd anallu Tony Blair i sicrhau cytundeb ar y gyllideb ym mis Mehefin ar lefel Ewropeaidd. Mae hynny wedi peryglu'n ddifrifol hawl Cymru i gael arian Amcan 1, a thrwy hynny beryglu'r grantiau y byddwn yn gallu eu cynnig i fusnesau. Felly, gobeithiaf y byddwch yn gallu sicrhau dadl ar y pwnc hwn yn y tymor newydd.

Hoffwn ddweud rhywbeth arall am agenda'r wythnos hon. Yr wyf yn rhyfeddu nad oes cyfle wedi bod i ni drafod yn y Cynulliad y ddau ddatganiad gan y Llywodraeth y tu allan i'r Siambr yr wythnos hon—un ar nodyn cyngor technegol 8, ar ynni adnewyddol, a'r llall ar gynllunio a thai fforddiadwy. Mae'r Llywodraeth wedi penderfynu gwneud y ddau ddatganiad i'r wasg yn hytrach nag i'r Cynulliad Cenedlaethol. Yr wyf fi wedi cael gwybod bod un o'r datganiadau yn cael ei wneud y prynhawn yma am 5 p.m., pan fyddwn yn dal i gwrrdd. Ers i mi gael fy ethol yn Aelod o'r Cynulliad yn 1999, ynni gwynt a thai fforddiadwy yw dau o'r prif faterion y mae etholwyr yn eu codi gyda mi. Mae'r ffaith na allwn graffu yn y Siambr ar y ddau fater hyn, sydd yn hollbwysig i'm hetholwyr yng Ngheredigion, yn tanseilio democratiaeth.

**David Melding:** While the Conservative Group is content with this business statement, we think that great care and judgment needs to be applied to the making of statements outside the Chamber, and there are a number of cases where it would have been better had the statements been first delivered here, or, at least, very soon after being made outside.

**Kirsty Williams:** The comments made by Elin Jones and David Melding regarding the discourtesy shown to the Assembly are well made. I am saddened, however, that,

that Plaid Cymru made a request in the Business Committee this morning for a debate on state aid. The ability to offer regional selective assistance and business grants is one of the most important weapons of any Government, and it is essential that we in Wales have the greatest freedom to offer grants to businesses. There is a danger that we will see a significant decline in the grants that we will be able to offer under the European Commission's rules in future. That is largely due to Tony Blair's inability to secure agreement on the budget in June on a European level. This has placed Wales's right to Objective 1 money in grave danger, and thus has endangered the grants that we will be able to offer to business. Therefore, I hope that you will be able to secure a debate on this subject in the new term.

I would like say something else about this week's agenda. I am surprised that there has not been an opportunity for us to discuss in the Assembly the two statements made by the Government outside of this Chamber this week—one on technical advice note 8, on renewable energy, and the other on planning and affordable housing. The Government has decided to make these two statements to the press rather than to the National Assembly. I have learned that one of the statements will be made this afternoon at 5 p.m., when we will still be meeting. Since I was elected as an Assembly Member in 1999, wind energy and affordable housing have been two of the main issues that my constituents have raised with me. The fact that we are not able to scrutinise in the Chamber these two issues, which are very important to my constituents in Ceredigion, undermines democracy.

**David Melding:** Er bod Grŵp y Ceidwadwyr yn fodlon ar y datganiad busnes hwn, yr ydym o'r farn bod angen gofal mawr ac ystyriaeth ofalus wrth wneud datganiadau y tu allan i'r Siambr, ac mewn nifer o achosion byddai wedi bod yn well pe bai'r datganiadau wedi cael eu gwneud yma yn gyntaf neu, o leiaf, yn fuan iawn ar ôl eu gwneud y tu allan.

**Kirsty Williams:** Mae'r sylwadau a wnaethpwyd gan Elin Jones a David Melding ynglŷn â'r anghwrteisi a ddangoswyd tuag at y Cynulliad yn rhai teilwng. Yr oeddwn yn

following the Liberal Democrat group's request this morning, the Minister for Social Justice and Regeneration does not feel it appropriate to make a statement on affordable housing in Plenary. However, I am grateful for the clarification that what was announced yesterday is only a consultation exercise at this stage, and that the money that was announced with regard to the social housing grant is not new money, but simply a re-announcement of money that was already announced in the previous budget debate.

**Carl Sargeant:** It is always good to see opposition Members welcome the business statement, Minister, especially when we are approaching the recess.

Can we perhaps find time to debate issues regarding the Assembly's environmental strategy? I raise that regarding an announcement by the Environment Agency that there will be a debate on the dredging of the River Dee. My constituents in Alyn and Deeside will find that particularly useful, in terms of getting Airbus wings out to the factory in France.

Secondly, perhaps we can consider issues within the social justice and regeneration portfolio, Communities First, and other community events. On Sunday, the Connah's Quay fun day will take place, which is arranged by Connah's Quay town council and Lisa Fearn. That is an important part of play and the development of community spirit, which will be taking place in my constituency of Alyn and Deeside.

**The Presiding Officer:** Order. I do not quite see how that relates to the business statement.

**The Business Minister (Jane Hutt):** It is the end of term, and I can see that there is some goodwill, as well as some questioning. I know that you will be pleased to hear, Elin, that the Minister for Economic Development and Transport has agreed to schedule a debate on state aid in the next term. However, I am sure that you will agree that we have every confidence in the Prime Minister's influence in terms of the budget, in taking up his presidency, and the leadership that he has shown in this regard, particularly in relation

drist, fodd bynnag, yn dilyn cais grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol y bore yma, nad yw'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio'n teimlo ei bod yn briodol gwneud datganiad ar dai fforddiadwy yn y Cyfarfod Llawn. Fodd bynnag, yr wyf yn ddiolchgar am yr esboniad nad yw'r hyn a gyhoeddwyd ddoe yn ddim mwy nag ymarferiad ymgynghori ar hyn o bryd, ac nad yw'r arian a gyhoeddwyd o ran y grant tai cymdeithasol yn arian newydd, ond yn hytrach yn arian a oedd wedi'i gyhoeddi eisoes yn y ddadl flaenorol ar y gyllideb.

**Carl Sargeant:** Mae'n braf bob amser gweld Aelodau'r gwrthbleidiau'n croesawu'r datganiad busnes, Weinidog, yn enwedig pan fo'r toriad yn dynesu.

A allwn, efallai, ddod o hyd i amser i drafod materion sy'n berthnasol i strategaeth amgylcheddol y Cynulliad? Yr wyf yn codi hynny ynglŷn â datganiad gan Asiantaeth yr Amgylchedd am y bwriad i gynnal dadl ar garthu Afon Dyfrdwy. Bydd fy etholwyr yn Alun a Glannau Dyfrdwy yn teimlo bod hyn yn arbennig o ddefnyddiol, o ran cludo adenydd Airbus i'r ffatri yn Ffrainc.

Yn ail, efallai y cawn ystyried materion sy'n dod o fewn y portffolio cyfiawnder cymdeithasol ac adfywio, Cymunedau yn Gyntaf, a digwyddiadau cymunedol eraill. Ddydd Sul, cynhelir diwrnod o hwyl yng Nghei Conna, sy'n cael ei drefnu gan gyngor tref Cei Conna a Lisa Fearn. Mae hyn yn rhan bwysig o chwarae a meithrin ysbryd cymunedol, a fydd yn digwydd yn fy etholaeth, Alun a Glannau Dyfrdwy.

**Y Llywydd:** Trefn. Ni welaf beth sydd a wnelo hynny â'r datganiad busnes.

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Mae'n ddiwedd y tymor, a gallaf weld bod rhywfaint o ewyllys da yn ogystal â chwestiynu. Gwn y byddwch yn falch o glywed, Elin, fod y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth wedi cytuno i drefnu dadl ar gymorth gwladwriaethol yn y tymor nesaf. Fodd bynnag, yr wyf yn siŵr y byddwch yn cytuno bod gennym bob ffydd yn nylanwad y Prif Weinidog o ran y gyllideb, wrth iddo ddechrau ar ei lywyddiaeth, a'r arweiniad y mae wedi ei ddangos yn hyn o beth, yn

to the reform of the common agricultural policy. Therefore, I am sure that you will welcome my announcement of a debate in the next term.

David and Elin raised the issue about the statements that have been made. It is interesting that you cannot win with the opposition; at times it has been said that we have had far too many Government statements in Plenary. To make it clear, we are talking about technical advice notes that Carwyn announced yesterday, which are for consultation. The consultation will run for 16 weeks, and end in October. That is the usual way that technical advice notes are brought forward. I understand that the TAN relating to renewable energy was considered at the last Environment, Planning and Countryside Committee meeting in June. This is of key importance, and there will be time for that consultation.

The people of Wales will be pleased to hear the announcement about how we will spend that extra funding on affordable housing. That is key to those who require social housing in Wales. I am grateful to Kirsty for enlightening the Assembly that this is about consultation, and about extra funding, but, indeed, extra funding that was approved in our budget earlier this year. The people of Wales want to know that there is extra money for affordable housing.

You raise several important issues, Carl, which are key to your consistency. I am sure that the environment strategy will interface with economic development issues in relation to Airbus. I know that all Assembly Members, and their constituents, will look forward to important events over the coming weeks, such as the fun day in Connah's Quay and events that have been funded by the Welsh Assembly Government, such as the Brecon Festival, and so on. However, Communities First is where the real fun will take place.

*Derbyniwyd y datganiad busnes.  
Business statement adopted.*

enwedig o ran diwygio'r polisi amaethyddol cyffredin. Yr wyf yn siŵr, felly, y byddwch yn croesawu fy nghyhoeddiad y cynhelir dadl y tymor nesaf.

Cododd David ac Elin bwynt am y datganiadau a wnaethpwyd. Mae'n ddiddorol nad oes modd plesio'r wrthblaid; dywedir ar adegau fod gormod o ddatganiadau'r Llywodraeth yn cael eu gwneud yn y Cyfarfod Llawn. Er mwyn gwneud pethau'n eglur, yr ydym yn sôn am y nodiadau cyngor technegol a gyhoeddwyd gan Carwyn ddoe, sydd yn destun ymgynghori. Bydd y cyfnod ymgynghori'n para am 16 wythnos, ac yn dod i ben ym mis Hydref. Dyna'r dull arferol o gyflwyno nodiadau cyngor technegol. Deallaf fod nodyn cyngor technegol ar ynni adnewyddadwy wedi cael sylw yng nghyfarfod diwethaf Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ym mis Mehefin. Mae hyn yn fater o bwys mawr, a bydd amser ar gyfer yr ymgynghoriad hwnnw.

Bydd pobl Cymru'n falch o glywed y cyhoeddiad ynglŷn â sut y byddwn yn gwario'r arian ychwanegol ar dai fforddiadwy. Mae hyn yn allweddol i'r rhai sydd angen tai cymdeithasol yng Nghymru. Yr wyf yn ddiolchgar i Kirsty am roi gwybod i'r Cynulliad fod hyn yn ymwneud ag ymgynghori, ac ag arian ychwanegol ond, yn wir, arian ychwanegol a gymeradwywyd yn ein cyllideb yn gynharach eleni. Mae pobl Cymru am wybod bod arian ychwanegol ar gael ar gyfer tai fforddiadwy.

Yr ydych yn codi nifer o bwyntiau pwysig, Carl, sy'n allweddol i'ch etholaeth. Yr wyf yn siŵr y bydd y strategaeth amgylcheddol yn rhyng-gysylltu â materion datblygu economaidd ynglŷn ag Airbus. Gwn y bydd pob Aelod Cynulliad, a'u hetholwyr, yn edrych ymlaen at ddigwyddiadau pwysig dros yr wythnosau nesaf, megis y diwrnod o hwyl yng Nghei Conna a digwyddiadau sydd wedi cael eu hariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, megis Gŵyl Aberhonddu, ac yn y blaen. Fodd bynnag, Cymunedau yn Gyntaf yw'r lle y bydd yr hwyl go iawn i'w gael.

3.00 p.m.

### **Datganiad ar yr Ymosodiadau Diweddar Statement on the Recent Terrorist Attacks**

**Y Prif Weinidog:** Yn ystod y penwythnos diwethaf o ddathlu a choffâu 60 mlynedd ers diwedd yr ail ryfel byd, yr ydym i gyd wedi cael cyfle da i edrych yn ôl ar y pethau erchyll a ddigwyddodd yn ystod yr ail ryfel byd ac achlysuron eraill yr adeg honno. Yr oedd y bobl ddewr hynny a aberthodd eu bywydau neu'u hiechyd yn ystod yr ail ryfel byd wedi gwneud hynny er mwyn amddiffyn ein rhyddid a'n ffordd o fyw yn y wlad hon. Heb eu haberth hwy, ni fyddai'r wlad hon yn gymdeithas agored, sy'n edrych tuag allan ac sy'n amrywiol a democrataidd—y gymdeithas yr ydym yn byw ynddi heddiw.

It is in that collective and determined spirit of togetherness, which we have seen demonstrated again by the people of London, Birmingham and across Britain on several occasions since Thursday, that we now pay tribute to those who have shown such courage and who have completely refused to allow the actions of terrorists to prevent them from carrying on as usual. We are now witnessing the unfolding of individual, personal tragedies as bodies are identified. Our hearts go out to the families and friends still facing an agonising wait for news of their missing relative, just as used to happen after colliery accidents in the Valleys decades ago. Our deepest sympathies go to those whose worst fears have now been confirmed. It is clear that the emergency services have responded, and continue to respond, with a total dedication to duty, to the terrible events of Thursday. Those involved in the search for the terrorists and the continued fight against terrorism on our shores and overseas must also be in our thoughts. Their success is vital.

There is no evidence to suggest that Wales is a specific target for terrorism, but we cannot afford to be complacent, and we should all remain vigilant, particularly at times like this. The United Kingdom Government has taken appropriate security measures in terms of the current situation, and we have also raised the

**The First Minister:** Over the last weekend of celebrating and remembering the sixtieth anniversary of the end of the second world war, we have all had a good opportunity to look back at the atrocities that occurred during the second world war and other events at that time. Those brave people who sacrificed their lives or their health during the second world war did so to safeguard our freedom and way of life in this country. Without their sacrifice, this country would not be an open society, outward-looking, diverse and democratic—the society in which we live today.

Yn yr ysbryd torfol a phenderfynol hwnnw o undod, a welwyd unwaith eto gan bobl Llundain, Birmingham a ledled Prydain ar lawer achlysur ers dydd Iau, yr ydym yn awr yn talu teyrnged i'r rhai sydd wedi dangos y fath ddewrder ac sy'n gwrthod gadael i weithredoedd terfysgwyr eu rhwystro rhag mynd ymlaen â'u bywydau fel arfer. Yr ydym yn awr yn dystion i drasiedïau unigol, personol wrth i gyrff gael eu hadnabod. Yr ydym yn estyn ein cydymdeimlad i'r teuluoedd a'r cyfeillion sy'n parhau i brofi'r ing o aros am newyddion am eu perthynas sydd ar goll, yn yr un modd ag a welid ar ôl damweiniau ym mhyllau glo'r Cymoedd ddegawdau yn ôl. Yr ydym yn mynegi ein cydymdeimlad llwyraf â'r rhai y mae eu hofnau gwaethaf wedi eu gwireddu. Mae'n amlwg bod y gwasanaethau brys wedi ymateb, ac yn parhau i ymateb, gydag ymroddiad llwyr, i'r digwyddiadau erchyll ddydd Iau. Yr ydym yn meddwl hefyd am y rhai sy'n ceisio dod o hyd i'r terfysgwyr a'r frwydr barhaus yn erbyn terfysgaeth ar ein glannau a thramor. Mae'n hollbwysig eu bod yn llwyddo.

Nid oes tystiolaeth i awgrymu bod Cymru'n darged penodol i derfysgwyr, ond ni allwn laesu dwylo, ac mae'n rhaid inni barhau'n wylriadwrus, yn enwedig ar adegau fel hyn. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cymryd camau diogelwch priodol yn y sefyllfa bresennol, ac yr ydym hefyd wedi



level of our security arrangements in Wales. We have taken great strides in developing an effective emergency response structure, should such an incident ever occur in Wales. There is a strong tradition of multi-agency working in Wales anyway, designed to deliver effective emergency response. Local resilience fora, which have been established in the four police force areas in Wales, provide vital local response and recovery plans, tailored specifically to local needs, and developed on a multi-agency basis. In addition, I chair the Wales resilience forum, with Edwina chairing in my absence, which provides multi-agency, strategic-level advice on civil protection and emergency planning, enabling chief officers to discuss with the Assembly Government strategic issues of emergency preparedness in Wales. We have also established a Wales resilience partnership team, drawn from all key agencies, to support the Wales resilience forum and to deliver a programme of work at an all-Wales level to help support multi-agency planning at a local level in Wales.

Wales's interfaith forum has joined with the four party leaders here at the Assembly to issue a statement today expressing our solidarity and sympathy with the people of London and to call for continued tolerance and respect in Wales for all our faith communities and ethnic groups. I am certain that all Members here will agree that if unity of faiths in Wales is now disturbed by crude acts against our diverse communities and religious groups, then the perpetrators would be helping to achieve the aims of the terrorists rather than acting in the name of the victims. I cannot overemphasise how important it is for Wales, in all its diversity, to stick together as one nation at times of tension like this and not to allow acts of terrorism to divide us.

The people of Wales will, I am sure, respect the two-minute silence this Thursday at 12 p.m. in memory of those who died in the attacks on London's public transport

codi lefel ein trefniadau diogelwch yma yng Nghymru. Yr ydym wedi cymryd camau mawr i ddatblygu strwythur ymateb effeithiol mewn argyfwng, pe ceid digwyddiad tebyg yng Nghymru. Mae gennym draddodiad cryf o weithio aml-asiantaeth yng Nghymru beth bynnag, sydd wedi ei gynllunio i sicrhau ymateb effeithiol mewn argyfwng. Mae fforymau gwrthsefyll lleol, sydd wedi eu sefydlu yn ardal pob un o bedwar heddlu Cymru, yn darparu cynlluniau ymateb ac adfer lleol hollbwysig, sydd wedi eu llunio'n unswydd i ateb anghenion lleol, ac wedi eu datblygu ar lefel aml-asiantaeth. Hefyd, yr wyf yn gadeirydd fforwm gwrthsefyll Cymru, gydag Edwina'n gadeirydd yn fy absenoldeb, sy'n darparu cyngor aml-asiantaeth, ar lefel strategol ar warchod sifil a chynllunio mewn argyfwng, sy'n galluogi prif swyddogion i drafod materion strategol yn ymwneud â pharodrwydd mewn argyfwng yng Nghymru gyda Llywodraeth y Cynulliad. Yr ydym hefyd wedi sefydlu tîm partneriaeth gwrthsefyll Cymru, gyda'i aelodau'n dod o bob asiantaeth allweddol, i roi cymorth i'r fforwm gwrthsefyll ac i baratoi rhaglen waith ar lefel Cymru gyfan i helpu i gefnogi cynllunio aml-asiantaeth ar lefel leol yng Nghymru.

Mae fforwm aml-ffydd Cymru wedi ymuno ag arweinwyr y pedair plaid yma yn y Cynulliad heddiw i gyhoeddi datganiad sy'n mynegi ein hundod a'n cydymdeimlad gyda phobl Llundain ac sy'n galw am oddefgarwch a pharch yng Nghymru tuag at ein holl gymunedau ffydd a grwpiau ethnig. Yr wyf yn siŵr y bydd pob Aelod yma yn cytuno os caiff undod rhwng y cymunedau ffydd ei danseilio gan weithredoedd enbyd yn erbyn ein cymunedau amrywiol a grwpiau crefyddol, yna bydd y rhai a fydd yn gyfrifol amdanynt yn helpu i gyflawni nodau'r terfysgwyr yn hytrach na gweithredu yn enw'r rhai sydd wedi dioddef. Ni allaf orbwysleisio pa mor bwysig ydyw i Gymru, yn ei holl amrywiaeth, uno gyda'n gilydd fel un genedl ar adegau o dyndra fel hyn a sicrhau na fyddwn yn gadael i weithredoedd terfysgol ein rhannu.

Yr wyf yn siŵr y bydd pobl Cymru'n parchu'r ddau funud o dawelwch a gynhelir am 12 p.m. ddydd Iau er cof am y rhai a fu farw yn yr ymosodiadau ar rwydwaith

network. I will be leading Wales's tribute at Cathays park on Thursday at 12 p.m.. Assembly Members, civil servants, other people working in the Cathays park area, members of the public and others are welcome to join us.

**Ieuan Wyn Jones:** Diolchaf i'r Prif Weinidog am wneud datganiad ac am yr ysbryd y'i gwnaethpwyd ynddo. Mae'n hynod o bwysig ein bod ni'n defnyddio'r cyfle hwn heddiw i gondemnio'n llwyr y gweithredoedd dieflig a ddigwyddodd yn erbyn pobl gyffredin Llundain ddydd Iau diwethaf. Fel y gwnaeth y Prif Weinidog, danfonwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd sydd wedi colli anwyliaid, a'n dymuniadau da i'r cannoedd a gafodd eu niweidio. Fel finnow, treuliodd y Prif Weinidog gryn dipyn o amser yn Llundain rhwng 1987 a 2001, a gwn mai'r hyn a oedd yn ei daro yntau, fel finnow, yw'r ffaith bod Llundain yn cynnwys pobl o wahanol draddodiadau, cenhedloedd a chefnidiroedd ieithyddol a chrefyddol.

Beth oedd yn taro rhywun oedd yr ysbryd hynod oddefgar a oedd yn galluogi pawb i fyw gyda'i gilydd mewn dinas mor fawr. Yr wyf yn siŵr bod yr ysbryd hwnnw wedi bod yn gymorth mawr i bobl Llundain wrth iddynt geisio dygymod â'r digwyddiadau hyn. Mae'r Prif Weinidog yn iawn bod yn rhaid inni fod yn barod i sefyll ysgwydd wrth ysgwydd mewn achos fel hwn, ac yr wyf yn siŵr y bydd undod ar draws pleidiau'r Cynulliad.

I also thank the First Minister and my colleagues, as the other party leaders, for the joint approach that we have taken to the statement issued today in our names. It confirms our condemnation of the attacks in London and calls for continued tolerance and respect for all our faith communities in Wales. I pay tribute to the First Minister for the strength of his statements, in the immediate aftermath of the tragic events in London and today in the Assembly Chamber.

We are rightly proud, across the parties, of the steps that we have taken to strengthen links between the faiths in Wales. Clearly, the events in London must not detract from the efforts that we have made in that regard.

trafnidiaeth gyhoeddus Llundain. Byddaf yn arwain teyrnged Cymru ym Mharc Cathays am 12 p.m. ddydd Iau. Mae croeso i Aelodau'r Cynulliad, gweision sifil, pobl eraill sy'n gweithio yn ardal parc Cathays, y cyhoedd ac eraill ymuno â ni.

**Ieuan Wyn Jones:** I thank the First Minister for making a statement and for the spirit in which the statement was made. It is extremely important that we use this opportunity today to utterly condemn the vicious attacks that took place against the ordinary people of London on Thursday. As the First Minister has done, we send our deepest sympathies to those families who have lost loved ones and our best wishes to the hundreds of people who were injured. Like me, the First Minister spent a great deal of time in London between 1987 and 2001, and I know that what struck him, like me, is the fact that London includes people from different traditions, nations and backgrounds.

What struck me was the spirit of tolerance that allowed people to live together in such a large city. I am sure that that spirit has been a great help to Londoners as they try to come to terms with these events. The First Minister is right, we must be prepared to stand shoulder to shoulder in a case like this, and I am sure that there will be unity across all the parties of the Assembly.

Diolchaf hefyd i'r Prif Weinidog a'm cyd-Aelodau, fel arweinwyr y pleidiau eraill, am y cydweithio a fu ar y datganiad a wnaethpwyd heddiw yn ein henwau. Mae'n cadarnhau ein condemniad ar yr ymosodiadau yn Llundain ac yn galw am oddefgarwch a pharch at bob cymuned ffydd yng Nghymru. Talaf deyrnged i'r Prif Weinidog am ei ddatganiadau cadarn, yn union wedi'r digwyddiadau trasig yn Llundain a heddiw yn Siambr y Cynulliad.

Yr ydym yn falch, ac mae hynny'n briodol, ymhlith y pleidiau oll, o'r camau yr ydym wedi eu cymryd i gryfhau'r cysylltiadau sydd rhwng y crefyddau yng Nghymru. Mae'n amlwg na ddylai'r hyn sydd wedi digwydd

That is why I think it was very important and timely for the four party leaders to join together in making this statement today. There is no better way of re-emphasising the value of tolerance within faiths than the leaders of the four parties in Wales issuing this statement in such a high-profile way.

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn ddiolchgar am ysbryd sylwadau Ieuan fel arweinydd yr wrthblaid. Mae pawb yn derbyn bod ysbryd y Blitz rywsut wedi galluogi Llundain, yn ei holl amrywiaeth bresennol, i dynnu at ei gilydd, pa faint bynnag o grwpiau ffydd, crefyddol a chymunedol gwahanol sydd yno. Mae cymdeithas Llundain yn fwy amrywiol o lawer yn awr nag ydoedd yn ystod y Blitz ond, er hynny, nid yw wedi colli'r gallu i dynnu at ei gilydd mewn argyfwng, fel y dangoswyd ddydd Iau ac yn y dyddiau ers hynny. Dangoswyd yr un ysbryd—ni fydd terfysgaeth, fel bomiau y Luftwaffe a'r bygythiad o'r Almaen, yn peri i Lundain chwalu na cholli ei hunanhyder fel y brifddinas. Galluogodd yr ysbryd hwn i'r gwasanaethau brys fwrw ymlaen â'u gwaith, ac i bobl eraill weithio bron yn ôl eu harfer er cymaint y bygythiad i'r gwasanaethau trafniadaeth cyhoeddus.

I am also grateful for your remarks about the importance of all four parties pulling together here in order to reassure the multiplicity of faiths and religions, the people who dress differently because of their beliefs, and who may feel on the edge of being socially excluded and may get abuse hurled at them by people who think that, in some way, they are acting on behalf of the victims of terrorism. Anyone who does such a thing is perpetuating the terrorists' work and it is important that we get that message across loud and clear in Wales.

**Nick Bourne:** I also thank the First Minister for his statement, which I support and applaud. I also pay tribute to the Prime Minister and the Government at Westminster for the calm and determined way that they have responded to last week's terrorist

yn Llundain dynnu oddi wrth yr ymdrechion yr ydym wedi eu gwneud yn hynny o beth. Dyna pam y credaf ei bod yn hynod bwysig ac amserol bod arweinwyr y pedair plaid wedi uno i wneud y datganiad hwn heddiw. Nid oes dull gwell o bwysleisio unwaith yn rhagor werth goddefgarwch yn y crefyddau na gweld arweinwyr y pedair plaid yng Nghymru'n cyhoeddi'r datganiad hwn mewn modd mor amlwg.

**The First Minister:** I am grateful for the spirit in which Ieuan's comments, as leader of the opposition, were made. Everyone accepts that the spirit of the Blitz, in one way or another, enabled London, in all its diversity, to come together, regardless of the number of faith, religious and community groups to which the city is home. London is socially far more diverse than was the case during the Blitz but, even so, Londoners have not lost that ability to come together in times of crisis, as was shown on Thursday and in subsequent days. The same spirit was shown—terrorism, like the Luftwaffe's bombs and the threat from Germany, will not break London nor cause it to lose its confidence as the capital city. This spirit enabled the emergency services to undertake their work, and enabled other people to continue with their work almost as normal, despite the huge threat to the public transport system.

Yr wyf yn ddiolchgar hefyd am y sylwadau a wnaethoch yn nodi pa mor bwysig ydyw bod pleidiau'n uno yn hyn o beth i sicrhau'r llu o gredoau a chrefyddau, y bobl sy'n gwisgo'n wahanol oherwydd eu credoau, ac sydd efallai'n teimlo eu bod ar fin cael eu cau allan o gymdeithas ac a all wynebu cael eu difrio gan bobl sy'n credu eu bod, mewn rhyw fodd, yn gweithredu ar ran y rhai sydd wedi dioddef yn sgîl terfysgaeth. Bydd rhywun sy'n gweithredu yn y fath fodd yn parhau gwaith y terfysgwyr ac mae'n bwysig inni drosglwyddo'r neges honno'n glir ac yn gadarn yng Nghymru.

**Nick Bourne:** Diolchaf finnau hefyd i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad, yr wyf yn ei gefnogi ac yn ei gymeradwyo. Talaf deyrnged hefyd i Brif Weinidog a Llywodraeth San Steffan am ymateb mewn modd mor dawel a phenderfynol i'r

outrages. On behalf of the Welsh Conservatives, I extend deepest sympathy to the families and friends bereaved by the mindless barbarity that we saw last week. I would also like to pay tribute to those who work in the emergency services and, indeed, to those who work for London transport, who are continuing to work as normal insofar as they can. I think that they are extraordinary.

The resilience of the people of London is a matter of great pride. I felt great pride when I heard on Wednesday that London had won the 2012 Olympic games for Britain. I felt even greater pride in my country when I saw the response of Londoners and of ordinary people going about their business in the aftermath of these awful outrages.

3.10 p.m.

The First Minister referred quite rightly to the 60 years commemoration event that took place last weekend, and to the importance of faiths coming together and expressing our shared horror and solidarity in the face of the dreadful terrorism that we have seen. It was an occasion not just for honouring the veterans of world war two, but for signalling our shared solidarity, as a country, in the face of such horror.

The First Minister quite rightly referred to the importance of the Interfaith Council for Wales and I hope, as I am sure will be the case, that if it needs to meet speedily, we can enable it to do so, just as it did on the first occasion that it met in the aftermath of 9/11. It has been a valuable body, and I pay tribute to the First Minister for organising it and the work that he has done in that regard. It is worth remembering on such occasions that what unites us as a country is far greater than what divides us.

**The First Minister:** You referred to the switchback of emotions for everyone in the London area from being the happiest city in the world on Wednesday, having won the Olympic bid—that would not only apply to the citizenry of London, but to Mayor Ken Livingstone, Tony Blair, Seb Coe and everybody else who was involved in the

erchyllwaith a gyflawnwyd gan y terfysgwyr yr wythnos diwethaf. Ar ran Ceidwadwyr Cymru cynigïaf y cydymdeimlad dwysaf i'r teuluoedd a'r cyfeillion a amddifadwyd gan y farbariaeth wallgof a welsom yr wythnos diwethaf. Hoffwn dalu teyrnged hefyd i weithwyr y gwasanaethau brys ac, yn wir, i'r rhai sy'n gweithio i'r system gludiant yn Llundain, sy'n dal i weithio'n normal hyd y gallant. Credaf eu bod yn rhyfeddol.

Mae gwydnwch pobl Llundain yn ennyn balchder mawr. Teimlwn yn hynod falch pan glywais ddydd Mercher fod Llundain wedi ennill gêmiau Olympaidd 2012 i Brydain. Yr oeddwn yn teimlo mwy byth o falchder o ran fy ngwlad pan welais ymateb pobl Llundain a phobl gyffredin wrth iddynt gyflawni eu busnes beunyddiol yn sgîl yr erchyllwaith ofnadwy sydd wedi digwydd.

Cyfeiriodd y Prif Weinidog, yn hollol iawn, at y digwyddiad i goffáu'r 60 mlynedd y penwythnos diwethaf, a pha mor bwysig ydyw bod y crefyddau'n dod ynghyd ac yn mynegi'r arswyd a'r undod yr ydym yn eu rhannu yn wyneb y derfysgaeth ofnadwy a welsom. Yr oedd yn achlysur nid yn unig i anrhydeddu hen filwyr yr ail ryfel byd, ond hefyd i ddangos yr undod yr ydym yn ei rannu, fel gwlad, yn wyneb anfadwaith o'r fath.

Cyfeiriodd y Prif Weinidog, yn hollol iawn, at bwysigrwydd Cyngor Aml-ffydd Cymru a gobeithiaf, ac yr wyf yn sicr y bydd hynny'n digwydd, os bydd angen iddo gwrdd ar frys, y gallwn drefnu hynny, fel y gwnaeth y tro cyntaf iddo gwrdd yn sgîl 9/11. Mae wedi bod yn gorff gwerthfawr, a thalaf deyrnged i'r Prif Weinidog am ei drefnu ac i'r gwaith y mae wedi ei wneud i'r perwyl hwnnw. Mae'n werth cofio ar adegau fel hyn fod yr hyn sy'n ein huno fel gwlad yn llawer mwy na'r hyn sy'n ein rhannu.

**Y Prif Weinidog:** Cyfeiriasoch at y tro ar fyd o ran emosiwn pawb yn ardal Llundain o fod yn ddinas hapusaf y byd ddydd Mercher, ar ôl iddi ennill y bid Olympaidd—byddai hynny'n wir nid yn unig am ddinasyddion Llundain, ond am Ken Livingstone y Maer, Tony Blair, Seb Coe a phawb arall a fu'n rhan o'r bid Olympaidd a'i lwyddiant

Olympic bid and its extraordinary success—to being the saddest city in the world on Thursday. It is hard to cope with those emotions but, occasionally, that is exactly what happens in life. One way or another, London pulled through due to its phlegmatic way of coping with tragedy and by people's determination not to be deflected from their normal way of life by a terrorist incident, however awful.

I was glad to hear that you also picked out the way that the emergency services have had to respond. We should think of those police officers who have had to work in dark tube tunnels, looking for evidence. I am told that they are working in and among rat droppings, in stifling heat and in darkness, looking for evidence that must then be pieced together to see whether it is a vital piece of evidence that might lead to the identification of the perpetrators. It takes some doing, but you have to do it. There is no way that you can avoid the inch-by-inch coverage of the tunnels, looking for the tiniest pieces of evidence. It is that professionalism and dedication to duty, however tough the situation, that marks out our emergency services and will, I am sure, lead to eventual success in identifying the perpetrators and bringing them to justice.

**Michael German:** I thank the First Minister for his statement and associate the Welsh Liberal Democrats with both his statement and those of the other party leaders in the National Assembly. First, I express our profound sympathy to the families of those who have died and those who have been injured, many of whom were severely injured during the course of this atrocity. The National Assembly and all political parties are sending a clear message that this was a despicable act, by people who have no regard for human life and its value. We were right, today, to take this opportunity, as we should take every opportunity, to express our condemnation of these barbaric acts. We must now make every effort to ensure that we catch these perpetrators of mass murder, because that, in fact, is what it was.

eithriadol—i fod yn ddinas dristaf y byd ddydd Iau. Mae'n anodd ymdopi â'r teimladau hynny ond, weithiau, dyna sy'n digwydd mewn bywyd. Rywsut neu'i gilydd, daeth Llundain drwyddi oherwydd ei dull digyffro o ymdopi â thrasiedi a phenderfyniad pobl na chânt eu bwrw o'u ffordd arferol o fyw gan ddigwyddiad terfysgol, ni waeth pa mor ofnadwy ydyw.

Yr oeddwn yn falch o glywed ichi dynnu sylw hefyd at y modd y bu'n rhaid i'r gwasanaethau brys ymateb. Dylem feddwl am yr heddweision hynny y bu'n rhaid iddynt weithio yn nhwnelau tywyll y tiwb, yn chwilio am dystiolaeth. Dywedir wrthyf eu bod yn gweithio yng nghanol baw llygod mawr, mewn gwres llethol ac yn y tywyllwch, yn chwilio am dystiolaeth y mae'n rhaid iddynt wedyn ei rhoi ynghyd i weld a yw'n dystiolaeth allweddol a allai arwain at adnabod y drwgweithredwyr. Mae'n waith hynod anodd ond rhaid ei wneud. Nid oes modd osgoi mynd drwy'r twnelau fodfedd wrth fodfedd, i chwilio am y darnau lleiaf o dystiolaeth. Y proffesiynoldeb hwnnw a'r ymroddiad i'w dyletswydd, ni waeth pa mor anodd yw'r sefyllfa, sy'n nodweddu ein gwasanaethau brys ac a wnaiff, yr wyf yn sicr, arwain at lwyddiant yn y pen draw o ran adnabod y drwgweithredwyr a'u dwyn i gyfraith.

**Michael German:** Diolchaf i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad a chysylltaf Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru gyda'i ddatganiad ef ac eiddo arweinwyr y pleidiau eraill yn y Cynulliad Cenedlaethol. Yn gyntaf, mynegaf ein cydymdeimlad dwysaf â theuluoedd y rhai a fu farw a'r rhai a anafwyd, llawer ohonynt wedi eu hanafu'n ddifrifol iawn yn sgîl yr erchyllwaith hwn. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol a'r pleidiau gwleidyddol i gyd yn anfon neges glir bod hon yn weithred ffaidd, gan bobl sy'n gwbl ddibris o fywyd dynol a'i werth. Yr oedd yn iawn, heddiw, inni fanteisio ar y cyfle hwn, fel y dylem fanteisio ar bob cyfle, i fynegi ein condemniad o'r gweithredoedd barbaraidd hyn. Bellach rhaid inni wneud ein gorau i sicrhau ein bod yn dal y drwgweithredwyr hyn sy'n euog o lofruddiaeth dorfol, canys, yn wir, dyna ydoedd.

I pay tribute to the emergency services, in the way that you have just reflected, First Minister, not only for their speedy and immediate responses in dealing with the instant emergency that was on their backs, but for the tireless way in which they have continued in order to find the last bodies and to bring help to parents and families who are grieving and have no knowledge of what has happened to their loved ones.

You were also right, First Minister, to have taken steps this week to reassure the Muslim community in Wales. We live in a multicultural, multi-ethnic and multifaith society in Wales, one that is diverse and one that we continually celebrate, as we commemorated, this weekend, the end of the second world war on both VE day and VJ day. That diversity was reflected in that service. As we value highly our community harmony, we should not lose sight of the fact that this is a treasure; it is a Welsh treasure and it would be very easily lost to those who may have quick tempers and short memories.

Wales and Britain have been shaken to the core by these events. However, we must remain firm—firm in our resolve to tolerate, in our resolve for harmony and, most importantly, firm in our resolve for justice.

**The First Minister:** I will continue your theme by saying that in the way that Londoners refuse to be deflected from business as usual, and going back to work as usual, we must not be deflected either from the values of an open, democratic and tolerant society for which our forefathers fought successfully during world war two. They are ultimately the same issues, and we must commend both. As we commemorate the end of world war two, we resolutely refuse to be deflected from the values of an open society that is tolerant of different faith groups and of people who dress in a different style of clothing than we do as the majority community. Minorities should not be abused for that, or be assumed to have collective guilt for what terrorists did last Thursday.

Talaf deyrnged i'r gwasanaethau brys, yn yr un modd ag y gwnaethoch chithau, Brif Weinidog, nid yn unig am iddynt ymateb yn gyflym ac yn ddi-oed i ddelio â'r argyfwng a ddigwyddodd mor ebrwydd, ond am y modd diflino y maent wedi dal ati i geisio darganfod y cyrff olaf ac i helpu rhieni a theuluoedd galarus nad ydynt yn gwybod beth a ddigwyddodd i'w ceraint.

Yr oedd hefyd yn iawn ichi gymryd camau yr wythnos hon i dawelu meddyliau'r gymuned Foslemaidd yng Nghymru, Brif Weinidog. Yr ydym yn byw mewn cymdeithas amlddiwylliannol, amlethnig ac aml-ffydd yng Nghymru, cymdeithas amrywiol a chymdeithas yr ydym yn ei dathlu'n barhaus, fel y bu inni ddathlu diwedd yr ail ryfel byd, y penwythnos hwn, ar ddiwrnod VE a diwrnod VJ. Adlewyrchwyd yr amrywiaeth honno yn y gwasanaeth hwnnw. Gan ein bod yn gweld gwerth mawr yn ein cytgord cymunedol, ni ddylem gollu golwg ar y ffaith ei fod yn drysor; mae'n drysor Cymreig a hawdd iawn fyddai ei gollu i rai sydd â thymher wyllt a chof byr.

Mae'r digwyddiadau hyn wedi ysgwyd Cymru a Phrydain i'r eithaf. Fodd bynnag, rhaid sefyll yn gadarn—yn gadarn yn ein penderfyniad i fod yn oddefgar, yn ein penderfyniad i geisio cytgord ac, yn bwysicaf oll, yn gadarn yn ein penderfyniad dros gyfiawnder.

**Y Prif Weinidog:** Parhaf â'ch thema gan ddweud bod yn rhaid inni, yn yr un modd â'r Llundainwyr a wrthododd gael eu bwrw oddi wrth eu busnes arferol, ac a aeth yn ôl i'r gwaith yn ôl eu harfer, beidio â chael ein bwrw ychwaith oddi wrth y gwerthoedd sy'n perthyn i gymdeithas agored, ddemocrataidd a goddefgar y bu i'n cyndadau frwydro drostynt mor llwyddiannus yn yr ail ryfel byd. Yr un materion ydynt yn y bôn, a rhaid inni gymeradwyo'r ddau. Wrth inni goffâu diwedd yr ail ryfel byd, yr ydym yn benderfynol o wrthod cael ein bwrw oddi wrth werthoedd cymdeithas agored sy'n oddefgar o ran y gwahanol grwpiau ffydd ac o ran pobl sy'n gwisgo dillad o fath gwahanol i'r dillad a wisgwn ni fel y gymuned fwyafrifol. Ni ddylid difrio lleiafrifoedd am hynny, ac ni ddylid tybio eu bod yn gydeuog

am yr hyn a wnaeth y terfysgwyr ddydd Iau diwethaf.

You are right to refer to it as mass murder, because that is what it is. In a way, it is because we have taken steps to harden the defences of the obvious targets in London that the terrorists were left, as they would see it, with no alternative but to go for the soft target, namely entirely innocent commuters, shoppers, children or anyone who was travelling on the bus or the tube on their way to work, to shop or to visit tourist attractions. That is what is so appalling about the mass murder.

Yr ydych yn iawn wrth alw hynny'n llofruddiaeth dorfol, canys dyna ydyw. Mewn ffordd, am inni fynd ati i wella gwarchodaeth y targedau amlwg yn Llundain nid oedd dewis gan y terfysgwyr, fel y byddent hwy'n ei gweld, ond ymosod ar darged hawdd, sef teithwyr, siopwyr, plant diniwed neu rywun a oedd yn teithio ar y bws neu'r tiwb ar y ffordd i'r gwaith, i siopa neu i ymweld ag atyniadau twristaidd. Dyna'r hyn sydd mor arswydus am y llofruddiaeth dorfol.

I mentioned earlier that when I look at the emotions of the women who want to know whether their loved ones are alive or dead, it reminds me of colliery explosions of years gone by in Wales, but a colliery explosion is not mass murder. This is mass murder—that is the key difference. That is why wishing success to the forces of law and order and the emergency services, especially the police and intelligence services, in finding the perpetrators to ensure that they can never do it again, is something that we would all wish to see happen quickly.

Dywedais yn gynharach pan edrychaf ar emosiynau'r menywod sydd am wybod a yw eu ceraint yn fyw neu'n farw, ei fod yn fy atgoffa o'r ffrwydradau yn y glofeydd ers talwm yng Nghymru, ond nid llofruddiaeth dorfol yw ffrwydrad mewn glofa. Llofruddiaeth dorfol yw hyn - dyna'r gwahaniaeth mawr. Dyma pam y mae dymuno llwyddiant i luoedd cyfraith a threfn a'r gwasanaethau brys, yn enwedig yr heddlu a'r gwasanaethau cudd-wybodaeth, i ddal y drwgweithredwyr er mwyn sicrhau na allant fyth wneud yr un peth eto, yn rhywbeth yr hoffem ei weld yn digwydd yn fuan.

**Ann Jones:** I welcome your statement today, and the statement that you have jointly signed with the four leaders of the Assembly's interfaith forum. It is a good step forward for us all, and Nick summed it up well when he said that there is much more that unites us rather than divides us on this issue.

**Ann Jones:** Yr wyf yn croesawu'r datganiad a wnaethoch heddiw, a'r datganiad a gydarwyddwyd gennych chi a phedwar arweinydd fforwm aml-ffydd y Cynulliad. Mae'n gam da ymlaen inni oll, ac fe'i crynhowyd yn dda gan Nick pan ddywedodd fod llawer mwy sy'n ein huno nag yn ein rhannu yn y mater hwn.

I rise today to offer sympathy from the backbenches to all those who are bereaved and to those who are uncertain about what has happened to their loved ones.

Codaf heddiw i gynnig cydymdeimlad o'r meinciau cefn i bawb a amddifadwyd ac i'r rhai nad ydynt yn gwybod beth a ddigwyddodd i'w ceraint.

I pay tribute to the emergency services, as you would expect me to do, having been a former emergency service worker. I am aware of the dangers that the emergency service workers and the public service workers faced in terms of not knowing the full extent of the atrocities or whether there would be more explosions as they were rescuing people.

Talaf deyrnged i'r gwasanaethau brys, fel y disgwyliech imi wneud, gan imi fod yn gweithio am gyfnod yn y gwasanaethau hynny. Yr wyf yn ymwybodol o'r peryglon y bu i weithwyr y gwasanaethau brys a gweithwyr y sector cyhoeddus eu hwynebu gan nad oeddent yn gwybod union faint yr erchyllwaith nac ychwaith a fyddai rhagor o ffrwydradau wrth iddynt achub pobl.

I also pay tribute to the public in London on the way in which they responded immediately on Thursday to assist those who had been closest to the bombs and the attacks. I pay further tribute to the public over the weekend, as we have heard much about the way in which we celebrated with the veterans. I suppose that the veterans on parade over the weekend would be heartened by the fact that London was not giving in to this awful atrocity. I pay tribute again to the public for the way it has responded to calls from the police to help with intelligence matters.

I am also heartened that the resilience forum in Wales appears to be working well. We need to be vigilant, and we cannot afford not to be aware of what is around us. I hope that we can work together, whatever our faith, creed, colour of skin or beliefs, to ensure that this atrocity does not succeed in its aims.

**The First Minister:** God forbid that the emergency planning that we have done by the Wales resilience forum should ever be put to the test but, if it is, it is much better that you have done the planning and run through the exercises that we have done in preparing for terrorism or other emergencies.

I am grateful for the remarks that I expected you to make, having worked in the emergency services for more decades than you probably want to remember. You expressed your strong solidarity with your colleagues in the fire service, which you know best, and with the police, ambulance and civil defence services, and so forth. It is important that we remember their dependence on each other, their dependence on the assistance of the general public and their dependence on the extraordinary professionalism that they continue to show in carrying out very arduous duties at this time.

3.20 p.m.

Talaf deyrnged hefyd i'r cyhoedd yn Llundain am y modd y bu iddynt ymateb yn ddi-oed ddydd Iau i gynorthwyo'r rhai a oedd agosaf at y bomiau a'r ymosodiadau. Talaf deyrnged hefyd i'r cyhoedd dros y penwythnos, gan ein bod wedi clywed llawer am y modd y bu inni ddathlu gyda'r hen filwyr. Tybiaf y byddai'n calonogi'r hen filwyr a fu'n gorymdeithio dros y penwythnos nad oedd Llundain am ildio i'r erchyllwaith ofnadwy hwn. Talaf deyrnged unwaith yn rhagor i'r cyhoedd am y modd yr ymatebodd i alwadau gan yr heddlu i helpu gyda materion sy'n ymwneud â chudd-wybodaeth.

Mae'n galonidid imi hefyd fod y fforwm gwrthsefyll yng Nghymru i'w weld yn gweithio'n dda. Rhaid inni fod yn wyliadwrus, ac ni allwn fforddio peidio â bod yn ymwybodol o'r pethau sydd o'n hamgylch. Gobeithiaf y gallwn gydweithio, beth bynnag yw ein ffydd, ein cred, lliw ein croen neu ein credoau, er mwyn sicrhau na fydd yr erchyllwaith hwn yn llwyddo i gyflawni ei nodau.

**Y Prif Weinidog:** Duw a'n gwaredo na fydd raid rhoi'r cynlluniau argyfwng a luniwyd gan fforwm gwrthsefyll Cymru ar waith ond, os digwydd hynny, mae'n well bod y cynllunio wedi ei wneud a bod yr ymarferiadau wedi eu cynnal o ran paratoi ar gyfer terfysgaeth neu argyfyngau eraill.

Yr wyf yn ddiolchgar am y sylwadau y byddwn yn disgwyl i chi eu gwneud, gan i chi fod yn gweithio yn y gwasanaethau brys am fwy o ddegawdau nag y carech gofio yn ôl pob tebyg. Mynegasoch eich cefnogaeth gref i'ch cydweithwyr yn y gwasanaeth tân, yr ydych fwyaf cyfarwydd ag ef, ac i'r heddlu, y gwasanaethau ambiwlans a'r gwasanaethau amddiffyn sifil, ac yn y blaen. Mae'n bwysig cofio eu bod yn dibynnu ar ei gilydd, eu bod yn dibynnu ar gymorth y cyhoedd yn gyffredinol a'u bod yn dibynnu ar y proffesiynoldeb hynod y maent yn dal i'w ddangos wrth gyflawni eu dyletswyddau llafurus dros ben ar yr adeg hon.



**Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor ar Ysmygu  
mewn Mannau Cyhoeddus**  
**The Welsh Assembly Government's Response to the Report of the Smoking in  
Public Places Committee**

**The Minister for Health and Social Services (Brian Gibbons):** I welcome the report of the Committee on Smoking in Public Places. Evidence was presented to the committee by a wide range of organisations and individuals with an interest in this subject, and the report reflects a careful assessment of these complex issues. I extend my thanks and appreciation to the committee and its members and to all those who participated in this important review.

Smoking is a major preventable cause of illness and premature death in Wales, causing 6,000 deaths each year. Environmental tobacco smoke contributes to over 400 deaths each year. Second-hand smoke is a serious public health risk that needs to be addressed. This will have health benefits for smokers and non-smokers. Those are the facts, and we must act on them. That is why I have accepted all the committee's recommendations. I fully accept the arguments put forward by the committee for a comprehensive ban on smoking in enclosed workspaces and enclosed public spaces. In coming to this conclusion, I have taken particular note of the need to ensure that all workers are protected from second-hand smoke. Pubs, clubs and bars are all areas of particular risk for workers and customers. If we are serious about protecting public health, then we must include them in any proposed ban.

The committee's main recommendation is that the Assembly Government should press the UK Government for powers to enable us to introduce a ban on smoking in enclosed workplaces and enclosed public places within a timescale of two to three years. The UK Government has now signalled its intention to enable us in Wales to make our own decisions on this matter. This is clearly stated in the consultation document on the smoke-free provisions of the Health Improvement and Protection Bill issued in June.

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Croesawaf adroddiad y Pwyllgor ar Ysmygu mewn Mannau Cyhoeddus. Cyflwynwyd tystiolaeth i'r pwyllgor gan ystod eang o sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb yn y pwnc hwn, ac mae yn yr adroddiad asesiad gofalus o'r materion cymhleth hyn. Hoffwn estyn fy niolch a'm gwerthfawrogiad i'r pwyllgor a'i aelodau ac i bawb a gymerodd ran yn yr adolygiad pwysig hwn.

Mae ysmygu yn un o brif achosion ataliadwy salwch a marw cyn pryd yng Nghymru, yn achosi 6,000 o farwolaethau bob blwyddyn. Mae mwg tybaco amgylcheddol yn cyfrannu at dros 400 o farwolaethau bob blwyddyn. Mae mwg ail law yn berygl difrifol i iechyd y cyhoedd ac yn rhywbeth y mae gofyn rhoi sylw iddo. Bydd hyn yn dwyn manteision o ran iechyd i ysmygwyr a rhai nad ydynt yn ysmygu. Dyna'r ffeithiau, a rhaid gweithredu arnynt. Dyna pam yr wyf yn derbyn holl argymhellion y pwyllgor. Derbyniaf yn llawn y dadleuon a roddir gerbron gan y pwyllgor dros wahardd ysmygu mewn gweithleoedd caeedig a manau cyhoeddus caeedig. Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodais yn arbennig fod angen sicrhau bod gweithwyr ym mhob man yn cael eu diogelu rhag mwg ail law. Mae tafarndai, clybiau a bariâu i gyd yn lleoedd sy'n cyflwyno risg neilltuol i staff a chwsmeriaid. Os ydym o ddifrif ynghylch diogelu iechyd y cyhoedd, yna rhaid eu cynnwys hwythau hefyd mewn unrhyw waharddiad.

Prif argymhelliad y pwyllgor yw y dylai Llywodraeth y Cynulliad bwysu ar Lywodraeth y DU am bwerau i'n galluogi i gyflwyno gwaharddiad ar ysmygu mewn gweithleoedd caeedig a manau cyhoeddus caeedig cyn pen dwy neu dair blynedd. Mae Llywodraeth y DU wedi dweud bellach y bydd yn ein galluogi i wneud ein penderfyniad ein hunain ar y mater hwn yng Nghymru. Mae hyn wedi'i nodi'n glir yn y ddogfen ymgynghori ar ddarpariaethau difwg y Mesur Gwella a Diogelu Iechyd a

With regard to the detail of the report, I accept the exemptions proposed by the committee, which relate to premises that act as individuals' dwellings or as living accommodation. A comprehensive list of adult residential care settings will be drawn up prior to the drafting of regulations. Arrangements in prisons are a matter for the Home Office, but the Department of Health consultation paper indicates that the current intention is to seek exemption for prisons and other places of detention.

The Assembly Government accepts in principle the timescale of two to three years proposed by the committee. This will be subject to progress through Parliament of the Health Improvement and Protection Bill and the outcome of consultation on draft regulations relating to Wales.

The committee has recommended that enforcement be the responsibility of local authorities, and that discussions should start as soon as possible on the resource implications of the work. I welcome the support already expressed by the Welsh Local Government Association for legislation to restrict smoking. The association has indicated that local government would be content to include monitoring, inspection and enforcement as part of its public protection role. My officials have already met with staff from the WLGA, and a group has been set up to scope the work involved and the resource implications.

The committee also recommended setting up a compliance hotline to deal with information calls about the requirements of the legislation and complaints about non-compliance. The hotline was a key factor in achieving compliance in the Irish Republic. We will be holding discussions with local government to determine the most appropriate way of setting this up in Wales. The Assembly Government will also be working with the WLGA to ensure a co-ordinated approach to the implementation of the ban and monitoring of compliance. The committee has also recommended that the Assembly Government should establish a steering group of key stakeholders to ensure a common

gyhoeddwyd ym mis Mehefin.

O ran manylion yr adroddiad, derbyniaf yr eithriadau a gynigir gan y pwyllgor, sy'n ymwneud ag adeiladau sy'n gartrefi neu'n lle byw i unigolion. Bydd rhestr gynhwysfawr o adeiladau gofal preswyl i oedolion yn cael ei llunio cyn drafftio'r rheoliadau. Mae'r trefniadau ar gyfer carchardai yn fater i'r Swyddfa Gartref, ond mae papur ymgynghori'r Adran Iechyd yn awgrymu mai'r bwriad ar hyn o bryd yw gofyn am eithrio carchardai ac adeiladau eraill lle y cedwir unigolion dan glo.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn, mewn egwyddor, yr amserlen o ddwy neu dair blynedd a gynigir gan y pwyllgor. Bydd hyn yn ddarostyngedig i gynnydd y Mesur Gwella a Diogelu Iechyd drwy'r Senedd a chanlyniad yr ymgynghoriad ar reoliadau drafft ar gyfer Cymru.

Mae'r pwyllgor wedi argymhell y dylai gorfodi fod yn gyfrifoldeb i'r awdurdodau lleol, ac y dylai trafodaethau ddechrau cyn gynted â phosibl ar oblygiadau'r gwaith o ran adnoddau. Croesawaf y gefnogaeth sydd eisoes wedi ei datgan gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddeddfwriaeth ar gyfyngu ar ysmegu. Mae'r gymdeithas wedi dweud y byddai llywodraeth leol yn fodlon cynnwys monitro, arolygu a gorfodi fel rhan o'i rôl wrth ddiogelu'r cyhoedd. Mae fy swyddogion eisoes wedi cyfarfod â staff y Gymdeithas a sefydlwyd grŵp i edrych ar y gwaith y mae'n ei olygu a'r goblygiadau o ran adnoddau.

Mae'r pwyllgor hefyd wedi argymhell agor llinell gydymffurfio frys i ddelio â galwadau am wybodaeth ynghylch gofynion y ddeddfwriaeth, a chwynion ynghylch rhai nad ydynt yn cydymffurfio. Yr oedd llinell frys o'r fath yn hollbwysig er mwyn sicrhau cydymffurfio yng Ngweriniaeth Iwerddon. Byddwn yn cynnal trafodaethau gyda llywodraeth leol i weld beth yw'r dull gorau o sefydlu hyn yng Nghymru. Bydd Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i sicrhau bod dull cydlynol o weithredu'r gwaharddiad a monitro cydymffurfio. Mae'r pwyllgor hefyd wedi argymhell y dylai Llywodraeth y Cynulliad sefydlu grŵp llywio

understanding and presentation of the issues. I welcome this recommendation, which will help to ensure a co-ordinated approach to the introduction and implementation of the ban. It will also be an important forum for addressing stakeholder concerns.

I endorse the committee's recommendation that the tourism and hospitality sectors should prepare for the introduction of a ban by promoting the benefits of a smoke-free atmosphere to attract more non-smokers. The transition to smoke-free environments will offer marketing opportunities. Issues relating to support during the introduction of the ban, including the provision of information materials to the public and for staff, will be addressed by the stakeholder group. In relation to the concerns expressed by some sections of the hospitality trade, I would note our expectation that the aggregate economic consequences to business are not likely to be large. Any adverse economic impact needs to be set against the substantial public health benefits and savings to the NHS.

Finally, the committee has recommended a number of measures relating to the Assembly Government's current tobacco control programme. These include stepping up the existing Government campaign to encourage quitting; innovative measures targeted at young people; a specific public information campaign in advance of the ban and during the first year of implementation; and additional resources for smoking cessation services. Expanded activity in these areas has already been identified as part of the Assembly's response to Health Challenge Wales, and it is currently being planned. I share the committee's belief that this action is vital to ensure a smooth introduction and implementation of the ban and to provide support to smokers.

The next step will be the Health Improvement and Protection Bill going into Parliament for its First Reading, which is likely to be in the autumn. We will then begin work on draft regulations so that consultation can begin as soon as the parliamentary process allows.

o randdeiliaid allweddol i sicrhau bod pawb yn deall ac yn cyflwyno'r materion dan sylw yn yr un modd. Croesawaf yr argymhelliad hwn, a fydd yn helpu i sicrhau dull cydlynol o gyflwyno a gweithredu'r gwaharddiad. Bydd hefyd yn fforwm pwysig i roi sylw i unrhyw bryderon gan randdeiliaid.

Cefnogaf argymhelliad y pwyllgor y dylai'r sectorau twristiaeth a lletygarwch baratoi ar gyfer cyflwyno gwaharddiad drwy hyrwyddo manteision awyrgylch di-fwg i ddenu rhagor o bobl nad ydynt yn ysmegu. Bydd adeiladau di-fwg yn cynnig cyfleoedd marchnata. Trafodir sut i ddarparu cefnogaeth yn ystod cyflwyno'r gwaharddiad, gan gynnwys darparu deunyddiau gwybodaeth i'r cyhoedd a'r staff, gan y grŵp rhanddeiliaid. O ran y pryderon a leisiwyd gan rai rhannau o'r sector lletygarwch, hoffwn nodi nad ydym yn disgwyl y bydd busnesau'n wynebu canlyniadau economaidd sylweddol drwyddi draw. Rhaid ystyried unrhyw effaith economaidd andwyol ochr yn ochr â'r manteision sylweddol i iechyd y cyhoedd a'r arbedion i'r GIG.

Yn olaf, mae'r pwyllgor wedi argymhell nifer o fesurau yng nghyswllt rhaglen rheoli tybaco bresennol Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r rhain yn cynnwys dwysáu'r ymgyrch bresennol gan y Llywodraeth i annog rhoi'r gorau i ysmegu; mesurau arloesol wedi eu targedu at bobl ifanc; ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus benodol cyn y gwaharddiad ac yn ystod y flwyddyn gyntaf wedi iddo gael ei roi mewn grym; ac adnoddau ychwanegol ar gyfer gwasanaethau sy'n helpu pobl i roi'r gorau i ysmegu. Mae ehangu'r gweithgarwch yn y meysydd hyn eisoes wedi ei nodi fel rhan o ymateb y Cynulliad i Her Iechyd Cymru, ac wrthi'n cael ei gynllunio. Yr wyf yn cyd-fynd â'r pwyllgor fod hyn yn hanfodol i sicrhau bod y gwaharddiad yn cael ei gyflwyno a'i weithredu'n ddidrafferth ac er mwyn rhoi cefnogaeth i ysmygwyr.

Y cam nesaf fydd pan aiff y Mesur Gwella a Diogelu Iechyd gerbron y Senedd i gael ei Ddarllenid Cyntaf, yn yr hydref mae'n debyg. Yna, byddwn yn dechrau gweithio ar y rheoliadau drafft fel y gellir ymgynghori arnynt cyn gynted ag y bydd y broses seneddol yn caniatáu.

The introduction of smoke-free provision in public places and workplaces is a public health measure of tremendous significance to us in Wales. In conclusion, I express my thanks again to the committee for its key role in bringing forward this life-saving change for people in Wales.

**David Lloyd:** I welcome the Minister's statement and the fact that he has accepted in full all the ad-hoc committee's recommendations. In accepting that, the only way forward is to secure a full ban on smoking in enclosed public buildings. As the Minister has just said, that is a significant step forward in terms of public health. I am sure that in years to come we will look back at this step in the same way that we now look back at the introduction of piped water supplies and immunisation and their effect on public health. It will turn out to be that significant.

Passive smoking kills; that is the essential message. A total of 400 deaths per year in Wales are caused by people breathing in other people's cigarette smoke. That smoke is like asbestos fibres, and we should treat it as such.

I have a couple of issues that I want the Minister to flesh out and to clarify further. When committee members visited Ireland—and I have mentioned this in correspondence, Minister—we found that the central or the national health promotion message is of fundamental importance, as is the national assistance available to help smokers to quit. This is not a measure to ostracise smokers. Maximum help should be provided, and in Ireland that is provided through the National Office of Tobacco Control, which is a strong, beefed-up health promotion unit. We mention in the report that we are bringing together various strands of health promotion and Health Challenge Wales, but can the Minister clarify whether we are eventually going to end up with something akin to the Irish office? In Ireland, they certainly put great store by that unit, and the success of the introduction of this ban was fundamentally down to a strong national health promotion message, co-ordinated by this office.

Mae cyflwyno darpariaeth ddi-fwg mewn mannau cyhoeddus a gweithleoedd yn fesur iechyd cyhoeddus sy'n hynod arwyddocaol inni yng Nghymru. I gloi, hoffwn ddiolch unwaith eto i'r pwyllgor am ei rôl allweddol wrth gyflwyno'r newid hwn sydd am achub bywydau pobl yng Nghymru.

**David Lloyd:** Croesawaf ddatganiad y Gweinidog a'r ffaith ei fod wedi derbyn yn llawn holl argymhellion y pwyllgor ad-hoc hwn. Wrth dderbyn hynny, yr unig ffordd ymlaen yw sicrhau bod gwaharddiad llwyr ar ysmegu mewn adeiladau cyhoeddus caeedig. Fel y mae'r Gweinidog newydd ddweud, mae'n gam pwysig ymlaen o ran iechyd cyhoeddus. Yr wyf yn siŵr y byddwn ymhen blynyddoedd yn edrych yn ôl ar y cam hwn yn yr un modd ag yr edrychwn yn ôl yn awr ar gyflwyno cyflenwadau dŵr cyhoeddus a brechiadau, a'u heffaith ar iechyd y cyhoedd. Bydd hyn yr un mor arwyddocaol.

Mae ysmegu goddefol yn lladd; hynny yw'r neges hollbwysig. Mae cyfanswm o 400 o farwolaethau bob blwyddyn yng Nghymru am fod pobl wedi anadlu mwg sigarét pobl eraill. Mae'r mwg hwn fel ffibrau asbestos, a dylem ei drin yn yr un modd.

Mae gennyf fater neu ddau yr hoffwn i'r Gweinidog ehangu arnynt a'u hegluro ymhellach. Pan ymwelodd aelodau o'r pwyllgor ag Iwerddon—ac yr wyf wedi sôn am hyn mewn gohebiaeth, Weinidog—cawsom fod y neges ganolog neu genedlaethol o ran hybu iechyd yn eithriadol bwysig, ynghyd â'r cymorth cenedlaethol a roddir i helpu ysmygwyr i roi'r gorau iddi. Nid mesur i wneud ysmygwyr yn ysgymun yw hwn. Dylid darparu cymaint o gymorth â phosibl ac, yn Iwerddon, fe'i darperir drwy'r Swyddfa Genedlaethol Rheoli Tybaco sy'n uned hybu iechyd gyhyrog a chref. Soniwn yn yr adroddiad ein bod yn dwyn ynghyd wahanol elfennau hybu iechyd a Her Iechyd Cymru, ond a wnaiff y Gweinidog egluro a fyddwn yn y pen draw yn cael rhywbeth tebyg i swyddfa Iwerddon? Yn Iwerddon, gwelir gwerth mawr yn yr uned hon, ac yr oedd llwyddiant cyflwyno'r gwaharddiad yn ddyledus yn y bôn i neges hybu iechyd genedlaethol gref, wedi'i chydlynu gan y swyddfa hon.

As regards the legislation, the Minister will remember that the Assembly discussed and voted on this proposal in January 2003, ahead of Ireland, Scotland and any proposals in an English public health White Paper. We did not have the powers in the Assembly to do anything about it then, and we still do not really have those powers. However, it seems that we will have the full powers under the new Health Improvement and Protection Bill, but I am concerned about the timescale. The ad-hoc committee stipulated that it wished to see a ban within two to three years. There is some flexibility within that, but we would not like to see it taking longer than that because it has taken long enough already, and we passed the first resolution here over two and a half years ago. The public health community in Wales, which includes doctors, nurses and patients, wants to see rapid action on this matter. Everyone says that we have been pontificating for far too long.

3.30 p.m.

With those caveats, I am pleased that we in Wales will ban smoking in enclosed public buildings, following the example of Ireland and Scotland. Certainly, from the public health point of view, I hope that England will soon follow suit.

**Brian Gibbons:** Thank you for the welcome, Dai. I agree that this is an important watershed in public health in Wales. People will have seen and read in the media the recent Nuffield Trust report on the inequality of health experience in Wales as compared with other parts of the UK. Even a superficial reading of that document will show that tobacco consumption must be a major factor in that differential. Therefore, this is a major public health issue.

I agree that it is not a matter of smokers against non-smokers; this is a win-win situation for everyone. There are many smokers out there who will be very pleased that we are taking this step because, often, smokers challenge us by asking what we are

O ran y ddeddfwriaeth, bydd y Gweinidog yn cofio bod y Cynulliad wedi trafod a phleidleisio ar y cynnig hwn yn Ionawr 2003, cyn Iwerddon, yr Alban ac unrhyw gynigion mewn Papur Gwyn ar iechyd cyhoeddus yn Lloegr. Nid oedd gan y Cynulliad bwerau i wneud dim yn ei gylch ar y pryd, ac yr ydym yn dal i ddisgwyl. Fodd bynnag, ymddengys y bydd gennym bwerau llawn o dan y Mesur Gwella a Diogelu Iechyd newydd, ond yr wyf yn poeni ynghylch yr amserlen. Mae'r pwyllgor ad-hoc wedi nodi y byddai'n dymuno gweld gwaharddiad ymhen dwy neu dair blynedd. Mae rhywfaint o hyblygrwydd yn hynny, ond ni fyddem am weld y broses yn cymryd dim mwy o amser oherwydd mae eisoes wedi bod yn ddigon hir, a ninnau wedi pasio'r penderfyniad cyntaf yma dros ddwy flynedd a hanner yn ôl. Mae'r gymuned iechyd cyhoeddus yng Nghymru, sy'n cynnwys meddygon, nyrsys a chleifion, eisiau inni symud yn ddiymdroi ar y mater hwn. Mae pawb yn dweud ein bod wedi bod yn pregethu ers gormod o amser.

Gyda'r cafeatau hynny, yr wyf yn falch y byddwn ni yng Nghymru yn gwahardd ysmegu mewn adeiladau cyhoeddus caeedig, gan ddilyn esiampl Iwerddon a'r Alban. Yn sicr, o safbwynt iechyd cyhoeddus, gobeithio y bydd Lloegr yn gwneud yr un peth cyn bo hir.

**Brian Gibbons:** Diolch am y croeso, Dai. Cytunaf fod hyn yn drobwynt pwysig i iechyd cyhoeddus yng Nghymru. Bydd pobl wedi gweld a darllen yn y cyfryngau am adroddiad diweddar Ymddiriedolaeth Nuffield ar anghydraddoldeb y profiad iechyd yng Nghymru o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU. Bydd darllen y ddogfen honno'n frysio hyd yn oed yn dangos bod ysmegu tybaco yn sicr yn cyfrannu'n sylweddol at yr anghydraddoldeb hwnnw. Felly, mae hyn yn gwestiwn pwysig o ran iechyd cyhoeddus.

Cytunaf nad mater o ysmygwyr yn erbyn rhai nad ydynt yn ysmegu yw hyn; sefyllfa ydyw lle y mae pawb ar eu hennill. Bydd nifer fawr o ysmygwyr yn falch iawn ein bod yn cymryd y cam hwn oherwydd, yn aml iawn, mae ysmygwyr yn ein herio drwy ofyn inni

doing to make it easier for them to stop or to remain non-smokers once they have stopped. Therefore, this initiative will also be a big help to smokers.

You made effective representations to the National Office of Tobacco Control. We are looking at the full range of functions that that office holds. In my statement, I have covered all the most important functions of that national office. Certainly, in terms of activities that it is carrying out in the Irish context, we will ensure that all of those individual functions will be delivered in Wales. We have not finally decided whether or not we need a specific individual office, as they have in Ireland, but the functions, as you said in your contribution, are important and we will be proofing our activity against the functions of the National Office of Tobacco Control.

My desire is that we make as much haste as possible. Every passing year means that 400 to 500 people die unnecessarily in Wales; in any other context, that would be an unacceptable level of carnage. There is a duty on us all to make as much haste as we can within our legal parameters.

**Jonathan Morgan:** I welcome this statement. I am delighted with your level of commitment to the recommendations of the ad hoc Committee on Smoking in Public Places. It demonstrates the strength of feeling among you and your colleagues on this issue. I hope that we can move swiftly to introducing a complete ban on smoking in public places. That is clearly the only way in which to protect public health.

The way in which this has been considered across the border in England, in terms of the halfway house that they propose, is ridiculous to say the least. I suspect that England, at some point, will follow Wales yet again. I look forward to the day when we can go into our pubs, restaurants and bars, not just in the capital city, but elsewhere in Wales, and enjoy ourselves without inhaling the dangerous levels of smoke, which, as you

beth yr ydym yn ei wneud i'w gwneud yn haws iddynt roi'r gorau i ysmegu, neu i'w cadw rhag ailddechrau. Felly, bydd y fenter hon hefyd yn gymorth mawr i ysmegwyr.

Yr ydych wedi cyflwyno sylwadau effeithiol i'r Swyddfa Genedlaethol Rheoli Tybaco. Yr ydym yn edrych ar yr ystod lawn o swyddogaethau sydd gan y swyddfa honno. Yn fy natganiad, yr wyf yn sôn am bob un o'r swyddogaethau pwysicaf sydd gan y swyddfa genedlaethol honno. Yn sicr, o ran ei gweithgareddau yn y cyd-destun Gwyddelig, byddwn yn sicrhau y bydd yr holl swyddogaethau unigol hynny yn cael eu cyflawni yng Nghymru. Nid ydym wedi penderfynu'n derfynol a fydd angen i ni gael swyddfa benodol ein hunain, fel yn Iwerddon, ond mae'r swyddogaethau, fel y dywedasoeh yn eich cyfraniad, yn bwysig a byddwn yn cymharu ein gweithgarwch â swyddogaethau'r Swyddfa Rheoli Tybaco Genedlaethol.

Hoffwn symud ymlaen cyn gynted ag y bo modd. Mae pob blwyddyn sy'n mynd heibio'n golygu bod rhwng 400 a 500 o bobl yn marw'n ddiangen yng Nghymru; mewn unrhyw gyd-destun arall, byddai hynny'n gyflafan annerbyniol. Mae'n ddyletswydd arnom i gyd brysuero hynny a allwn o fewn ein paramedrau cyfreithiol.

**Jonathan Morgan:** Croesawaf y datganiad hwn. Yr wyf wrth fy modd gyda lefel eich ymrwymiad i argymhellion y Pwyllgor ad-hoc ar Ysmegu mewn Mannau Cyhoeddus. Mae'n dangos cryfder y teimlad yn eich plith a chan eich cyd-Aelodau ar y mater hwn. Gobeithio y gallwn symud ymlaen yn ddi-oed at gyflwyno gwaharddiad llwyr ar ysmegu mewn mannau cyhoeddus. Yn amlwg, dim ond drwy wneud hynny y gallwn ddiogelu iechyd y cyhoedd.

Mae'r modd y mae hyn wedi cael ei ystyried dros y ffin yn Lloegr, o ran yr hanner ateb a gynigir ganddynt, yn chwerthinllyd a dweud y lleiaf. Yr wyf yn amau y bydd Lloegr, ryw dro, yn dilyn Cymru unwaith eto. Edrychaf ymlaen at y diwrnod pan allwn fynd i'n tafarndai, ein tai bwyta a'n bariau, nid yn unig yn y brifddinas, ond mewn lleoedd eraill yng Nghymru, a mwynhau ein hunain heb orfod anadlu lefelau peryglus o fwg sydd, fel

rightly said, have contributed for many years to so many deaths in Wales and further afield.

You say in your statement that the timetable will be one of two to three years. I urge you to clarify, as soon as possible, the date for the implementation of a ban on smoking in public places. That would not just give the public the certainty that they need; it would obviously give pub landlords and restaurant owners the certainty and the ability to plan as much for the future as possible to get their businesses tuned into the idea that their premises will be non-smoking.

My view on a date would be something like 1 March 2008, but I am not sure whether or not you intend to introduce a ban before then. That date would certainly give people sufficient time to get used to the idea that a ban was to be introduced.

You referred to the enforcement responsibility resting with local government. Clearly, there will be an associated cost to that. When we examined this issue in the committee, the evidence received from the Welsh Local Government Association pointed to the Confederation of Scottish Local Authorities, which considered that the cost of a ban would be around £6 million in the first two years following the implementation of that ban. Clearly, we would anticipate that the cost within the first two years or so would be fairly high, but I imagine that that would tail off after a time. What consideration have you given to the likely costs of enforcement, and will you commit the Assembly Government to providing resourcing in full to local authorities for meeting their responsibilities of enforcement? I do not think that, in putting this responsibility on them, it would be fair for them to cover the cost, even if it is only part of the cost; we ought to cover the entire cost of enforcement, as it will be the Assembly that will legislate for that particular ban.

I also welcome your commitment to stepping up the Government's campaign to encourage smoking cessation. It is a targeted campaign aimed at those people who we know want to

yr ydych newydd ddweud, wedi cyfrannu ers llawer o flynyddoedd at gynifer o farwolaethau yng Nghymru a thu hwnt.

Yr ydych yn dweud yn eich datganiad y pennir amserlen o ddwy neu dair blynedd. Pwysaf arnoch i roi dyddiad clir, cyn gynted ag y bo modd, ar gyfer cyflwyno gwaharddiad ar ysmegu mewn mannau cyhoeddus. Byddai hynny nid yn unig yn rhoi'r sicrwydd sydd ei angen ar y cyhoedd; byddai hefyd yn rhoi sicrwydd i landlordiaid tafarndai a pherchnogion tai bwyta fel eu bod yn gallu cynllunio mewn da bryd i'r dyfodol i addasu eu busnesau i'r syniad o adeiladau di-fwg.

Byddwn i'n cynnig dyddiad tebyg i 1 Mawrth 2008, ond nid wyf yn siŵr a ydych yn bwriadu cyflwyno gwaharddiad cyn hynny ai peidio. Byddai'r dyddiad hwnnw yn sicr yn rhoi digon o amser i bobl ddod i arfer â'r syniad bod gwaharddiad am ddod i rym.

Bu ichi gyfeirio at y ffaith mai llywodraeth leol a fydd yn gyfrifol am orfodi. Yn amlwg, bydd costau'n gysylltiedig â hynny. Pan fuom yn trafod y mater hwn yn y pwyllgor, yr oedd y dystiolaeth a dderbyniwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cyfeirio at Gydffederasiwn Awdurdodau Lleol yr Alban, a oedd yn barnu y byddai cost gwaharddiad oddeutu £6 miliwn yn y ddwy flynedd gyntaf ar ôl i'r gwaharddiad ddod i rym. Yn amlwg, byddem yn disgwyl i'r gost fod yn weddol uchel yn ystod y ddwy flynedd gyntaf, ond tybiwn y byddai'n lleihau yn raddol gydag amser. Pa ystyriaeth yr ydych wedi ei rhoi i gostau tebygol gorfodaeth, ac a wnewch ymrwymo Llywodraeth y Cynulliad i ddarparu adnoddau llawn i awdurdodau lleol er mwyn iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau gorfodaeth? Nid wyf yn credu y byddai'n deg, wrth roi'r cyfrifoldeb hwn iddynt, eu bod hwy'n gyfrifol am y gost, hyd yn oed os mai rhan yn unig o'r gost ydyw; dylem fod yn gyfrifol am holl gostau gorfodaeth, gan mai'r Cynulliad fydd yn deddfu ar gyfer y gwaharddiad penodol hwnnw.

Yr wyf hefyd yn croesawu eich ymrwymiad i ddwysáu ymgyrch y Llywodraeth i annog pobl i roi'r gorau i ysmegu. Mae'r ymgyrch wedi ei thargedu at y bobl hynny y gwyddom

give up, and those young people who may be considering smoking as an enjoyable pastime. Goodness knows why they do it but, sadly, too many young people seem to enjoy smoking from an early age. Any money and additional resources that can be identified to put into this smoking cessation campaign will run very well side by side with the Government's drive to ban smoking in public places.

My final question relates to the process. You said that one would expect the Bill to be introduced in the autumn, in terms of its First Reading, and that you will then begin the work on draft regulations and the consultation process. Will you consult on the draft regulations before the Bill becomes an Act of Parliament? I know that that is rather unusual, though I understand that we are able to do that if we wish. My concern is that, by the time the Bill is introduced in the autumn—and we do not know how long the Bill will take; it may not become an Act until Easter next year—and by the time we then consult on the draft regulations, we could be looking towards the end of next year before we even introduce legislation in the Assembly. I would be perfectly relaxed about the idea of us consulting on draft regulations before the Bill becomes an Act of Parliament in Westminster. If that is possible, I would certainly support the Government in trying to achieve that, because—if we are looking at a timeframe of two to three years—the longer we leave any consultation, the more difficult it will be to satisfy the committee recommendation that the ban be introduced within a two to three-year timescale.

Finally, I congratulate the Government and welcome this commitment this afternoon, and I look forward to this ban being introduced.

**Brian Gibbons:** Thank you very much, Jonathan, for a very positive contribution and a warm welcome for these proposals. The English consultation paper is interesting, as it is more in favour of the line that we are choosing to take in Wales rather than that in England. It is difficult when you read that

eu bod eisiau rhoi'r gorau i ysmegu, a'r bobl ifanc hynny a allai fod yn ystyried ysmegu fel rhywbeth pleserus i'w wneud yn eu hamser hamdden. Dyn a wŷr pam y maent yn gwneud hyn ond, yn anffodus, mae gormod o bobl ifanc fel pe baent yn dechrau cael blas ar ysmegu yn ifanc. Bydd unrhyw arian ac adnoddau ychwanegol y gellir eu neilltuo ar gyfer yr ymgyrch hon i gael gan bobl roi'r gorau i ysmegu yn cyd-fynd yn dda iawn ag ymgyrch y Llywodraeth i wahardd ysmegu mewn mannau cyhoeddus.

Mae fy nghwestiwn olaf yn ymwneud â'r broses. Dywedasoch y disgwylir y byddai'r Mesur yn cael ei gyflwyno yn yr hydref, o ran ei Ddarlleniad Cyntaf, ac y byddwch wedyn yn dechrau ar y rheoliadau drafft a'r broses ymgynghori. A wnewch ymgynghori ar y rheoliadau drafft cyn i'r Mesur ddod yn Ddeddf Seneddol? Gwn fod hyn ychydig yn anarferol, ond deallaf y gallwn wneud hyn os dymunwn. Fy mhryder yw, erbyn y cyflwynir y Mesur yn yr hydref—ac ni wyddom faint o amser y bydd y Mesur yn ei gymryd; mae'n bosibl na fydd yn dod yn Ddeddf hyd y Pasg y flwyddyn nesaf—ac erbyn inni ymgynghori wedyn ar y rheoliadau drafft, y gallai fod yn agos at ddiwedd y flwyddyn nesaf cyn inni hyd yn oed gyflwyno deddfwriaeth yn y Cynulliad. Byddwn yn gwbl fodlon â'r syniad o ymgynghori ar reoliadau drafft cyn i'r Mesur ddod yn Ddeddf Seneddol yn San Steffan. Os yw hynny'n bosibl, byddwn yn sicr yn cefnogi'r Llywodraeth wrth iddi geisio gwneud hynny, oherwydd—os ydym yn edrych ar amserlen o ddwy i dair blynedd—po hiraf yr ydym yn gadael unrhyw ymgynghoriad, po anoddaf fydd bodloni argymhellad y pwyllgor i gyflwyno'r gwaharddiad o fewn amserlen o ddwy i dair blynedd.

Yn olaf, yr wyf yn llongyfarch y Llywodraeth ac yn croesawu'r ymrwymiad hwn y prynhawn yma, ac edrychaf ymlaen at weld y gwaharddiad hwn yn cael ei gyflwyno.

**Brian Gibbons:** Diolch yn fawr iawn ichi, Jonathan, am gyfraniad cadarnhaol iawn a chroeso cynnes i'r cynigion hyn. Mae'r papur ymgynghori yn Lloegr yn ddiddorol, gan ei fod yn fwy pleidiol i'r trywydd yr ydym yn dewis ei ddilyn yng Nghymru na'r un yn Lloegr. Mae'n anodd gweld wrth ddarllen y



consultation paper to see why they came to the conclusions that they did. However, that is one of the variations that exist in devolution, and one of the opportunities that we have.

I agree that, once we are in a position to have some sort of certainty in relation to setting a date, it would be a very good idea to give people as much notice as possible. March 2008 is at the longer end of what we would expect, though I think that the evidence from elsewhere is that introducing a ban in the middle of winter is probably not advisable unless you want to rapidly curtail the lives of smokers—even more quickly than they are doing to themselves—by sending them out into the snow and the rain.

I am not sure whether the situation is as legally cut and dried as you suggested in relation to when we can start to consult on our own regulations. There is some difference of opinion on that but, as far as I am concerned, I would want the consultation on the regulations to begin at the earliest possible legal opportunity. However, that has to be based on fairly firm legal evidence as I do not think that we want to start going down that road and then find ourselves in a legal wrangle with a small unrepresentative group that might challenge the process. We therefore need to be able to proceed on very solid, safe legal ground to make sure that we are bullet-proof from that point of view.

3.40 p.m.

Another important point that you mentioned is the level of smoking among young people. It is a gender issue insofar as girls are much more likely to smoke than boys. That is due to many of the social roles that girls adopt, rather than boys. The Assembly faces a challenge to work with others to promote positive role models for young girls. The most important thing for many young girls is to be 'cigarette thin', as they say. That is an issue not only in relation to their eating habits but because they consume tobacco to make themselves that thin. If we develop different role models, people may be healthier all round. It is an important challenge for my

papur ymgynghori hwnnw pam y daethant i'r casgliadau y daethpwyd iddynt. Fodd bynnag, mae hynny'n un o'r amrywiadau sydd i'w cael mewn datganoli, ac yn un o'r cyfleoedd sydd gennym.

Yr wyf yn cytuno, cyn gynted ag y byddwn yn gallu cael rhyw fath o sicrwydd ynglŷn â phennu dyddiad, y byddai'n syniad da iawn rhoi cymaint ag sy'n bosibl o rybudd i bobl. Mae Mawrth 2008 ychydig yn hwyrach na'r hyn y byddem yn ei ddisgwyl, ond credaf mai'r dystiolaeth o leoedd eraill yw nad yw cyflwyno gwaharddiad yng nghanol y gaeaf yn beth doeth mae'n debyg oni bai eich bod am roi diwedd sydyn ar fywydau ysmygwyr—diwedd cynt hyd yn oed nag y maent yn ei achosi iddynt eu hunain—drwy eu hanfon allan i'r eira a'r glaw.

Nid wyf yn siŵr a yw'r sefyllfa mor syml yn gyfreithiol â'r hyn a awgrymwyd gennych, o ran pa bryd y gallwn ddechrau ymgynghori ar ein rheoliadau ein hunain. Mae rhywfaint o wahaniaeth barn ynglŷn â hyn ond, yn bersonol, hoffwn weld yr ymgynghori ar y rheoliadau yn dechrau cyn gynted ag sy'n bosibl yn gyfreithiol. Fodd bynnag, rhaid i hyn fod yn seiliedig ar dystiolaeth gyfreithiol bur gadarn gan nad wyf yn credu ein bod eisiau dechrau dilyn y trywydd hwnnw a chanfod ein hunain wedyn mewn anghydfod cyfreithiol â grŵp bach anghynrychioliadol a allai herio'r broses. O ganlyniad, mae angen inni allu symud ymlaen ar dir cyfreithiol cadarn a diogel iawn er mwyn sicrhau nad oes dim perygl inni o'r safbwynt hwnnw.

Pwynt pwysig arall y cyfeiriasoch ato yw nifer y bobl ifanc sy'n ysmegu. Mae'n fater sy'n gysylltiedig â rhyw gan fod merched yn llawer mwy tebygol o ysmegu na bechgyn. Mae hyn o ganlyniad i lawer o'r rolau cymdeithasol y mae merched yn eu mabwysiadu, yn hytrach na bechgyn. Mae'r Cynulliad yn wynebu'r her o weithio gydag eraill er mwyn hybu modelau rôl cadarnhaol ar gyfer merched ifanc. Y peth pwysicaf i lawer o ferched ifanc yw cael 'corff sigarét', a bod yn denau. Mae hyn yn ymwneud nid yn unig â'u harferion bwyta, ond maent hefyd yn ysmegu tybaco er mwyn gwneud eu hunain yn denau. Os gallwn ddatblygu modelau rôl

colleague, the Minister with responsibility for sport. If we can develop positive role models in sport and other activities, we may be able to offer an alternative vision to young people, and particularly to young women.

The last point was about the costs of enforcement. Our initial take is that it should not cost as much as it cost in Scotland. However, it is difficult to be dogmatic about the precise cost. We know from the Irish experience, and we will probably have further knowledge from Scotland, how readily the public complies with such a ban. The experience in Ireland was that there was over 90 per cent compliance from day 1, which suggests that the level of enforcement may not be as high as one may have anticipated. If that experience is replicated in Scotland, the amount that we would need to invest in compliance might be less than the Scots are proposing. However, we need to discuss this with the Welsh Local Government Association. It is willing to help us and to work with us, and there needs to be an open and fair dialogue with it.

**Peter Black:** I welcome the statement. It is a very positive sign that the Minister is prepared to accept the report in its entirety without any caveats. It is important that we have a united front between the committee's recommendations, the Government and the Assembly, which has now voted overwhelmingly, twice, for such a ban. However, I also agree with Jonathan that three years is a long time. We have already waited for two and a half years. It is important that we put this in place as soon as possible. I accept the point that we must have legal certainty. When Ireland introduced its ban, there were legal challenges, and we must ensure that we are watertight on that issue.

The long lead-in time that the committee recommended was not necessarily related to the legal position, but to the public information campaign and to getting the

gwahanol, gallai pobl fod yn iachach yn gyffredinol. Mae'n her bwysig i'm cyd-Aelod, y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb am chwaraeon. Os gallwn ddatblygu modelau rôl cadarnhaol mewn chwaraeon a gweithgareddau eraill, efallai y gallwn gynnig gweledigaeth wahanol i bobl ifanc, yn enwedig i ferched ifanc.

Yr oedd y pwynt olaf yn ymwneud â chostau gorfodaeth. Ein barn ar y dechrau fel hyn yw na ddylai gostio cymaint ag a gostiodd yn yr Alban. Fodd bynnag, mae'n anodd bod yn ddogmataidd ynglŷn â'r union gost. Gwyddom oddi wrth y profiad yn Iwerddon, ac mae'n debyg y bydd gennym ragor o wybodaeth o'r Alban, pa mor barod yw'r cyhoedd i gydymffurfio â gwaharddiad o'r fath. Gwelwyd yn Iwerddon fod dros 90 y cant yn cydymffurfio o'r diwrnod cyntaf, sy'n awgrymu nad oes angen cymaint o orfodaeth ag y byddai rhywun wedi ei ddisgwyl. Os bydd hyn i'w weld yn yr Alban hefyd, mae'n bosibl y bydd y swm y byddai angen inni ei fuddsoddi er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth yn llai na'r hyn y mae'r Albanwyr yn ei gynnig. Fodd bynnag, mae angen inni drafod hyn gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae'r gymdeithas yn barod i'n helpu ac i weithio gyda ni, ac mae angen cael deialog agored a theg gyda hi.

**Peter Black:** Croesawaf y datganiad. Mae'n arwydd cadarnhaol iawn bod y Gweinidog yn barod i dderbyn yr adroddiad yn ei grynsyth heb ddim cafeatau. Mae'n bwysig inni ymddangos yn unedig, o ran argymhellion y pwyllgor, y Llywodraeth a'r Cynulliad, sydd bellach wedi pleidleisio â mwyafrif llethol, ddwywaith, dros waharddiad o'r fath. Fodd bynnag, yr wyf hefyd yn cytuno â Jonathan fod tair blynedd yn amser hir. Yr ydym wedi aros ers dwy flynedd a hanner yn barod. Mae'n bwysig inni sefydlu hyn cyn gynted ag y bo modd. Derbyniaf y pwynt fod rhaid inni gael sicrwydd cyfreithiol. Pan gyflwynodd Iwerddon ei gwaharddiad, cafwyd heriau cyfreithiol, a rhaid inni sicrhau ein bod yn gwbl gadarn ar y mater hwn.

Nid oedd y cyfnod rhagarweiniol hir a argymhellwyd gan y pwyllgor yn gysylltiedig o reidrwydd â'r sefyllfa gyfreithiol, ond yn hytrach â'r ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus

compliance and enforcement in place, and all the other issues around that. Such elements can be put in place early, and we can now begin the process of educating the public, making people aware of what is going to happen and of how we will implement it. In that way, everyone will be prepared for the ban so that, when we come to draft the regulations, we will be in a situation where we have only to go through the legal process and we will be able to implement the ban earlier. I urge the Minister to look at that. Ensure the legal certainty, but look at putting everything else in place, if necessary, before the Bill is published so that we can implement the ban as early as possible.

I also welcome the Minister's commitment, near the end of his statement, on the extra resources for the health promotion side. An important part of the Irish experience was that the health promotion side was beefed up and everything was done to discourage people from smoking. Public information was also distributed on a much higher level, and it is important that we do that. We have a lot of lessons to learn from the Irish model in that regard.

I would like the Minister to look further at two further issues. First, the committee was fairly clear—and the Minister accepted this in his statement—that it does not believe that the economic impact of the ban will be significant. The hospitality industry in particular will be able to work its way through that. However, I do not think that the industry is convinced of that. It would be useful, while we wait for this Bill to go through, and all the other preparations, if we could do more work on that issue to try to reassure the hospitality industry, and find other examples where bans have come in, and there has not been much impact.

The second issue that I ask the Minister to look at is the timing of the introduction of the ban—not necessarily the length of time before its introduction, but when it will be

ac â sefydlu'r trefniadau cydymffurfio a gorfodi, a'r holl faterion eraill sy'n gysylltiedig â hynny. Gellir sefydlu elfennau o'r fath yn gynnar, a gallwn yn awr ddechrau'r broses o addysgu'r cyhoedd, gwneud pobl yn ymwybodol o'r hyn sy'n mynd i ddigwydd a sut y byddwn yn ei weithredu. Drwy wneud hyn, bydd pawb yn barod ar gyfer y gwaharddiad fel y byddwn mewn sefyllfa, pan fyddwn yn mynd ati i ddrafftio'r rheoliadau, lle nad oes angen inni wneud dim mwy na mynd drwy'r broses gyfreithiol a byddwn yn gallu gweithredu'r gwaharddiad yn gynharach. Anogaf y Gweinidog i ystyried hynny. Cael y sicrwydd cyfreithiol, ond ystyried sefydlu popeth arall, os oes angen, cyn cyhoeddi'r Mesur fel bod modd inni weithredu'r gwaharddiad cyn gynted ag y bo modd.

Croesawaf hefyd ymrwymiad y Gweinidog, yn agos at ddiwedd ei ddatganiad, i roi rhagor o adnoddau i'r agwedd sy'n ymwneud â hybu iechyd. Rhan bwysig o'r profiad yn Iwerddon oedd bod hybu iechyd wedi ei gryfhau a bod popeth wedi ei wneud er mwyn annog pobl i beidio ag ysmegu. Dosbarthwyd llawer mwy o wybodaeth i'r cyhoedd hefyd, ac mae'n bwysig inni wneud hynny. Mae llawer o wersi i'w dysgu oddi wrth yr hyn a wnaethpwyd yn Iwerddon yn y cyswllt hwnnw.

Hoffwn i'r Gweinidog edrych yn fanylach ar ddau fater arall. Yn gyntaf, yr oedd y pwyllgor yn bur glir—a derbyniodd y Gweinidog hyn yn ei ddatganiad—nad yw'n credu y bydd y gwaharddiad yn cael effaith sylweddol ar yr economi. Bydd y diwydiant lletygarwch yn fwyaf arbennig yn gallu dod drwy hyn. Fodd bynnag, nid wyf yn credu bod y diwydiant wedi ei argyhoeddi. Byddai'n fuddiol, wrth inni aros i'r Mesur hwn fynd drwy'r Senedd, a disgwyl i'r holl baratoadau eraill gael eu gwneud, pe gallem wneud mwy o waith ar y mater hwnnw er mwyn ceisio rhoi sicrwydd i'r diwydiant lletygarwch, a chanfod enghreifftiau eraill lle y mae gwaharddiadau wedi eu cyflwyno, a hynny heb gael effaith andwyol iawn.

Yr ail fater y gofynnaf i'r Gweinidog edrych arno yw amseriad cyflwyno'r gwaharddiad—nid y cyfnod o amser cyn ei gyflwyno o reidrwydd, ond pa bryd y bydd yn cael ei

introduced. The Irish found, and the Minister alluded to this earlier, that introducing it in good weather was a great advantage. People have got to get used to it. Pubs and other hospitality venues will have to provide smoking areas outside their premises, which will be a part of the introduction. It may not be appropriate to introduce it on 1 March, as the weather would not be quite right; perhaps later in the year would be a better time to do it.

**Brian Gibbons:** I will certainly look up the long-term weather forecast for guidance. It is very encouraging that the spokespersons of all the political parties have voiced a warm welcome for this statement. Having this cross-party political consensus, rather than being a divisive party-political issue, provides us with a solid foundation to make haste, and is very welcome.

Your point in relation to the hospitality trade is very important. Many sectors that feel most threatened by this, in reality, have marginal viability, and the challenge is for them to address that. Almost certainly, the long-term prospects for them are not very good in any event. It was interesting to read an article in the Western Mail yesterday, which said that a survey from the Morning Advertiser, which, I gather, is a trade paper of the hospitality trade, suggested that there are market opportunities to be had in the event of a smoking ban, and that more people may socialise in public houses and so on if a smoking ban were in place. People need to look at the opportunities here rather than just seeing the negative side.

On Friday, I talked to the manager of the Bagle Brook in my constituency; which Peter may recognise as he drives from Swansea to Cardiff. The Bagle Brook in Port Talbot has had a smoking ban in the restaurant for seven or eight years, and David Evans, the manager, reported that trade has continued to increase all the time. They saw the fact that they had a smoke-free atmosphere as a positive marketing incentive. He is engaged

gyflwyno. Canfu'r Gwyddelod, a chyfeiriodd y Gweinidog at hyn yn gynharach, fod ei gyflwyno mewn tywydd da yn fanteisiol iawn. Rhaid i bobl ddod i arfer gydag ef. Bydd rhaid i dafarnau a lleoliadau lletygarwch eraill ddarparu mannau ysmegu y tu allan i'w hadeiladau, a fydd yn rhan o'r broses o gyflwyno'r gwaharddiad. Mae'n bosibl na fyddai'n briodol ei gyflwyno ar 1 Mawrth, gan na fyddai'r tywydd yn hollol addas; efallai y byddai'n well ei gyflwyno yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

**Brian Gibbons:** Byddaf yn sicr yn edrych ar ragolygon hirdymor y tywydd er mwyn cael arweiniad. Mae'n galonogol iawn bod llefarwyr pob un o'r pleidiau gwleidyddol wedi mynegi croeso cynnes i'r datganiad hwn. Mae cael consensws trawsbleidiol o'r fath, yn hytrach na'i fod yn fater sy'n achosi rhaniad rhwng y pleidiau, yn rhoi sylfaen gadarn inni er mwyn symud ymlaen, ac mae i'w groesawu'n fawr.

Mae eich pwynt ynglŷn â'r diwydiant lletygarwch yn bwysig iawn. Mae llawer o'r sectorau sy'n teimlo bod hyn yn fgythyad mawr iddynt, mewn gwirionedd, yn rhai nad ydynt yn hyfyw iawn, a'r her iddynt hwy yw rhoi sylw i hynny. Mae bron yn sicr nad yw'r rhagolygon hirdymor ar eu cyfer yn dda iawn pa un bynnag. Yr oedd yn ddiddorol darllen erthygl yn y Western Mail ddoe, a oedd yn dweud bod arolwg o'r Morning Advertiser, sydd, yr wyf yn tybio, yn un o bapurau masnach y diwydiant lletygarwch, yn awgrymu bod cyfleoedd i'w cael yn y farchnad os cyflwynir gwaharddiad ar ysmegu, a'i bod yn bosibl y byddai rhagor o bobl yn cymdeithasu mewn tafarnau ac yn y blaen pe bai gennym waharddiad ar ysmegu. Mae angen i bobl edrych ar y cyfleoedd yn y fan hon yn hytrach na gweld yr ochr negyddol yn unig.

Ddydd Gwener, bŵm yn siarad â rheolwr y Bagle Brook yn fy etholaeth; mae'n bosibl y bydd Peter wedi gweld y lle wrth iddo yrru o Abertawe i Gaerdydd. Mae'r Bagle Brook ym Mhort Talbot wedi bod â gwaharddiad ar ysmegu yn yr ystafell fwyta ers saith neu wyth mlynedd, ac yn ôl David Evans, y rheolwr, mae busnes yn dal i gynyddu. Yr oeddent yn gweld y ffaith bod ganddynt amgylchedd di-fwg fel cymhelliant

in a consultation with his customers on a fuller ban in the pub area. Even smokers there were in favour of the quick introduction of a voluntary ban. This is not a smoking versus anti-smoking issue; it is about promoting public health and giving more people in Wales an opportunity to live a fuller and healthier life.

**Val Lloyd:** I welcome your statement, Minister. Your response is very timely and effective. I am delighted, as Chair of the Committee on Smoking in Public Places, that you have accepted the recommendations in their entirety. At this stage of the discussion, I would like to ally myself with the comments made by all the previous speakers, who were also members of that committee.

3.50 p.m.

I will focus on two issues: one is recommendation 1 of the committee's report, which says that employers should not be able to require non-smokers to service or clean designated areas. To determine appropriate working practices between workers and employers over this potentially contentious area, can you assure me that you will consult with trade unions, and other representative bodies, to ensure that clear guidance is drawn up in terms of the rights of workers and employers?

Secondly, the importance of public education and information has been mentioned, and the key role that it will play in coming years as we prepare for the full implementation of this health-enhancing policy. You mentioned a public awareness campaign, which everyone would agree is essential, and which will be needed across all sectors and age groups. Will you liaise with other Ministers, where relevant, in terms of their portfolios so that you can reach all corners of society?

**Brian Gibbons:** I thank you for chairing the committee. The quality of the report has given us a basis on which we have been able to proceed. The report was of an extremely

cadarnhaol i farchnata. Mae wrthi'n ymgynghori â'i gwsmeriaid ynglŷn â gwaharddiad llawnach yn y dafarn. Yr oedd hyd yn oed ysmygwyr yno o blaid cyflwyno gwaharddiad gwirfoddol yn gyflym. Nid cwestiwn o ysmegu yn erbyn gwrth-ysmygu yw hyn; mae'n ymwneud â hybu iechyd y cyhoedd a rhoi cyfle i ragor o bobl yng Nghymru fyw bywyd llawnach ac iachach.

**Val Lloyd:** Croesawaf eich datganiad, Weinidog. Mae eich ymateb yn amserol iawn ac yn effeithiol. Yr wyf yn falch iawn, fel Cadeirydd y Pwyllgor ar Ysmegu mewn Mannau Cyhoeddus, eich bod wedi derbyn yr argymhellion yn eu crynswth. Ar yr adeg hon yn y drafodaeth, hoffwn ategu'r sylwadau a wnaethpwyd gan bob un o'r siaradwyr blaenorol, sydd hefyd yn aelodau o'r pwyllgor hwnnw.

Canolbwyntiaf ar ddau fater: un yw argymhelliad 1 yn adroddiad y pwyllgor, sy'n dweud na ddylai cyflogwyr allu mynnu bod gweithwyr nad ydynt yn ysmegu yn gorfod trin neu lanhau manau dynodedig. Er mwyn pennu arferion gwaith priodol rhwng gweithwyr a chyflogwyr yn y maes hwn a allai fod yn gynhennus, a allwch roi sicrwydd imi y byddwch yn ymgynghori â'r undebau llafur, a chyrrff cynrychioliadol eraill, i sicrhau bod canllawiau clir yn cael eu llunio yn ymdrin â hawliau gweithwyr a chyflogwyr?

Yn ail, cyfeiriwyd at bwysigrwydd addysg a gwybodaeth i'r cyhoedd, a'r rôl allweddol y bydd hynny'n ei chwarae dros y blynyddoedd nesaf wrth inni baratoi ar gyfer gweithredu'r polisi hwn, a fydd yn gwella iechyd, yn llawn. Soniasoch am ymgrych ymwybyddiaeth gyhoeddus, y byddai pawb yn cytuno ei bod yn hanfodol, ac y bydd ei hangen ar draws pob sector a grŵp oedran. A wnewch gysylltu â Gweinidogion eraill, lle y bo hynny'n berthnasol, o ran eu portffolios er mwyn ichi allu cyrraedd pob cornel o gymdeithas?

**Brian Gibbons:** Diolchaf ichi am gadeirio'r pwyllgor. Mae ansawdd yr adroddiad wedi rhoi inni sylfaen yr ydym wedi gallu bwrw ymlaen arni. Yr oedd yr adroddiad o ansawdd

high quality and authoritative, and that provides us with the foundation on which to move forward. In other words, the intellectual case has been convincingly made, and there is not much argument in relation to the value and the merits of going down this road. Therefore, you and your committee have made a massive contribution to public health in Wales.

You are right, and it is specifically mentioned in the statement, that, as well as promoting public health, we must recognise the rights of people in workplaces in which they are exposed to tobacco smoke. Much of the emphasis has been on the rights of customers or consumers to a smoke-free atmosphere, but the statement specifically mentions the rights of workers to have their working environment protected as well, which is an important strand in how we are moving forward.

You are right that we need to work across portfolios in delivering this issue. The Minister with responsibility for local government has a key role to play, and there is also a key role for economic development and tourism, and environment, and for the Minister with responsibility for sport. Therefore, this is very much part of the Welsh Assembly Government's responding to the Health Challenge Wales message. We must do it co-operatively as a Government to ensure that we get the maximum return from this initiative.

**Elin Jones:** Torraf ar draws rywfaint o'r consensws ar y mater hwn hyd yn hyn. Yr wyf yn un o'r rhai a oedd yn anhapus â'r ystyriaeth a roddwyd yn adroddiad y pwyllgor i oblygiadau'r ddeddfwriaeth hon ar fusnesau unigol. Yr wyf, felly, yn anhapus hefyd â'ch ymateb ar y pwynt hwn y prynhawn yma.

Mae goblygiadau i fusnesau unigol, yn enwedig tafarnau bach, ac mae busnes nifer o'r tafarnau hyn eisoes yn fregus, oherwydd pŵer marchnata archfarnadoedd, yn arbennig, sy'n hysbysebu alcohol rhad. A dderbyniwch y gall y ddeddfwriaeth hon leihau ymhellach nifer y cwsmeriaid mewn ambell dafarn? Dyna'r argraff a gaf o drafod gyda busnesau a thafarnau bach yng

eithriadol o uchel ac yn awdurdodol, a rhydd hynny sylfeini inni y gallwn symud ymlaen arnynt. Mewn geiriau eraill, mae'r ddadl ddeallusol wedi cael ei chyflwyno mewn modd argyhoeddiadol, ac nid oes llawer o ddadl am werth a rhagoriaethau dilyn y llwybr hwn. Felly, yr ydych chi a'ch pwyllgor wedi gwneud cyfraniad enfawr tuag at iechyd cyhoeddus yng Nghymru.

Yr ydych yn iawn, a sonnir am hynny'n benodol yn y datganiad, fod yn rhaid inni, yn ogystal â hyrwyddo iechyd cyhoeddus, gydnabod hawliau pobl mewn gweithleoedd lle y dônt i gysylltiad â mwg tybaco. Mae llawer o'r pwyslais wedi bod ar hawliau cwsmeriaid neu ddefnyddwyr i gael awyrgylch di-fwg, ond mae'r datganiad yn sôn yn benodol am hawliau gweithwyr i gael amddiffyniad yn eu gweithleoedd hefyd, sy'n elfen bwysig yn y ffordd yr ydym yn symud ymlaen.

Yr ydych yn iawn bod angen inni weithio ar draws portffolios i gael y maen i'r wal o ran y mater hwn. Mae gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am lywodraeth leol ran allweddol i'w chwarae, ac mae rôl allweddol hefyd i ddatblygu economaidd a thwristiaeth, a'r amgylchedd, ac i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am chwaraeon. Felly, mae hyn yn sicr yn rhan o ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i neges Her Iechyd Cymru. Rhaid inni ymateb yn gydweithredol fel Llywodraeth i sicrhau ein bod yn cael y budd mwyaf posibl o'r fenter hon.

**Elin Jones:** I will cut across some of the consensus on this issue so far. I am one of those who was unhappy with the consideration given in the committee's report to the implications of this legislation on individual businesses. I am, therefore, also unhappy with your response on this point this afternoon.

There are implications for individual businesses, especially small pubs, and the business of a number of these pubs is already vulnerable, given the marketing power of supermarkets, especially, which advertise cheap alcohol. Do you accept that this legislation could decrease further the number of customers in some pubs? That is the impression that I get from talking to small

Ngheredigion. Os felly, a allwch drafod â'r Gweinidog Cyllid a oes modd i eithrio tafarnau bach o ardrethi busnes, neu o ganran o ardrethi busnes, fel cydnabyddiaeth o effaith y ddeddfwriaeth hon, o bosibl, ar eu bywoliaeth?

**Brian Gibbons:** I do not accept that an individual company will be driven out of business simply because of this. Several of the issues that you mentioned are probably much more important. If people want to continue to do business in the same old way, I suspect that their future in the industry is rather limited in any event. If those smaller pubs are not able to develop new markets, clearly, over the next few years, they will not survive for the reasons that you mentioned, such as the fact that you can go into a supermarket or an off-licence and buy drinks for very cheap prices compared to those in pubs, the fact that more people are socialising at home, the fact that people are going out to restaurants and cafes, and the drink-driving regulations. All of these things are having big impacts on small pubs, and all of these factors will have a more decisive effect than banning smoking in public places. If banning smoking in public places is the decisive factor that tips a small pub over the edge, I would suggest that that business was seriously in trouble, and that its long-term viability was not on the cards. Therefore, the challenge for those small pubs is to look at new opportunities for enticing new customers in. We know that a significant number of people do not go into pubs simply because they are not willing to expose themselves to the discomfort of second-hand smoke and are unwilling to put their own health at risk because of it. The challenge is to make these pubs welcoming and a healthy place to be.

**Jeff Cuthbert:** As a former member of the committee set up to investigate smoking in public places, I welcome your statement today, and endorse the comments made by all the contributors so far. I do not share all the points made by Elin, although I do not doubt her sincerity in raising those issues. One of the clear lessons that I took from the evidence-taking sessions of the committee

businesses and pubs in Ceredigion. If so, can you discuss with the Finance Minister whether small pubs could be exempted from business rates, or a percentage of business rates, as a recognition of the possible impact of this legislation on their livelihood?

**Brian Gibbons:** Nid wyf yn derbyn y caiff cwmni unigol ei yrru allan o fusnes oherwydd hyn yn unig. Mae amryw o'r materion y soniasoch amdanynt yn llawer pwysicach yn ôl pob tebyg. Os yw pobl am barhau i wneud busnes yn yr un hen ffordd, byddwn yn amau bod eu dyfodol yn y diwydiant braidd yn gyfyngedig beth bynnag. Os nad yw'r tafarnau llai hynny yn gallu datblygu marchnadoedd newydd, yn amlwg, dros y blynyddoedd i ddod, ni fyddant yn goroesi am y rhesymau y cyfeiriasoch atynt, megis y ffaith y gallwch fynd i archfarchnad neu siop ddiodydd a phrynu diodydd am brisiau rhad iawn o'u cymharu â'r prisiau mewn tafarnau, y ffaith bod mwy o bobl yn cymdeithasu gartref, y ffaith bod pobl yn mynd allan i dai bwyta a chaffis, a'r rheoliadau yfed a gyrru. Mae'r pethau hyn i gyd yn cael effaith fawr ar dafarnau bach, a bydd y ffactorau hyn i gyd yn cael effaith fwy tyngedfennol na gwahardd ysmygu mewn mannau cyhoeddus. Os mai gwahardd ysmygu mewn mannau cyhoeddus yw'r ffactor tyngedfennol sy'n gwrthio tafarn fach dros y dibyn, byddwn yn awgrymu bod y busnes mewn trafferthion difrifol, ac nad oedd yn debygol o fod yn hyfyw yn y tymor hir. Felly, yr her i'r tafarnau bach hynny yw edrych ar gyfleoedd newydd i hudo cwsmeriaid newydd i mewn. Gwyddom nad yw nifer sylweddol o bobl yn mynd i dafarnau am y rheswm syml nad ydynt yn fodlon byw gydag anghysur mwg ail law a'u bod yn amharod i beryglu eu hiechyd eu hunain o'i herwydd. Yr her yw gwneud y tafarnau hyn yn fannau croesawus ac iach i fod ynddynt.

**Jeff Cuthbert:** Fel cyn aelod o'r pwyllgor a sefydlwyd i ymchwilio i ysmygu mewn mannau cyhoeddus, croesawaf eich datganiad heddiw, a chymeradwyaf y sylwadau a wnaed gan bob cyfrannwr hyd yma. Nid wyf yn cyd-fynd â phob pwynt a wnaed gan Elin, er nad wyf yn amau ei didwylledd wrth godi'r materion hynny. Un o'r gwersi clir a ddysgais o sesiynau tystiolaeth y pwyllgor

was the importance of the impact on jobs. The Amicus trade union recognises the ongoing impact on jobs in the tobacco products industry in Wales. The trend for many years now has been towards moving jobs out of the UK and into developing countries. There is little that we can do to stop such a trend, and any ban on smoking in public places will, in reality, have little impact on tobacco companies' long-term plans for Wales. Combine this issue with the trend in Wales towards healthier lifestyles and there is a strong incentive to push ahead with the ban on smoking in enclosed public places. Ireland has shown the way and the evidence, one year after the ban, is that job losses were minimal and that the hospitality trade recovered and benefited in the longer term. However, do you agree, Minister, that as this ban is consulted upon and implemented, it is incumbent upon Team Wales to work with trade unions and employers, particularly in the tobacco products industry, to help those workers who could be affected to ensure that job losses are minimised and that those who need assistance are given appropriate help to find alternative employment?

**Brian Gibbons:** Thank you for your work on the committee. As a longstanding member of Amicus, and as a member of the medical practitioners union section of Amicus, I have had many an exchange with the tobacco workers union section of Amicus on this issue. The tobacco workers union section recognises the reality of the situation, and is quite mature in recognising that it is a dangerous industry as far as the public is concerned. It is not throwing down the challenge of opposing this type of legislation. You are right to say that it wants a measured response to this, and it is important for Government to address those areas where tobacco factories exist, in particular, so that we can do something as trade declines.

You also touched upon another important issue, and the First Minister indicated that he will make a statement on 'Make Poverty History'. Many of the multinational tobacco companies will be quite cynical. As they lose

oedd pwysigrwydd yr effaith ar swyddi. Mae undeb llafur Amicus yn cydnabod yr effaith ar swyddi yn y diwydiant cynhyrchion tybaco yng Nghymru. Mae tuedd ers blyneddoddedd lawer erbyn hyn tuag at symud swyddi o'r DU i wledydd sy'n datblygu. Nid oes fawr y gallwn ei wneud i atal tuedd o'r fath, ac ni fydd unrhyw waharddiad ar ysmegu mewn mannau cyhoeddus, mewn gwirionedd, yn cael fawr o effaith ar gynlluniau hirdymor y cwmnïau tybaco i Gymru. O gyplysu'r mater hwn â'r duedd yng Nghymru tuag at ffyrdd iachach o fyw, mae cymhelliad cryf i frwr ymlaen â'r gwaharddiad ar ysmegu mewn mannau cyhoeddus caeedig. Mae Iwerddon wedi dangos y ffordd a'r dystiolaeth, flwyddyn ar ôl y gwaharddiad, yw mai ychydig iawn o swyddi a gollwyd a bod y fasnach lletygarwch wedi dod ati ei hun ac wedi elwa yn y tymor hwy. Fodd bynnag, a ydych yn cytuno, Weinidog, wrth inni ymgynghori ynghylch y gwaharddiad hwn a'i roi mewn grym, fod rheidrwydd ar Dîm Cymru weithio gyda'r undebau llafur a chyflogwyr, yn enwedig yn y diwydiant cynhyrchion tybaco, i helpu'r gweithwyr hynny y gallai hyn effeithio arnynt i sicrhau bod cyn lleied â phosibl o swyddi yn cael eu colli a bod y rhai y mae angen cymorth arnynt yn cael help priodol i ddod o hyd i swyddi amgen?

**Brian Gibbons:** Diolch ichi am eich gwaith ar y pwyllgor. Fel aelod o Amicus ers amser maith, ac fel aelod o adran undeb ymarferwyr meddygol Amicus, yr wyf wedi cael llawer trafodaeth gydag adran undeb gweithwyr tybaco Amicus am y mater hwn. Mae adran undeb y gweithwyr tybaco yn cydnabod realiti'r sefyllfa, ac mae'n bur aeddfed wrth gydnabod ei fod yn ddiwydiant peryglus cyn belled ag y mae'r cyhoedd yn bod. Nid yw'n ymddwyn yn heriol drwy wrthwynebu'r math hwn o ddeddfwriaeth. Yr ydych yn iawn wrth ddweud ei fod am gael ymateb pwyllog i hyn, ac mae'n bwysig i'r Llywodraeth roi sylw i'r ardaloedd hynny lle y mae ffatrïoedd tybaco, yn arbennig, fel bod modd inni wneud rhywbeth wrth i'r fasnach ddirywio.

Cyffyrddasoch hefyd â mater pwysig arall, a nododd y Prif Weinidog y bydd yn gwneud datganiad ar 'Rhown Derfyn ar Dlodi'. Bydd llawer o'r cwmnïau tybaco rhyngwladol yn bur sinigaid. Wrth iddynt gollu eu



their markets here in Britain and in Wales, they will start targeting their products at developing countries. It is an issue of corporate responsibility for those companies in terms of how they behave, and we should be making it clear to them that we would not regard it as responsible if they were to respond to this by turning to much poorer countries, exploiting their population and exposing them to the risks that tobacco undoubtedly poses. There is an important international dimension, which is relevant to all the events that have been taking place around the G8 conference and so forth. I thank you very much; we do need to address that, and even though jobs may be lost in the tobacco industry, we recognise that there will be opportunities in tourism, for example. Since the ban has come into power in Ireland, the number of visitors to the country has increased by 3 or 4 per cent. If we market Wales properly, then we will be able to get extra job opportunities through tourist interest, by selling a healthy and clean Wales.

marchnadoedd yma ym Mhrydain ac yng Nghymru, byddant yn dechrau targedu eu cynnyrch ar wledydd sy'n datblygu. Mae'n gwestiwn o gyfrifoldeb corfforaethol i'r cwmnïau hynny o ran sut y maent yn ymddwyn, a dylem fod yn ei gwneud yn glir iddynt na fyddem yn ystyried ei bod yn beth cyfrifol iddynt ymateb i hyn drwy droi tuag at wledydd llawer tlotach, gan ecsbloetio eu poblogaeth a'u peryglu drwy gysylltiad â'r risgiau sydd yn ddiamheuol ynghlwm wrth dybaco. Mae dimensiwn rhyngwladol pwysig, sy'n berthnasol i'r holl ddigwyddiadau sydd wedi bod yn digwydd o amgylch cynhadledd yr G8 ac yn y blaen. Diolchaf yn fawr iawn ichi; mae angen inni roi sylw i hynny, ac er gwaethaf y posibilrwydd y collir swyddi yn y diwydiant tybaco, yr ydym yn cydnabod y bydd cyfleoedd o fewn twristiaeth, er enghraifft. Ers i'r gwaharddiad ddod i rym yn Iwerddon, mae nifer yr ymwelwyr â'r wlad wedi cynyddu 3 neu 4 y cant. Dim ond inni farchnata Cymru'n iawn, byddwn yn gallu cael cyfleoedd swyddi ychwanegol drwy ddenu twristiaid, drwy werthu Cymru iach a glân.

4.00 p.m.

**David Melding:** I commend the approach of the Government in responding in this positive way. As chair of the Health and Social Services Committee, I, too, take great pleasure in the fact that there is a wide consensus in the Assembly on banning smoking in public places. It is important that we emphasise the general health gain that will accrue from this policy for those that would have otherwise been affected by passive smoking. It is equally important to support smokers, so that they can reduce their consumption or even kick the habit. We need to sell this positively. I know that there are some sceptics in the Chamber who do not think that this will work—they are saying so in my ear now—but smoking is not an inherent, natural activity. It is learned through social practice. Mass consumption pretty much dates to the first world war, and we would do well to remember that. Before the first world war all sorts of leisure activities were pursued without the constant fog of cigarette smoke. I am sure that the industry will survive and prosper.

**David Melding:** Yr wyf yn cymeradwyo agwedd y Llywodraeth wrth iddi ymateb yn y modd positif hwn. Fel cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yr wyf finnau, hefyd, yn ymhyfrydu'n fawr yn y ffaith bod consensws eang yn y Cynulliad ar wahardd ysmegu mewn mannau cyhoeddus. Mae'n bwysig inni bwysleisio'r enillion o ran iechyd yn gyffredinol a fydd yn deillio o'r polisi hwn i'r rhai y byddai ysmegu goddefol wedi effeithio arnynt fel arall. Mae'r un mor bwysig rhoi cymorth i ysmegwyr, fel eu bod yn gallu lleihau eu defnydd neu hyd yn oed roi'r gorau i'r arfer. Mae angen inni gyflwyno hyn mewn modd positif. Gwn fod rhai pobl yn y Siambr yn amau na fydd hyn yn gweithio—maent yn dweud hynny yn fy nghlust yn awr—ond nid yw ysmegu yn weithgaredd cynhenid, naturiol. Fe'i dysgir drwy arfer cymdeithasol. O'r rhyfel byd cyntaf y mae defnydd torfol yn deillio fwy neu lai, a byddai'n dda inni gofio hynny. Cyn y rhyfel byd cyntaf ymgymerid â phob math o weithgareddau hamdden heb niwl cyson mwg sigarêts. Yr wyf yn siŵr y bydd y

diwydiant yn goroesi ac yn ffynnu.

Can you indicate which will be the principal committee that will look at the regulations? The fact that you have spoken today seems to indicate that it will be my committee, but it is a cross-cutting issue and you may have given some thought as to how we will get the regulations right, and ensure that we have the best possible draftsmanship when it comes to drawing up the regulations.

**Brian Gibbons:** Thank you for that, David; you are right, this is about a positive health gain rather than a prohibition on smokers. As I said, many smokers will welcome this move. On the point that you make about smoking not being a natural part of the human condition, I do not know whether you remember the sketch that Bob Newhart used to perform on television and elsewhere, in which he impersonated Sir Walter Raleigh arriving back from the New World and explaining that he had this weed, and that if you smoked it, you would have a real sense of wellbeing and so forth. I think that graphically illustrated that smoking is not part of the normal order of the human condition.

The Health and Social Services Committee will be leading on this legislation, but there will be a widespread consultation across Wales on the regulations once they are published, which will, hopefully, be as soon as possible. I see that Leighton Andrews is also here, and we remember his amendment when we previously debated this issue. There will be a regulatory impact assessment in relation to this piece of legislation, as well as an extensive consultation on these regulations before they come back to the Health and Social Services Committee in the first instance, and then to Plenary to be ratified.

A allwch nodi pa un fydd y prif bwyllgor a fydd yn edrych ar y rheoliadau? Mae'r ffaith eich bod wedi siarad heddiw fel pe bai'n awgrymu mai fy mhwyllgor i fydd hwnnw, ond mae'n fater trawsbynciol ac efallai eich bod wedi ystyried sut y byddwn yn sicrhau bod y rheoliadau'n iawn, a sicrhau bod gennym y sgiliau drafftio gorau posibl pan ddaw'n fater o lunio'r rheoliadau hyn.

**Brian Gibbons:** Diolch ichi am hynny, David, yr ydych yn iawn, mae a wnelo hyn ag enillion positif o ran iechyd yn hytrach na gwaharddiad ar ysmygwyr. Fel y dywedais, bydd llawer o ysmygwyr yn croesawu'r symudiad hwn. Ynghylch y pwynt a wnaethoch nad yw ysmegu yn rhan naturiol o'r cyflwr dynol, ni wn a ydych yn cofio'r sgetsh yr arferai Bob Newhart ei pherfformio ar y teledu a mannau eraill, lle'r oedd yn dynwared Syr Walter Raleigh yn cyrraedd yn ôl o'r Byd Newydd ac yn esbonio ei fod wedi dod â chwyn gydag ef, a dim ond ichi ei ysmegu, y byddech yn cael ymdeimlad gwirioneddol o gysur ac yn y blaen. Credaf fod hynny'n dangos yn blaen nad yw ysmegu yn rhan o drefn arferol y cyflwr dynol.

Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a fydd yn arwain ar y ddeddfwriaeth hon, ond bydd ymgynghori eang ar draws Cymru ar y rheoliadau wedi iddynt gael eu cyhoeddi, a bydd hynny, gobeithio, cyn gynted â phosibl. Gwelaf fod Leighton Andrews yma hefyd, ac yr ydym yn cofio ei welliant pan drafodwyd y mater hwn o'r blaen. Cynhelir asesiad effaith reoleiddiol mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth hon, yn ogystal ag ymgynghoriad helaeth ynghylch y rheoliadau hyn cyn iddynt ddod yn ôl i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddechrau, ac yna i Gyfarfod Llawn i gael eu cadarnhau.

### **Pwyntiau o Drefn Points of Order**

**Jonathan Morgan:** I raise a point of order relating to oral questions under Standing Order No. 6. Two weeks ago, I asked the First Minister in the Chamber about the fact that the global waiting list position had

**Jonathan Morgan:** Codaf bwynt o drefn yn ymwneud â chwestiynau llafar o dan Reol Sefydlog Rhif 6. Bythefnos yn ôl, holais y Prif Weinidog yn y Siambr ynghylch y ffaith bod y sefyllfa o ran rhestrau aros drwyddynt

increased from about 160,000 people prior to devolution to some 280,000 to 290,000 people, an increase of over 120,000. The response that the First Minister gave me was that he did not believe that the two sets of figures were comparable, because they were not collected properly at the time of devolution. He repeated that sentiment to Jenny Randerson when she asked her supplementary question. Since then, I have tabled a written question to the Minister for Health and Social Services, asking whether the method of calculating the total waiting list figure had changed, and the reply is that the definitions for the way in which out-patient, in-patient and day-case waiting lists are counted have broadly remained the same. There is a discrepancy between the messages being put out by the First Minister on the one hand and by the Minister for Health and Social Services on the other. In terms of the accuracy of statements in the Chamber, it is important for the First Minister or the Minister for Health and Social Services to make a statement, otherwise it gives the impression that the First Minister is merely happy to make things up as he goes along.

**The Presiding Officer:** Order. I am absolutely certain, from my close observation of the First Minister, that he never makes things up as he goes along.

**The First Minister:** Further to that point of order, I am happy to say that there is no contradiction between what the Minister for Health and Social Services has said and what I said. I have said on dozens of occasions that I am advised that there was no organised method of collecting out-patient data in 1999 and 2000.

**The Minister for Health and Social Services (Brian Gibbons):** Further to that point of order, the pertinent point that Jonathan mentioned is that the definitions have not changed, but how specifically the data was collected in individual cases with the exact same definitions may be more variable. That is the point that the First Minister made.

**The Presiding Officer:** Order. I am relieved that I have no locus in this point of order; it is

draw wedi cynyddu o oddeutu 160,000 o bobl cyn datganoli i ryw 280,000 i 290,000 o bobl, cynnydd o fwy na 120,000. Yr ateb a roddodd y Prif Weinidog imi oedd nad oedd yn credu bod modd cymharu'r ddwy set o ffigurau, gan nad oeddent yn cael eu casglu'n gywir adeg datganoli. Ailadroddodd y farn honno wrth Jenny Randerson pan ofynnodd hithau ei chwestiwn atodol. Ers hynny, yr wyf wedi cyflwyno cwestiwn ysgrifenedig i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn gofyn a oedd y dull o gyfrifo'r cyfanswm ar restrau aros wedi newid, a'r ateb yw bod y diffiniadau ar gyfer y modd y cyfrifir rhestrau aros cleifion allanol, cleifion mewnol ac achosion dydd wedi parhau'n ddigyfnewid at ei gilydd. Mae anghysondeb rhwng y negeseuon a roddir gan y Prif Weinidog ar y naill law a chan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y llaw arall. O ran cywirdeb datganiadau yn y Siambr, mae'n bwysig i'r Prif Weinidog neu'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wneud datganiad, neu, fel arall, mae'n rhoi'r argraff bod y Prif Weinidog yn ddigon bodlon cyfansoddi wrth fynd yn ei flaen.

**Y Llywydd:** Trefn. Yr wyf yn gwbl sicr, a minnau wedi sylwi'n fanwl ar y Prif Weinidog, nad yw byth yn cyfansoddi wrth fynd yn ei flaen.

**Y Prif Weinidog:** Ymhellach i'r pwynt o drefn hwnnw, yr wyf yn falch o ddweud nad oes dim gwrthdaro rhwng yr hyn y mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'i ddweud a'r hyn a ddywedais i. Yr wyf wedi dweud droeon fy mod wedi cael gwybod nad oedd dull trefnus o gasglu data cleifion allanol yn bodoli yn 1999 a 2000.

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Ymhellach i'r pwynt o drefn hwnnw, y pwynt perthnasol y soniodd Jonathan amdano yw nad yw'r diffiniadau wedi newid, ond efallai fod y dulliau penodol a ddefnyddid i gasglu data mewn achosion unigol gyda'r un diffiniadau yn fwy amrywiol. Hynny yw'r pwynt a wnaeth y Prif Weinidog.

**Y Llywydd:** Trefn. Yr wyf yn falch nad oes gennyf unrhyw ran yn y pwynt o drefn hwn;

not a matter for me. Helen Mary Jones, I see that you want to speak; I hope that this is a matter for me.

**Helen Mary Jones:** I hope that it is a matter for you, Presiding Officer, but that, of course, will be for you to determine.

I raise a point of order under Standing Order No. 6.11 on statements in Plenary. Reference has already been made this afternoon to the fact that the Minister for Environment, Planning and Countryside has made two important statements, one on technical advice note 8, which he will release later today, and one on technical advice note 2 on housing, including an announcement relating to funding. It was claimed that this funding was additional, but I am assured that it is not. He chose to make those statements outside Plenary, and I am sure that we would all want to avoid any impression that Government Ministers wish to avoid scrutiny on important statements. Can you rule as to whether the Minister has acted appropriately according to our Standing Orders?

**The Minister for Environment, Planning and Countryside (Carwyn Jones):** Further to that point of order, TAN 1 and TAN 2 are draft TANs for consultation. The grant that was referred to is a matter for my colleague, Edwina Hart; it is not a planning issue. Secondly, it was announced at the Environment, Planning and Countryside Committee, the last time that it met, that the TAN would be available in time, so that the committee could scrutinise it tomorrow. That promise has been kept. No comment was made at the time that indicated any level of discontent with that, but I now see that amnesia has set in.

**The Presiding Officer:** It has not set in with me, at least, not on this matter. I have ruled, as you will remember, on many occasions, following what is stated in the Ministerial Code. The Ministerial Code is not a matter for me, but, in this case, it concerns what happens in Plenary, in that it indicates that when the Assembly is sitting, important statements should be made to Plenary. It seems to me that those statements are to be made, not to Plenary, but to a committee,

nid mater i mi ydyw. Helen Mary Jones, yr wyf yn gweld eich bod yn dymuno siarad; gobeithio bod hyn yn fater i mi.

**Helen Mary Jones:** Gobeithio ei fod yn fater i chi, Lywydd, ond chi, wrth gwrs, sydd i benderfynu hynny.

Codaf bwynt o drefn o dan Reol Sefydlog Rhif 6.11 ynghylch datganiadau mewn Cyfarfod Llawn. Cyfeiriwyd eisoes y prynhawn yma at y ffaith bod y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad wedi gwneud dau ddatganiad pwysig, y naill ar nodyn cyngor technegol 8, y bydd yn ei ryddhau yn nes ymlaen heddiw, a'r llall ar nodyn cyngor technegol 2 ar dai, gan gynnwys cyhoeddiad ynghylch cyllid. Honnwyd bod y cyllid hwn yn ychwanegol, ond fe'm sicheir nad ydyw. Dewisodd wneud y datganiadau hynny y tu allan i'r Cyfarfod Llawn, ac yr wyf yn siŵr y byddem i gyd yn awyddus i osgoi'r argraff bod Gweinidogion y Llywodraeth yn ceisio osgoi craffu ar ddatganiadau pwysig. A allwch ddyfarnu a wnaeth y Gweinidog weithredu'n briodol yn ôl ein Rheolau Sefydlog?

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Ymhellach i'r pwynt o drefn hwnnw, nodiadau cyngor technegol drafft ar gyfer ymgynghori yw TAN 1 a TAN 2. Mater i fy nghyd-Aelod, Edwina Hart, yw'r grant y cyfeiriwyd ato; nid mater cynllunio ydyw. Yn ail, cyhoeddwyd ym Mhwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, y tro diwethaf y bu iddo gyfarfod, y byddai'r TAN ar gael mewn pryd fel y gallai'r pwyllgor graffu arno yfory. Mae'r addewid honno wedi'i chadw. Ni wnaed dim sylw ar y pryd a awgrymai fod anfonlonrwydd ar hynny, ond gwelaf erbyn hyn fod coll cof wedi digwydd.

**Y Llywydd:** Nid wyf fi wedi colli fy nghof, o leiaf nid yn y mater hwn. Yr wyf wedi dyfarnu droeon, fel y cofiwch, yn ôl yr hyn a nodir yng Nghod y Gweinidogion. Nid mater i mi yw Cod y Gweinidogion, ond, yn yr achos hwn, mae'n ymwneud â'r hyn sy'n digwydd mewn Cyfarfod Llawn, sef y dylid gwneud unrhyw ddatganiadau pwysig mewn Cyfarfod Llawn pan fo'r Cynulliad yn cwrdd. Ymddengys i mi mai mewn pwyllgor y dylid gwneud y datganiadau hynny, nid mewn

therefore, scrutiny will take place.

**Peter Black:** Further to that point of order, that may be the case in relation to TAN 8, but on the issue of the affordable housing statement, that is not the case. In fact, statements are made in that consultation in relation to extra funding that are not being scrutinised by the Assembly, namely that there is about £30 million of extra money, but, when you look at the budget, £20 million is set aside for Wanless and £4 million is set aside for substance misuse. We are not able to scrutinise that because those statements have not been made in Plenary.

**Carwyn Jones:** Further to that point of order, TAN 1 and TAN 2 are draft TANs. There will be plenty of opportunity for the committees to scrutinise the draft TANs and to provide their input. It has never been the practice in the past, to my understanding, that technical advice notes are mentioned in statements to Plenary. However, I felt that it was important, as far as TAN 8 was concerned, given the fact that it is now a final version of the TAN, not a draft, that it should be out before the end of term so that the committee should be able to look at it tomorrow. I made that clear three weeks ago.

**The Presiding Officer:** I am grateful to the Minister for that response. The issue for me is that I have to try to ensure that scrutiny takes place in a democratic forum. Increasingly, as we face the events of the White Paper, we are likely to be doing a lot more scrutiny work in committee, with the committee reporting to the Assembly.

As regards the statement relating to the spend on affordable housing, there seems to be an issue here, and I may be able to take it further in private discussion or correspondence with the Government. If there is a statement about a major spend, I can see that Members would want to have that scrutinised.

4.10 p.m.

Cyfarfod Llawn, felly bydd craffu yn digwydd.

**Peter Black:** Ymhellach i'r pwynt o drefn hwnnw, efallai mai felly y mae yng nghyswllt TAN 8, ond ar fater y datganiad ar dai fforddiadwy, nid felly y mae. Yn wir, mae datganiadau ar gyllid ychwanegol yn cael eu gwneud yn yr ymgynghoriad hwnnw nad yw'r Cynulliad yn craffu arnynt, sef bod tua £30 miliwn o arian ychwanegol, ond, pan edrychwch ar y gyllideb, mae £20 miliwn wedi ei neilltuo ar gyfer Wanless a £4 miliwn ar gyfer camddefnyddio sylweddau. Ni allwn graffu ar y mater oherwydd ni wnaethpwyd y datganiadau hynny mewn Cyfarfod Llawn.

**Carwyn Jones:** Ymhellach i'r pwynt o drefn hwnnw, nodiadau cyngor technegol drafft yw TAN 1 a TAN 2. Felly, bydd digon o gyfle i bwyllgorau graffu ar y nodiadau TAN drafft a chyfrannu eu sylwadau. Nid yw erioed wedi digwydd o'r blaen, hyd y gwn i, fod nodiadau cyngor technegol yn rhan o ddatganiadau i Gyfarfod Llawn. Er hynny, teimlwn ei bod yn bwysig, cyn belled ag yr oedd TAN8 yn y cwestiwn, o gofio ei fod bellach yn nodyn TAN terfynol ac nid yn ddrafft, y dylid ei gyhoeddi cyn diwedd y tymor fel bod y pwyllgor yn gallu edrych arno yfory. Dywedais hynny'n glir dair wythnos yn ôl.

**Y Llywydd:** Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw. Y cwestiwn i mi yw bod yn rhaid imi geisio sicrhau bod craffu'n digwydd mewn fforwm democrataidd. Yn gynyddol, wrth inni wynebu digwyddiadau'r Papur Gwyn, yr ydym yn debygol o fod yn gwneud llawer mwy o waith craffu mewn pwyllgor, a'r pwyllgor wedyn yn adrodd i'r Cynulliad.

O ran y datganiad ar y cyllid ar gyfer tai fforddiadwy, ymddengys fod problem gyda hyn, ac efallai y caf drafod y mater ymhellach mewn trafodaeth neu ohebiaeth breifat gyda'r Llywodraeth. Os oes datganiad ynghylch gwariant sylweddol, gallaf weld y byddai'r Aelodau'n awyddus i gael cyfle i graffu arno.

**Cymeradwyo Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Cychwyn Rhif 3) 2005**  
**Approval of the Public Audit (Wales) Act 2004 (Commencement No. 3) Order 2005**

**The Finance Minister (Sue Essex):** I propose that

*the National Assembly for Wales considers the principle of the Public Audit (Wales) Act 2004 (Commencement No. 3) Order 2005, a copy of which was laid in the Table Office on 21 June 2005. (NDM2537)*

I propose that

the National Assembly for Wales:

*1. considers the report of the Legislation Committee laid in the Table Office and e-mailed to Assembly Members on 5 July 2005 in relation to the draft Public Audit (Wales) Act 2004 (Commencement No. 3) Order 2005; and*

*2. approves that the Public Audit (Wales) Act 2004 (Commencement No. 3) Order 2005 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 21 June 2005. (NDM2538)*

**Janet Davies:** When the Public Audit Bill, under which the new Wales Audit Office was set up, was under consideration, two ad-hoc committees of the Assembly met to make recommendations. The point about which we had the most serious concerns is now covered in sections 54 and 54(a) of the Act, to which this Order applies. The sections cover disclosure of information relating to local government in Wales by the Auditor General and independent local government auditors. Given that we, as an Assembly, have always said that we are in favour of openness and transparency, the committee wished there to be full powers of disclosure of all information available to auditors, apart from normal confidentiality restrictions. A further ad-hoc committee met this year, and affirmed the view.

Section 54 makes a presumption in favour of

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Cynigiaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystyried egwyddor Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Cychwyn Rhif 3) 2005, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mehefin 2005. (NDM2537)*

Cynigiaf fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

*1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 5 Gorffennaf 2005 mewn perthynas â Gorchymyn drafft Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Cychwyn Rhif 3) 2005; a*

*2. yn cymeradwyo bod Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Cychwyn Rhif 3) 2005 yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mehefin 2005. (NDM2538)*

**Janet Davies:** Pan oedd y Mesur Archwilio Cyhoeddus, a arweiniodd at sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru, yn cael ei ystyried, cyfarfu dau o bwyllgorau ad-hoc y Cynulliad i wneud argymhellion. Mae'r pwynt yr oedd gennym y pryderon mwyaf difrifol yn ei gylch bellach yn derbyn sylw yn adrannau 54 a 54(a) y Ddeddf, sef y pwynt y mae'r Gorchymyn hwn yn berthnasol iddo. Mae'r adrannau yn delio â datgelu gwybodaeth yn ymwneud â llywodraeth leol yng Nghymru gan yr Archwiliwr Cyffredinol ac archwilwyr llywodraeth leol annibynnol. O gofio ein bod ni, fel Cynulliad, bob amser wedi dweud ein bod o blaid bod yn agored a thryloyw, yr oedd y pwyllgor eisiau gweld pwerau datgelu llawn yng nghyswllt pob gwybodaeth sydd ar gael i'r archwilwyr, ar wahân i gyfyngiadau cyfrinachedd arferol. Cyfarfu pwyllgor ad-hoc arall eleni, a chadarnhau'r farn honno.

Mae adran 54 yn rhagdybio o blaid datgelu

disclosure that goes some way towards the committee's wishes with regard to the Auditor General's powers. However, there remains a presumption against disclosure by independent auditors of local government. It cannot be acceptable that different rules apply for information about Welsh central government and Welsh local government, but we have no power under secondary legislation on this.

The committee recommended that the commencement Order be approved, and then called on the Secretary of State for Wales to use appropriate primary legislation, within the UK Government's current legislative programme, to completely reverse the presumption against disclosure. The UK Government's Department for Constitutional Affairs has made a commitment to revising statutory restrictions, therefore I hope that there will be primary legislation in the very near future to remedy this. The fact that there would be inconsistencies in criminal law between England and Wales needs revision in favour of openness for both countries, rather than both countries having a presumption in favour of confidentiality.

Looking to the future, I am concerned that if a similar situation were to arise, under New Labour proposals in the White Paper, we would still remain subject to the UK Government's stance on something as basic as openness of government.

**Mark Isherwood:** In response to my question in the additional committee considering the commencement Order, the Assembly's compliance officer stated to me that, 'in factual terms', there are no restrictions akin to section 54 on the Auditor General reporting on anything that is to do with the Assembly or any body for which he is a statutory auditor. This partial reversal in terms of public authorities brings probably more than half of section 54, because it also covers local government bodies, broadly into line with the Auditor General's powers in terms of non-local government bodies. However, under the Freedom of Information Act 2000, we have a proportion of bodies that are not public authorities, including appointed auditors, that is still outside that and that is still subject to the general

sydd, i raddau, yn cydnabod dymuniadau'r pwyllgor ynghylch pwerau'r Archwiliwr Cyffredinol. Er hynny, erys rhagdybiaeth yn erbyn datgelu gan archwilwyr llywodraeth leol annibynnol. Ni all fod yn dderbyniol bod rheolau gwahanol ar gyfer gwybodaeth am lywodraeth ganolog Cymru a llywodraeth leol Cymru, ond nid oes gennym bŵer o dan is-ddeddfwriaeth yn y cyswllt hwn.

Argymhelliad y pwyllgor oedd y dylid cymeradwyo'r Gorchymyn cychwyn, cyn galw ar Ysgrifennydd Gwladol Cymru i ddefnyddio'r ddeddfwriaeth sylfaenol briodol, o fewn rhaglen ddeddfwriaeth bresennol Llywodraeth y DU, i wrth-droi'n llwyr y rhagdybiaeth yn erbyn datgelu. Mae Adran Materion Cyfansoddiadol Llywodraeth y DU wedi gwneud ymrwymiad i ddiwygio'r cyfyngiadau statudol, felly gobeithio y daw deddfwriaeth sylfaenol yn y dyfodol agos iawn i unioni hyn. Mae'r ffaith y byddai anghysondebau mewn cyfraith droseddol rhwng Cymru a Lloegr yn rhywbeth y mae angen ei ddiwygio o blaid bod yn agored gan y ddwy wlad, yn hytrach na bod gan y ddwy wlad ragdybiaeth o blaid cyfrinachedd.

Wrth edrych i'r dyfodol, yr wyf yn poeni pe bai sefyllfa debyg yn codi, o dan gynigion Llafur Newydd yn y Papur Gwyn, y byddem yn dal i fod yn ddarostyngedig i safiad Llywodraeth y DU ar rywbeth mor sylfaenol â bod yn agored wrth lywodraethu.

**Mark Isherwood:** Wrth ateb fy nghwestiwn yn y pwyllgor ychwanegol ynghylch y Gorchymyn cychwyn, dywedodd swyddog cydymffurfio'r Cynulliad wrthyf nad oes, 'o ran ffaith', unrhyw gyfyngiadau tebyg i adran 54 ar yr Archwiliwr Cyffredinol o ran adrodd ar unrhyw beth yn ymwneud â'r Cynulliad neu unrhyw gorff y mae'n archwiliwr statudol iddo. Mae'r gwrthdroad rhannol hwn o ran awdurdodau cyhoeddus yn peri bod mwy na hanner adran 54 yn ôl pob tebyg, gan ei bod hefyd yn ymwneud â chyrrff llywodraeth leol, yn cyd-fynd yn fras â phwerau'r Archwiliwr Cyffredinol yng nghyswllt cyrff sydd heb fod yn rhai llywodraeth leol. Er hynny, o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, mae cyfran o gyrff nad ydynt yn awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys archwilwyr penodedig, sy'n

presumption against disclosure.

In respect of these bodies, the Assembly's compliance officer stated that this does not fully overcome the concerns addressed by the National Assembly for Wales and the Audit Committee as the presumption does not go all the way. It does not appear to overcome the concerns arising when an internal auditor investigates a hypothetical situation involving his local government employer, experiences difficulties and feels that he or she needs to go externally to ensure that his or her investigation can continue unimpeded.

However, because of the legal complications applying to section 49 of the Audit Commission Act 1998, and because of the UK Government commitment to extending the relaxation to appointed auditors and other bodies or persons that do not currently fall within the category of public authorities at the earliest legislative opportunity, we will support this commencement Order. However, the Welsh Assembly Government will now have a duty and obligation to ensure that the UK Government and the Secretary of State for Wales deliver on their pledge, and we will be watching them closely to ensure that they do.

**Mick Bates:** The Welsh Liberal Democrats will support the commencement Order. However, as previous speakers have said, it is a step in the right direction, but there is further to travel. The full implications of this Order for our guiding principles of transparency and openness are clear, in that we cannot tolerate local government having independent auditors who are not subject to the same transparency and openness as Government activities. We all want to see that, so let us hope that the second recommendation from the working group will be acted upon. I would like the Minister to tell us what actions are being planned to fulfil that recommendation. This brings to mind the old adage that the proof of the pudding is in the eating. Let us see if those in Government are as good as their word about openness and transparency.

parhau y tu allan i hynny ac yn dal i fod yn ddarostyngedig i'r rhagdybiaeth gyffredinol yn erbyn datgelu.

O ran y cyrff hyn, dywedodd swyddog cydymffurfio'r Cynulliad nad yw hyn yn llwyr oresgyn y pryderon a drafodwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Pwyllgor Archwilio gan nad yw'r rhagdybiaeth yn berthnasol i bawb. Nid ymddengys ei fod yn goresgyn y pryderon sy'n codi pan fydd archwiliwr mewnol yn ymchwilio i sefyllfa ddamcaniaethol ynghylch ei gyflogwr mewn llywodraeth leol, yn profi anawsterau ac yn teimlo bod angen iddo ef neu iddi hi fynd yn allanol i sicrhau y gall ei ymchwiliad barhau yn ddirwystr.

Fodd bynnag, oherwydd y cymhlethodau cyfreithiol ynghlwm wrth adran 49 Deddf y Comisiwn Archwilio 1998, ac oherwydd ymrwymiad Llywodraeth y DU i estyn y llacio, cyn gynted ag y daw cyfle deddfwriaethol i wneud hynny, i gynnwys archwilwyr penodedig a chyrrff neu unigolion eraill nad ydynt yn dod o dan y categori awdurdodau cyhoeddus ar hyn o bryd, byddwn yn cefnogi'r Gorchymyn cychwyn hwn. Fodd bynnag, bydd gan Lywodraeth y Cynulliad ddyletswydd a rhwymedigaeth yn awr i wneud yn siŵr bod Llywodraeth y DU ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn cadw eu haddewid, a byddwn yn eu gwyllo'n ofalus i sicrhau y byddant yn gwneud hynny.

**Mick Bates:** Bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi'r Gorchymyn cychwyn. Fodd bynnag, fel y mae siaradwyr blaenorol wedi dweud, mae'n gam i'r cyfeiriad iawn, ond mae cryn ffordd eto i fynd. Mae goblygiadau llawn y Gorchymyn hwn i'n hegwyddorion arweiniol, sef bod yn dryloyw ac agored, yn glir, o ran na allwn oddef archwilwyr annibynnol gan lywodraeth leol nad ydynt yn ddarostyngedig i'r un egwyddorion, bod yn dryloyw ac agored, â gweithgareddau'r Llywodraeth. Yr ydym i gyd yn awyddus i weld hynny, felly gadewch inni obeithio y gweithredir ar yr ail argymhelliad gan y gweithgor. Hoffwn i'r Gweinidog ddweud wrthym beth y bwriedir ei wneud i gyflawni'r argymhelliad hwnnw. Mae hyn yn fy atgoffa o'r hen ddywediad mai wrth ei flas y mae profi pwddin. Gadewch inni weld a fydd y rhai mewn Llywodraeth yn



cadw at eu gair ynghylch bod yn agored a thryloyw.

**The Presiding Officer:** Order. It would be helpful if, when the Minister responds, she is heard in relative silence. I am sure that she has something interesting to tell us.

**Y Llywydd:** Trefn. Byddai'n dda o beth pe bai'r Gweinidog, pan fydd yn ymateb, yn cael ei chlywed mewn distawrwydd cymharol. Yr wyf yn siŵr bod ganddi rywbeth diddorol i'w ddweud wrthym.

*considers the principle of the Genetically Modified Organisms (Traceability and Labelling) (Wales) Regulations 2005, a copy of which was laid in the Table Office on 28 June 2005;*

*yn ystyried egwyddor Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Holrhain a'u Labelu) (Cymru) 2005, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mehefin 2005;*

*calls for the threshold for GM contamination in non-GM produce to be established at the lowest detectable rate.*

*yn galw am sefydlu trothwy ar gyfer nodi halogiad GM mewn cynnyrch di-GM yn ôl y gyfradd canfod isaf posibl.*

*Cynnig wedi'i ddiwygio: O blaid 48, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
 Amended motion: For 48, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
 The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
 Barrett, Lorraine  
 Bates, Mick  
 Black, Peter  
 Bourne, Nick  
 Burnham, Eleanor  
 Butler, Rosemary  
 Cairns, Alun  
 Chapman, Christine  
 Cuthbert, Jeff  
 Davidson, Jane  
 Davies, Andrew  
 Davies, Glyn  
 Dunwoody-Kneafsey, Tamsin  
 Essex, Sue  
 Francis, Lisa  
 German, Michael  
 Gibbons, Brian  
 Graham, William  
 Gregory, Janice  
 Griffiths, John  
 Gwyther, Christine  
 Hart, Edwina  
 Hutt, Jane  
 Idris Jones, Denise  
 Isherwood, Mark  
 James, Irene

Jones, Alun Ffred  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Helen Mary  
Jones, Laura Anne  
Law, Peter  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Lloyd, Val  
Melding, David  
Mewies, Sandy  
Neagle, Lynne  
Pugh, Alun  
Randerson, Jenny  
Ryder, Janet  
Sargeant, Carl  
Sinclair, Karen  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Rhodri Glyn  
Williams, Brynle  
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.  
Amended motion carried.*

*Cynnig (NDM2544): O blaid 48, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
Motion (NDM2544): For 48, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Burnham, Eleanor  
Butler, Rosemary  
Cairns, Alun  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davidson, Jane  
Davies, Andrew  
Davies, Glyn  
Dunwoody-Kneafsey, Tamsin  
Essex, Sue  
Francis, Lisa  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Idris Jones, Denise  
Isherwood, Mark  
James, Irene  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Helen Mary  
Jones, Laura Anne  
Law, Peter  
Lewis, Huw

Lloyd, David  
 Lloyd, Val  
 Melding, David  
 Mewies, Sandy  
 Morgan, Jonathan  
 Neagle, Lynne  
 Pugh, Alun  
 Randerson, Jenny  
 Ryder, Janet  
 Sargeant, Carl  
 Sinclair, Karen  
 Thomas, Gwenda  
 Thomas, Rhodri Glyn  
 Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig.  
 Motion carried.*

**Cymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2005**  
**Approval of the National Health Service (Charges for Drugs and Appliances) (Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2005**

**The Presiding Officer:** I have selected amendments 1 and 2 to NDM2545 in the name of Kirsty Williams.

**Y Llywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1 a 2 i NDM2545 yn enw Kirsty Williams.

**The Minister for Health and Social Services (Brian Gibbons):** I propose that

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Cynigiau fod

*the National Assembly for Wales considers the principle of the National Health Service (Charges for Drugs and Appliances) (Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2005 a copy of which was laid in Table Office on 28 June 2005. (NDM2545)*

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystyried egwyddor Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2005, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mehefin 2005. (NDM2545)*

I propose that

Cynigiau fod

*the National Assembly for Wales*

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

*1. considers the report of the Legislation Committee laid in the Table Office and e-mailed to Assembly Members on 5 July 2005 in relation to the draft National Health Service (Charges for Drugs and Appliances) (Wales) (Amendment) (No. 2) Regulations 2005; and*

*1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 5 Gorffennaf 2005 mewn perthynas â Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2005 drafft; ac*

*2. approves that the National Health Service (Charges for Drugs and Appliances) (Wales) (Amendment) (No 2) Regulations 2005 is made in accordance with:*

*2. yn cymeradwyo bod Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â'r:*

*a) the draft laid in the Table Office on 28 June 2005; and*

*a) drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mehefin 2005; a'r*

*b) the regulatory appraisal laid in Table Office on 28 June 2005. (NDM2546)*

I am pleased to commend the motion to the Assembly this afternoon. These regulations are part of a series of measures made by this Government since 2003 in working towards the abolition of prescription charges, which was promised in our manifesto. The total abolition of the charge will be achieved with a further statutory instrument at a later date, with effect from April 2007.

Until now, anyone presenting a prescription at a pharmacy registered with a Welsh local health board has paid the Welsh charge, which is currently £4. This has led to the criticism from some quarters that we are allowing prescription tourism. These regulations will address this by restricting the benefit of these reductions and, ultimately, prescriptions free of charge, to patients holding a Welsh prescription form from 1 August 2005.

These forms will be available only to those prescribers registered with a Welsh local health board or a Welsh NHS trust. The Welsh charge will be applied only in pharmacies contracted to Welsh LHBs. The reduction specified in the regulations will reduce the prescription charge in Wales from £4 to £3 from 1 April 2006. This compares with a prescription charge of £6.50 in England. The cost of an annual pre-payment certificate will also be reduced to £43.09, compared with a charge of £90.40 in England. This Order will also allow patients who are exempt from charging on the grounds of age to be excused from signing the declaration on the reverse of the prescription form. This measure will be warmly welcomed by the pharmacy profession, as it will save time in the dispensing process.

Free prescriptions will be introduced for all people in Wales before the end of this Assembly. By enabling patients to obtain the medicines that they need to treat their condition without financial barriers, the

*b) arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mehefin 2005. (NDM2546)*

Yr wyf yn falch o gymeradwyo'r cynnig hwn i'r Cynulliad y prynhawn yma. Mae'r rheoliadau hyn yn rhan o gyfres o fesurau a wnaethpwyd gan y Llywodraeth hon ers 2003 wrth weithio tuag at ddiddymu taliadau presgripsiynau, fel yr addawyd yn ein maniffesto. Bydd y tâl yn cael ei ddiddymu'n llwyr drwy offeryn statudol pellach yn y dyfodol, a ddaw i rym o Ebrill 2007.

Hyd yma, mae unrhyw un sy'n cyflwyno presgripsiwn mewn fferyllfa a gofrestrwyd gyda bwrdd iechyd lleol yng Nghymru wedi talu'r pris a godir yng Nghymru, sef £4 ar hyn o bryd. Mae hyn wedi arwain at feirniadaeth mewn rhai cylchoedd i'r perwyl ein bod yn caniatáu i bobl ddod i Gymru i gael presgripsiwn. Bydd y rheoliadau hyn yn delio â hynny drwy gyfyngu'r budd a geir o'r gostyngiadau hyn ac, yn y pen draw, o bresgripsiynau am ddim, i gleifion sydd â ffurflen bresgripsiwn Cymru o 1 Awst 2005.

Dim ond i'r presgripsiynwyr hynny sydd wedi cofrestru gyda bwrdd iechyd lleol yng Nghymru neu ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru y bydd y ffurflenni hyn ar gael. Dim ond yn y fferyllfeydd sydd wedi gwneud contract gyda BILlau yng Nghymru y codir y tâl a geir yng Nghymru. Bydd y gostyngiad a nodir yn y rheoliadau'n peri i bris presgripsiwn yng Nghymru ostwng o £4 i £3 o 1 Ebrill 2006. Mae hyn yn cymharu â thâl presgripsiwn o £6.50 yn Lloegr. Bydd cost tystysgrif rhagdalau flynyddol yn gostwng hefyd i £43.09, o'i gymharu â thâl o £90.40 yn Lloegr. Bydd y Gorchymyn hwn hefyd yn caniatáu i gleifion sydd wedi'u heithrio rhag talu ar sail oed gael eu hesgusodi rhag llofnodi'r datganiad ar gefn y ffurflen bresgripsiwn. Bydd croeso mawr i'r mesur hwn ymhlith fferyllwyr, gan y bydd yn arbed amser wrth weinyddu meddyginiaethau.

Cyflwynir presgripsiynau am ddim ar gyfer pawb yng Nghymru cyn diwedd y Cynulliad hwn. Drwy alluogi cleifion i gael y meddyginiaethau y mae arnynt eu hangen i drin eu hanhwylder heb wynebu rhwystrau

quality of life for patients involved should be considerably improved and the cost to the NHS in terms of avoidable hospital treatment should be reduced.

I reject the amendment tabled in the name of Kirsty Williams, calling for me to publish an analysis of the cross-border effects of implementing free prescription charges in Wales. Naturally, prescribing trends, including cross-border trends, are being monitored as the prescription charge has been reduced. This monitoring will continue up and beyond the date of abolition of charges. Health Solutions Wales will be collating the relevant data, and the appropriate statistics will be published in the usual way in due course.

I also reject the second amendment tabled in the name of Kirsty Williams, concerning patients with chronic conditions. Free prescriptions for all, including those suffering from chronic conditions, is a priority of this Government, and will be introduced in April 2007. The reasons for the gradual approach have already been explained on many occasions, and are essential for the full consideration of the range of issues before the abolition of the charge is fully implemented.

**Jenny Randerson:** I propose the following amendments to NDM2545 in the name of Kirsty Williams. Amendment 1: add as a new point at the end of the motion:

*calls for the Minister to publish an analysis of the cross-border effects of implementing the introduction of free prescription charges in Wales.*

I propose amendment 2. Add as a new point at the end of the motion:

*regrets the failure of the Assembly Government to honour its commitment from motion NDM1283 to prioritise free prescriptions for those suffering from chronic conditions.*

It is well known that the Welsh Liberal Democrats would have greatly preferred a different approach to this issue. We are told that the cost of the free prescription policy

ariannol, dylid gweld gwelliant sylweddol yn ansawdd bywyd y cleifion dan sylw a gostyngiad yn y gost i'r GIG o ran triniaethau mewn ysbytai y gellir eu hosgoi.

Gwrthodaf y gwelliant a gyflwynwyd yn enw Kirsty Williams, sydd yn galw arnaf i gyhoeddi dadansoddiad o effeithiau trawsffiniol cyflwyno presgripsiynau am ddim yng Nghymru. Yn naturiol, mae'r tueddiadau o ran rhagnodi, gan gynnwys tueddiadau trawsffiniol, yn cael eu monitro wrth ostwng y tâl a godir am bresgripsiwn. Bydd y monitro hwn yn parhau hyd nes y diddymir y taliadau ac ar ôl hynny. Bydd Atebion Iechyd Cymru yn casglu'r data perthnasol, a chyhoeddir yr ystadegau priodol yn y modd arferol gyda hyn.

Yr wyf hefyd yn gwrthod yr ail welliant a gyflwynwyd yn enw Kirsty Williams, ynghylch cleifion sydd ag anhwylderau cronig. Mae presgripsiynau am ddim i bawb, gan gynnwys y rhai sydd yn dioddef gan anhwylderau cronig, yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon, ac fe'u cyflwynir yn Ebrill 2007. Mae'r rhesymau dros eu cyflwyno'n raddol wedi'u hesbonio eisoes ar lawer achlysur, ac maent yn hollbwysig er mwyn ystyried yn llawn yr holl faterion sydd yn codi cyn diddymu'r tâl yn llwyr.

**Jenny Randerson:** Cynigaf y gwelliannau canlynol i NDM2545 yn enw Kirsty Williams. Gwelliant 1: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn galw ar y Gweinidog i gyhoeddi dadansoddiad o'r effeithiau trawsffiniol yn sgîl gweithredu'r broses o gyflwyno presgripsiynau am ddim yng Nghymru.*

Cynigaf welliant 2. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

*yn gresynu at fethiant Llywodraeth y Cynulliad i anrhydeddu ei hymrwymiad yn sgîl cynnig NDM1283 i flaenoriaethu presgripsiynau am ddim i'r rhai sy'n dioddef cyflyrau cronig.*

Mae'n dra hysbys y buasai'n well o lawer gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru weld dull gwahanol o ymdrin â'r mater hwn. Dywedir wrthym mai £5.5 miliwn fydd cost

will be £5.5 million in the coming year. One has to ask whether there is a similar gain in health terms. Is there really £5.5 million-worth of better health to be had out of free prescription charges—or cheaper prescription charges in this case?

When we recently passed the Assembly resolution on top-up fees, I recall one Labour Assembly Member referring to it as

‘a bung for the better-off’.

We already have income and age-related exemptions from the prescription charges so, by definition, this measure will be specifically targeted at the better-off. So, it is not so much a bung for the better-off as medication for the middle classes.

The Welsh Liberal Democrats would have preferred to give our priority in Wales to those with chronic illnesses, and the last Assembly agreed to that measure. However, once again, the Labour Government here decided to ignore the wishes of the Assembly and plough ahead with its own policy. As a result, chronic illness sufferers facing substantial bills for medication who are not exempt from payment will have to continue to pay for three years longer than they needed to.

Moving on to our amendment 1, I appreciate and welcome the fact that some aspects of the cross-border impact and the prescriptions tourism issue have been dealt with by these regulations. The use of the Welsh prescription form is the specific measure welcomed. However, some impact, maybe unforeseen, is still likely, such as additional registrations with Welsh GPs. We therefore need a careful analysis of the true cost of this policy.

I want to take this opportunity to raise the concerns of pharmacists about the commencement Order for these regulations—1 August is less than three weeks away. To be effective, an immediate and massive information campaign is needed, but is that

y polisi presgripsiynau am ddim yn y flwyddyn sydd i ddod. Rhaid i rywun ofyn a geir cynnydd tebyg o ran iechyd. A ellir cael gwerth £5.5 miliwn o iechyd gwell oddi wrth bresgripsiynau am ddim—neu daliadau llai am bresgripsiynau yn yr achos hwn?

Pan dderbyniasom gynnig yn y Cynulliad yn ddiweddar ar ffioedd atodol, cofiaf fod un Aelod Cynulliad Llafur wedi'i alw'n

gil-dwrn i'r rhai gwell eu byd.

Mae gennym esemptiadau eisoes rhag talu am bresgripsiwn ar sail incwm ac oed felly, drwy ddiffiniad, anelir y mesur hwn at rai gwell eu byd. Felly, mae'n fwy o feddyginiaeth i'r dosbarth canol na chil-dwrn i'r rhai gwell eu byd.

Buasai'n well gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru roi blaenoriaeth yng Nghymru i'r rhai sydd â salwch cronig, a bu i'r Cynulliad diwethaf gytuno ar y mesur hwnnw. Er hynny, unwaith eto, mae'r Llywodraeth Lafur sydd yma wedi penderfynu anwybyddu dymuniadau'r Cynulliad a bwrw ymlaen â'i pholisi ei hun. Oherwydd hynny, bydd y rhai sydd yn dioddef gan salwch cronig sydd yn wynebu biliau mawr am feddyginiaeth nad ydynt wedi'u heithrio rhag talu'n dal i orfod talu am dair blynedd yn hwy nag a oedd angen iddynt.

A symud ymlaen at welliant 1 o'n heiddo, gwerthfawrogaf a chroesawaf y ffaith bod rhai agweddau ar yr effaith drawsffiniol a mater pobl yn dod i Gymru i gael presgripsiwn wedi cael sylw drwy'r rheoliadau hyn. Y defnydd o ffurflen bresgripsiwn Cymru yw'r mesur penodol a groesewir. Er hynny, mae'n debygol o hyd y bydd rhyw effaith, nas rhagwelwyd o bosibl, fel cynnydd yn y nifer sydd yn cofrestru gyda meddygon teulu yng Nghymru. Felly, mae angen inni gael dadansoddiad manwl o wir gost y polisi hwn.

Dymunaf achub ar y cyfle hwn i godi'r pryderon a fynegwyd gan fferyllwyr ynghylch y Gorchymyn cychwyn ar gyfer y rheoliadau hyn—mae llai na thair wythnos tan 1 Awst. Os ydyw i fod yn effeithiol, rhaid wrth ymgyrch gwybodaeth anferth ar



possible given the time available? For instance, as I have said, the Welsh prescription form must now be used in order to pay the lower charge, but do GPs know that they should not be using up old stocks of prescription forms? Has that sort of information been given to them? Do all pharmacies know of the various criteria—for example, the issue of prescriptions having to be on that particular form? Above all, are patients even faintly aware of this? In the time available, I fear that they will not be.

The Welsh Liberal Democrats have serious concerns about funding. The medicines budgets of LHBs are seriously stretched, and there is pressure on them to be reduced again. There was only a 2 per cent increase this year in their medicines budgets, compared with a recommended increase of 9 per cent in England. It is obvious that the cheaper prescriptions become, the higher the demand for them will be—that is the simple law of supply and demand. LHBs are not in a position to finance the higher demand, and it is important, in order to keep within budget, that they do not start cutting back on the prescription of more unusual or expensive medicines. Otherwise, this measure will mean that some of those most in need, in health terms, will lose out. In conclusion, we have serious doubts about whether these measures represent value for money in health terms for the people of Wales.

**Karen Sinclair:** While I welcome these regulations, Brian, will you confirm that the new term ‘Welsh prescription’, which refers to a WP10 prescription form, will now be used by all prescribers in Wales from 1 August, including GPs, hospital trusts, nurse prescribers, dentists, independent prescribers, and all those with prescribing responsibilities? Can you confirm that all other prescription forms have been, or will be, withdrawn from circulation by 1 August from all of those with prescribing responsibilities in Wales?

Other concerns have been voiced to me, such

unwaith, ond a yw hynny'n bosibl o ystyried yr amser sydd ar gael? Er enghraifft, fel yr wyf wedi dweud, rhaid defnyddio ffurflen bresgripsiwn Cymru'n awr er mwyn cael talu'r pris is, ond a yw meddygon teulu'n gwybod na ddylent ddefnyddio hen ffurflenni presgripsiwn? A roddwyd gwybodaeth o'r fath iddynt? A yw'r holl fferyllfeydd yn gwybod am y gwahanol feini prawf—er enghraifft, gorfod rhoi presgripsiynau ar y ffurflen neilltuol honno? Yn fwy na dim, a fydd gan y cleifion y syniad lleiaf am hyn? Gan fod cyn lleied o amser ar gael, mae arnaf ofn na fydd.

Mae gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru bryderon dybryd ynghylch cyllid. Mae cryn straen ar gyllidebau meddyginiaethau'r BILlau, a cheir pwysau dros eu lleihau eto. Ni fu ond 2 y cant o gynnydd yn eu cyllidebau meddyginiaethau eleni, o'i gymharu â chynnydd o 9 y cant a argymhellwyd yn Lloegr. Mae'n amlwg mai po rataf y bydd y presgripsiynau, mwyaf fydd y galw amdanynt—deddf syml y cyflenwad a'r galw yw hynny. Nid yw'r BILlau yn gallu talu am y galw mwy, ac mae'n bwysig na fyddant, er mwyn cadw o fewn y gyllideb, yn dechrau cwtogi ar y rhagnodi ar feddyginiaethau drutach neu fwy anarferol. Fel arall, bydd rhai o'r bobl fwyaf anghenus, o ran iechyd, ar eu colled oherwydd y mesur hwn. I gloi, mae gennym amheuan dybryd ynghylch a yw'r mesurau hyn yn cynnig gwerth am arian o ran iechyd i bobl Cymru.

**Karen Sinclair:** Er fy mod yn croesawu'r rheoliadau hyn, Brian, a wnewch gadarnhau y bydd y term newydd ‘presgripsiwn Cymru’, sydd yn cyfeirio at ffurflen bresgripsiwn WP10, yn cael ei ddefnyddio bellach gan yr holl bresgripsiynwyr yng Nghymru o 1 Awst, gan gynnwys meddygon teulu, ymddiriedolaethau ysbytai, nyrsys sydd yn bresgripsiynwyr, deintyddion, presgripsiynwyr annibynnol, a phawb sydd â chyfrifoldebau o ran rhagnodi? A allwch gadarnhau bod yr holl ffurflenni presgripsiwn eraill wedi'u tynnu'n ôl, neu y byddant wedi'u tynnu'n ôl erbyn 1 Awst, oddi ar bawb sydd â chyfrifoldebau o ran rhagnodi yng Nghymru?

Mae pryderon eraill wedi'u mynegi wrthyf,

as the fact that pharmacists are worried that they will be the gatekeepers of these prescriptions. If there is disparity, and if all these old prescription papers have not been withdrawn, they will have difficulties. I would like some assurances for the pharmacists.

**Jonathan Morgan:** Here we go again with this bit-by-bit reduction in prescription charges. I do not know why the Government is intent on teasing the Welsh electorate in this way. I do not know why it does not just get on with it and abolish the damned things if that is its intention. However, it is clear that it wants to abolish them by the time of the Assembly elections, so that it has at least something to go back to the electorate with as the election date approaches in two years' time.

Pharmacists, by and large, do not support this Assembly Government policy. Pharmacists, and many opposition Members, believe that free prescription charges will not be an acceptable use of taxpayers' money. Many people are already exempt from prescriptions anyway, and I do not believe that the Assembly Government has accurately assessed the cost of delivering free prescriptions. Have you made any recent assessment, Minister, of the likely cost of free prescriptions in Wales? Are you taking into account, as Jenny Randerson described, the problems that LHBs face regarding their medicines budgets? I am aware that this is an acute problem facing many LHBs in Wales and, as a result, I fail to see how they will continue to cover the costs of these incremental reductions that you are introducing.

Will you also consider the cost of prescription tourism? Amendment 1, about cross-border issues, is valid. I know that, from an answer given to a written Assembly question tabled by my friend, the leader of the Conservative group, the cost of prescription tourism is somewhere in the region of £3 million. That is not a small sum of money; it may be small compared with the overall health budget of £5 billion, but we could make good use of £3 million in Wales.

megis y ffaith bod fferyllwyr yn poeni mai hwy fydd yn porthora'r presgripsiynau hyn. Os bydd anghysondeb, ac os na fydd yr holl bapurau presgripsiwn hen hyn wedi'u tynnu'n ôl, byddant yn cael anawsterau. Carwn gael rhai geiriau o sicrwydd er mwyn y fferyllwyr.

**Jonathan Morgan:** Dyma ni eto'n gweld gostyngiad fesul tipyn yn y presgripsiynau. Ni wn pam y mae'r Llywodraeth yn benderfynol o bryfocio etholwyr Cymru fel hyn. Ni wn pam nad yw'n bwrw ymlaen a ddiddymu'r diawl pethau hyn os mai hynny yw ei bwriad. Fodd bynnag, mae'n amlwg ei bod am eu diddymu erbyn etholiadau'r Cynulliad, fel bod ganddi o leiaf un peth y gall ei gyflwyno i'r etholwyr wrth ddynesu at ddyddiad yr etholiad ymhen dwy flynedd.

Nid yw fferyllwyr, at ei gilydd, yn cefnogi'r polisi hwn o eiddo Llywodraeth y Cynulliad. Mae fferyllwyr, a llawer o Aelodau'r gwrthbleidiau, yn credu na fydd presgripsiynau am ddim yn fodd derbynol o wario arian y trethdalwyr. Mae llawer o bobl wedi'u heithrio eisoes rhag talu am bresgripsiynau, ac ni chredaf fod Llywodraeth y Cynulliad wedi asesu'n gywir y gost o roi presgripsiynau am ddim. A ydych wedi gwneud unrhyw asesiad yn ddiweddar, Weinidog, o gost debygol presgripsiynau am ddim yng Nghymru? A ydych yn ystyried y problemau y mae BILlau yn eu hwynebu, y problemau a ddisgrifiwyd gan Jenny Randerson, mewn cysylltiad â'u cyllidebau meddyginiaethau? Gwn fod hyn yn broblem ddifrifol sydd yn wynebu llawer o BILlau yng Nghymru ac, oherwydd hynny, ni allaf weld sut y byddant yn dal i allu talu am y gostyngiadau graddol hyn yr ydych yn eu cyflwyno.

A wnewch hefyd ystyried effaith pobl yn dod i Gymru i gael presgripsiwn? Mae gwelliant 1, sydd yn ymwneud â materion trawsffiniol, yn un dilys. Gwn yn ôl ateb a roddwyd i gwestiwn Cynulliad ysgrifenedig a gyflwynwyd gan fy nghyfaill, arweinydd grŵp y Ceidwadwyr, mai tua £3 miliwn yw cost pobl yn dod i Gymru i gael presgripsiwn. Nid swm bach yw hwnnw; efallai ei fod yn fach o'i gymharu â'r gyllideb iechyd gyffredinol o £5 biliwn, ond gallew wneud

There is no method, from what I can see, of your recovering that £3 million from those organisations across the border in England. So, we are paying out of the Welsh block grant for prescription tourism.

4.50 p.m.

Finally, with regard to the implementation date of 1 August, there has been concern among Community Pharmacy Wales and other organisations about the timescale within which they are expected to implement these regulations. However, this is a regulation that is taken off the shelf once a year. It is cut and pasted, the new dates are added, and, basically, it is brought before Plenary for a quick discussion and a vote, as it was last year. We know that it is coming up every year, so why on earth can we not get these regulations implemented more quickly to give pharmacy companies and chemists in Wales the chance to get this implemented within an appropriate timeframe? What worries me greatly about this is that it is a basic and simple piece of secondary legislation. If we cannot get the timing on this correct, how on earth will we cope with the extra powers that you and your colleagues in Westminster are talking about as a result of the Government's White Paper? If we cannot get this right, goodness knows what will happen when we accrue those additional powers.

This is not an appropriate way of handling legislation, and I wish that you would see sense. Your manifesto commitment was to scrap prescription charges in their entirety, so just get on and do it, instead of having this ridiculous incremental change from one year to the next.

**Carl Sargeant:** We must welcome these regulations today. However, I have some local concerns regarding their implementation with regard to cross-border issues. Minister, I have written to you in the past regarding prescription tourism from the English to the Welsh block; I have concerns about my constituents who are patients of English doctors in English surgeries and are transferred over to the Countess of Chester Hospital and other hospital facilities. How

defnydd da o £3 miliwn yng Nghymru. Nid oes dim modd, hyd y gwelaf, ichi adennill y swm hwnnw o £3 miliwn gan y cyrff hynny yr ochr draw i'r ffin yn Lloegr. Felly, yr ydym yn talu o grant bloc Cymru oherwydd bod pobl yn dod i Gymru i gael presgripsiwn.

Yn olaf, o ran y dyddiad ar gyfer gweithredu hyn, sef 1 Awst, mae Fferylliaeth Gymunedol Cymru a chyrff eraill wedi bod yn bryderus ynghylch amserlen gweithredu'r rheoliadau hyn. Fodd bynnag, rheoliad sy'n cael ei dynnu oddi ar y silff unwaith y flwyddyn yw hwn. Caiff ei dorri a'i ludo, ychwanegir y dyddiadau newydd, ac, yn y bôn, mae'n cael ei roi gerbron y cyfarfod llawn i'w drafod yn gyflym a phleidleisio arno, yr un fath â'r llynedd. Gwyddom ei fod yn codi bob blwyddyn, felly pam ar y ddaear na allwn roi'r rheoliadau hyn ar waith yn gynt er mwyn rhoi cyfle i gwmnïau fferyllol a fferyllwyr yng Nghymru weithredu hyn o fewn amserlen briodol. Yr hyn sy'n fy mhoeni i'n arw am hyn yw mai is-ddeddfwriaeth elfennol a syml ydyw. Oni allwn amseru hyn yn iawn, sut ar y ddaear y llwyddwn i ymdopi â'r pwerau ychwanegol yr ydych chi a'ch cyd-aelodau yn San Steffan yn sôn amdanynt o ganlyniad i Bapur Gwyn y Llywodraeth? Oni allwn gael hyn yn iawn, nid oes wybod beth a ddigwydd pan ddaw'r pwerau ychwanegol hynny i'n rhan.

Nid yw hyn yn ddull priodol o ymdrin â deddfwriaeth, a byddai'n dda gennyf pe baech yn callio. Eich ymrwymiad yn eich maniffesto oedd cael gwared ar daliadau presgripsiynau yn gyfan gwbl, felly gwnewch hynny, yn hytrach na'r newid graddol gwirion hwn o'r naill flwyddyn i'r llall.

**Carl Sargeant:** Rhaid i ni groesawu'r rheoliadau hyn heddiw. Fodd bynnag, mae gennyf ambell bryder lleol ynghylch eu gweithredu gyda golwg ar faterion traws-ffiniol. Weinidog, yr wyf wedi ysgrifennu atoch yn y gorffennol ynghylch twristiaeth presgripsiynau o floc Lloegr i floc Cymru; yr wyf yn pryderu ynghylch fy etholwyr sy'n gleifion gyda meddygon yn Lloegr mewn meddygfeydd yn Lloegr ac sy'n cael eu trosglwyddo i Ysbyty Duges Caer a

will they be able to interact with the Welsh prescription? It is important that we get this right from the start, and that we do not fall into any difficulties in the near future.

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae'n glir mai blaenoriaeth y Llywodraeth Llafur yw cyflwyno'r mesur hwn. Felly, yr wyf yn synnu bod y Gweinidog wedi gwrthod yn lân ceisio gweld beth yn union yw gwerth am arian y mesurau hyn o ran iechyd pobl Cymru. Mae wedi gwrthod cyflwyno adroddiad ar hynny i'r Siambr er y byddwn yn credu bod hynny'n gyfrifoldeb arno, oherwydd ei fod eisoes wedi clywed bod amheuaeth, nid yn unig ymysg y gwrthbleidiau ond ar ei feinciau ei hun, ynglŷn ag effeithiolrwydd y mesurau hyn. Pan fo Carl Sargeant yn feirniadol o Lywodraeth Cymru, y mae'n bryd i Lywodraeth Cymru gymryd sylw. Nid yw'n digwydd yn aml iawn. Gan fod Carl wedi mynegi pryderon am yr hyn sydd yn digwydd yn drawsffiniol, awgrymaf fod y Gweinidog yn edrych yn fanwl iawn ar y mater hwnnw.

Cytunaf yn llwyr â'r hyn a ddywedwyd nid yn unig gan y gwrthbleidiau ond hefyd gan Aelodau mainc gefn y Llywodraeth am y problemau sydd ynghlwm wrth gyflwyno'r mesurau hyn. Canolbwyntiaf ar ddwy elfen. Y cyntaf yw'r papur presgripsiwn newydd fydd yn cael ei ddefnyddio. Yr ydym yn glir mai dim ond drwy ddangos y papur hwnnw y gellir cael presgripsiwn yn rhad ac am ddim. Fe ofynnodd Karen Sinclair am sicrwydd ar hyn. Sut y byddwch yn sicrhau bod pawb sy'n llofnodi presgripsiwn ar hyn o bryd yn ymwybodol y bydd angen iddynt lofnodi'r papur presgripsiwn newydd a'i gyflwyno yn y fferyllfa er mwyn cael presgripsiwn am ddim? Gallwch ddychmygu beth fyddai'n digwydd pe bai rhywun yn mynd â phapur presgripsiwn a disgwyl cael presgripsiwn am ddim, ond yn gorfod talu dros £4 amdano.

Mae fferyllwyr ledled Cymru wedi dweud wrthym eu bod wedi cael trafferthion ers yr etholiad diwethaf. Yr oedd pobl wedi mynd i'r fferyllfa bryd hynny yn credu y byddent yn cael presgripsiwn yn rhad ac am ddim, gan ei fod yn addewid yn y maniffesto. Yr oeddent yn credu y byddent yn cael presgripsiwn am ddim wedi ichi ennill yr

chyfleusterau ysbytai eraill. Beth fydd sefyllfa'r rhain yng nghyswllt y presgripsiwn Cymreig? Mae'n bwysig i ni gael hyn yn iawn o'r dechrau, ac nad ydym yn mynd i drybini yn y dyfodol agos.

**Rhodri Glyn Thomas:** It is clear that the introduction of this measure is a Labour Government priority. Therefore, I am surprised that the Minister has refused outright to try to ascertain what precisely the value for money of these measures will be in terms of the health of the people of Wales. He has refused to bring a report on that to the Chamber, although I would have thought that it would be incumbent upon him to do so, because he has already heard that there are doubts, not only among the opposition parties, but on his own benches, about how effective these measures will be. When Carl Sargeant is critical of the Government of Wales, then it is time for the Government of Wales to take note. It does not happen often. As Carl has expressed concern about cross-border issues, I suggest that the Minister should look in great detail at that.

I wholeheartedly agree with what has been said by not only the opposition parties but also the Government's backbenchers on the problems related to introducing these measures. I will focus on two elements. First is the new prescription form that will be used. It is clear that it is only by showing that form that you can get a prescription free of charge. Karen Sinclair asked for assurance on this. How will you ensure that everyone who signs a prescription at the moment is aware that they must sign the new prescription form and present it in the pharmacy to get a free prescription? You can imagine what would happen if someone were to take a prescription to the pharmacy in the expectation of getting it for free, but had to pay more than £4 for it.

Pharmacists across Wales have told us that they have had difficulties since the last election. People had gone to pharmacies at that time thinking that they would receive their prescription free of charge, because that was a pledge in the manifesto. They believed that they would get a prescription free of charge after you won the election. The

etholiad. Yr oedd y fferyllwyr yn gorfod ceisio esbonio iddynt eu bod yn gorfod talu am bresgripsiwn o hyd. Mae angen sicrwydd, Weinidog, eich bod yn hyderus bod modd gwneud y trosglwyddiad yma ar y dyddiad a benodwyd, ac na fydd unrhyw fath o ansicrwydd am y ffordd y bydd yn cael ei gyflwyno a bod modd i chi argyhoeddi fferyllwyr o hynny.

Hefyd, nid meddygon teulu yn unig sy'n arwyddo papurau presgripsiwn. Nid oedd Coleg Brenhinol y Nyrsys yn rhan o'ch ymgynghoriad ar y mater hwn, ond mae nyrsys yn aml yn arwyddo papurau presgripsiwn. A allwch esbonio pam y bu ichi eithrio Coleg Brenhinol y Nyrsys o'r ymgynghoriad? Yn amlwg, fel pobl sy'n arwyddo presgripsiynau, mae'n bwysig bod nyrsys yn ymwybodol o'r sefyllfa. Yr ydym yn ei gymryd yn ganiataol eu bod wedi'u cynnwys yn y rheoliadau, ond gan nad oeddent yn rhan o'r ymgynghoriad, nid yw hynny'n gwbl glir. Fodd bynnag, yr wyf yn tybio, Weinidog, eu bod wedi'u cynnwys.

Sut yn union yr ydych yn bwriadu ariannu'r cynllun hwn? Yr wyf yn uno â Jenny Randerson a Jonathan Morgan i ofyn cwestiynau ynglŷn â gwerth y cynllun hwn o ran ei fudd i iechyd pobl Cymru. Nid wyf yn siŵr sut yn union yr ydych yn bwriadu mesur hynny; yr ydych wedi cyfeirio at rai pethau.

Yn ystod y flwyddyn gyntaf, bu'n rhaid i chi gymryd rhyw £2.7 miliwn allan o'r arian hyblygrwydd diwedd y flwyddyn. Yr ydych wedi ychwanegu'r arian hwnnw at y llinell wariant yn y gyllideb berthnasol, er mwyn talu am y cynllun. Wrth i chi ymestyn y cynllun presgripsiynau am ddim, a allwch ein sicrhau bod digon o arian ar gael o fewn y gyllideb ac na fydd yr arian yn cael ei dynnu oddi wrth ddarpariaethau hanfodol eraill? A fydd unrhyw effaith ar ddarpariaethau eraill oherwydd y bydd yn rhaid defnyddio'r arian ar gyfer y cynllun hwn?

Derbyniwn yr hyn yr ydych yn ei wneud, a bod manteision i'r cynllun. Credwn fod y manteision yn gyfyngedig, nid oes prawf y byddant yn gynhwysfawr, ac mae'n bwysig cofio mai blaenoriaeth y Llywodraeth Lafur yw hwn ac felly, yn y pen draw, rhaid ei

pharmacists had to try to explain to them that they still had to pay for a prescription. We need assurance, Minister, that you are confident that it will be possible to implement this change on the appointed date, and that there will be no uncertainty about how it will be introduced and that you can convince pharmacists of that.

Also, it is not only general practitioners who sign prescriptions. The Royal College of Nursing was not included in your consultation on this matter, but nurses often sign prescriptions. Can you explain why the Royal College of Nursing was excluded from the consultation? Obviously, as people who sign prescriptions, it is important that nurses are aware of the situation. We take it for granted that they have been included in the regulations, but as they were not included in the consultation, that is not completely clear. However, Minister, I presume that they have been included.

How exactly do you intend to fund this scheme? I join Jenny Randerson and Jonathan Morgan in asking questions about the value of this scheme in terms of its benefits for the health of the people of Wales. I am not sure quite how you intend to measure that; you have referred to some things.

During the first year, you had to take some £2.7 million out of end-of-year flexibility money. You have added that money to the appropriate budget expenditure line to pay for the scheme. As you extend the free prescriptions scheme, can you assure us that there is enough money in the budget and that the money will not be taken from other essential provisions? Will there be any impact on other provisions because of the funding that must be used for this scheme?

We accept what you are doing, and that there are benefits to the scheme. We believe that the benefits are limited, there is no evidence that they will be comprehensive, and it is important to remember that this is a Labour Government priority, therefore, ultimately, it

gyfiawnhau i weddill y Siambr.

**The Minister for Health and Social Services (Brian Gibbons):** The general rationale for these prescription charges has been well and truly rehearsed, and I will not repeat it again, although, since the original policy was introduced, I think that there have been some developments that strengthen the argument.

Since this policy was initially proposed, there has been a growing recognition that many chronic diseases merit multi-item prescribing. In other words, chronic illnesses will rarely be controlled by a single prescription item and, increasingly, more people with chronic illness will have more and more prescriptions. Consequently, if they continue to pay for their prescriptions, the disincentive for them to cash their prescriptions will increase. A Nuffield Trust report was published last week, and it surprised me to see the number of people who did not cash their prescriptions because of the cost deterrent. I am not certain, but, from memory, I got the impression that the number of people who did not cash their prescriptions was higher in Wales than in other parts of the United Kingdom. Therefore, there is a specific Welsh dimension to this matter. As we have a bigger burden of chronic illness in Wales, and more people are requiring treatment as we implement the new GP contract and so on, the merits of this will become more self-evident.

**Rhodri Glyn Thomas:** Minister, as you have referred to chronic illness about 10 times in the last two minutes, are we to take it that you now have a definition of chronic illness that is acceptable to the Government?

**Brian Gibbons:** No, I am talking about specific chronic illnesses, such as blood pressure problems and so on.

On the point that Jenny mentioned in relation to chronic illness, it is interesting that there has been a subtle rewriting of history by the Liberal Democrats, because they originally proposed free prescriptions for people with chronic lifelong illnesses. I would still like

must be justified to the rest of the Chamber.

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Trafodwyd yn helaeth y rhesymeg gyffredinol dros y taliadau presgripsiynau hyn, ac nid wyf am hailadrodd hynny eto, er fy mod yn credu, ers pan gyflwynwyd y polisi gwreiddiol, fod rhai datblygiadau wedi bod sy'n cryfhau'r ddadl.

Ers pan gynigiwyd y polisi hwn gyntaf, cafwyd cydnabyddiaeth gynyddol bod llawer o glefydau cronig yn gofyn am bresgripsiynau sy'n cynnwys amryw o eitemau. Mewn geiriau eraill, anaml y bydd modd rheoli salwch cronig drwy gyfrwng un eitem ar bresgripsiwn, ac yn gynyddol, bydd rhagor o bobl a salwch cronig arnynt yn cael mwy a mwy o bresgripsiynau. O ganlyniad, os byddant yn dal i dalu am eu presgripsiynau, byddant yn fwy cyndyn o ddefnyddio eu presgripsiwn. Cyhoeddwyd adroddiad gan Ymddiriedolaeth Nuffield yr wythnos diwethaf, ac yr oedd yn syndod i mi weld cynifer o bobl oedd heb ddefnyddio eu presgripsiwn oherwydd y gost. Nid wyf yn sicr, ond yn ôl yr hyn a gofiais, cefais yr argraff bod mwy o bobl yng Nghymru heb ddefnyddio eu presgripsiwn nag mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Felly, mae dimensiwn Cymreig penodol i hyn. Gan fod baich salwch cronig yng Nghymru'n fwy, a chan fod angen triniaeth ar fwy o bobl wrth i ni roi'r contract newydd i Feddygon Teulu ar waith ac yn y blaen, daw rhinweddau hyn yn fwy amlwg.

**Rhodri Glyn Thomas:** Weinidog, gan eich bod wedi cyfeirio at salwch cronig oddeutu 10 o weithiau yn ystod y ddwy funud ddiwethaf, a ydym i gymryd bod gennych bellach ddiffiniad o salwch cronig sy'n dderbyniol gan y Llywodraeth?

**Brian Gibbons:** Nac oes, sôn yr ydwyf am fathau penodol o salwch cronig, megis problemau pwysedd gwaed ac yn y blaen.

Ynghylch y pwynt y soniodd Jenny amdano ynglŷn â salwch cronig, mae'n ddiddorol bod hanes wedi'i ailysgrifennu mewn modd cynnil iawn gan y Democratiaid Rhyddfrydol, oherwydd yn wreiddiol yr oeddent yn cynnig presgripsiynau am ddim i

the Liberal Democrats to come up with a specific list of these chronic lifelong conditions. One of the problems in implementing a Liberal Democrat-type policy was the legal definition for the purposes of this prescription.

5.00 p.m.

**Jenny Randerson:** If there were so many doubts on the Labour side about defining chronic lifelong illness, and you felt that it was impossible to define, then Labour, which was part of the partnership Government at the time, should not have accepted the concept.

Do you accept that a first stab was made at defining chronic lifelong illnesses when some groups of patients with specific illnesses became exempt from prescription charges for life decades ago? It is an imperfect description, upon which we can build and improve. I cannot believe that the Labour Assembly Government is as poor as you are trying to make out at devising a list of chronic lifelong illnesses.

**Brian Gibbons:** I am sorry, Jenny, but even if we look at some of the present exemption categories, diabetes for example, much of it is due to people being overweight. If people reduce their weight, they may be able to cure their diabetes. There are surgical treatments for people with thyroid disease, which, if implemented, will get rid of the disease that entitles them to free prescriptions. Therefore, even the present situation bears out the very difficulty that you are trying to pretend does not exist. There are difficulties, but the Assembly Government realised that there was a simple, clear and unambiguous way in which to address the issue, which was to introduce free prescriptions for everyone. It is clear, everyone knows where they are, and the dancing on pins that would have been involved in relation to the Liberal Democrat proposal has been gotten rid of with a single stroke.

There is an important issue in relation to the commencement Order, which Karen, Rhodri

bobl â salwch cronig gydol oes. Byddwn yn yn dal yn falch petai'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cyflwyno rhestr benodol o'r cyflyrau cronig gydol oes hyn. Un o'r problemau sydd ynghlwm wrth roi'r math o bolisi a gynigid gan y Democratiaid Rhyddfrydol ar waith oedd y diffiniad cyfreithiol at ddibenion y presgripsiwn hwn.

**Jenny Randerson:** Os oedd cynifer o amheuon o du Llafur ynghylch diffinio salwch cronig gydol oes a'ch bod yn teimlo ei fod yn amhosibl ei ddiffinio, yna ni ddylai Llafur, a oedd yn rhan o'r Llywodraeth bartneriaeth ar y pryd, fod wedi derbyn y syniad.

A ydych yn derbyn bod yr ymdrech gyntaf i ddiffinio salwch cronig gydol oes wedi'i gwneud pan eithriwyd rhai grwpiau o gleifion â salwch penodol rhag gorfod talu am bresgripsiwn am oes ddegawdau yn ôl? Mae'n ddisgrifiad amherffaith, y gallwn ei ddatblygu a'i wella. Ni allaf gredu bod Llywodraeth Lafur y Cynulliad mor wael ag yr ydych yn ceisio'i awgrymu am ddyfeisio rhestr o fathau o salwch cronig gydol oes.

**Brian Gibbons:** Mae'n ddrwg gennyf, Jenny, ond hyd yn oed os edrychwn ar rai o'r categorïau eithrio presennol, diabetes er enghraifft, mae llawer ohonynt yn digwydd oherwydd bod pobl dros eu pwysau. Petai pobl yn colli pwysau, efallai y byddai modd iddynt wella'u diabetes. Mae triniaeth lawfeddygol ar gael i bobl â chlefyd y thyroid, ac os cyflawnir y driniaeth honno, bydd yn cael gwared ar y clefyd sy'n rhoi'r hawl iddynt gael presgripsiynau am ddim. Felly, mae'r sefyllfa bresennol hyd yn oed yn dangos yr anhawster yr ydych yn ceisio cymryd arnoch nad yw'n bodoli. Mae anawsterau ynglŷn â hyn, ond sylweddolodd Llywodraeth y Cynulliad fod modd iddi fynd i'r afael â'r mater mewn dull syml, clir a diamwys, sef cyflwyno presgripsiynau am ddim i bawb. Mae'n glir, mae pawb yn gwybod beth yw'r sefyllfa, a chafwyd gwared ar unwaith ar y cymhlethodau dyrys a fyddai wedi codi yn sgîl cynnig y Democratiaid Rhyddfrydol.

Mae mater pwysig yn codi yng nghyswllt y Gorchymyn cychwyn, y soniodd Karen,

Glyn and Jenny mentioned. The commencement date was on the draft legislation when the Health and Social Services Committee considered it, and I do not remember anyone raising this particular point in committee, so it was still a relevant point when people considered it in the Health and Social Services Committee. Having said that, the new prescription forms that we are talking about have been in circulation since April last year, so they are not new on the street—they have been around for well over 12 months. The only difficulty that might arise is if people are still using a number of residual prescriptions. However, the prescription forms will not suddenly appear between now and 1 August—they have been in circulation for well over a year.

However, we recognise that some of the older prescription forms may be presented, and people will be able to claim a reimbursement on their fee if they present them after 1 August. There is a mechanism by which people can claim reimbursement if they feel that they should have the lower fee. That system is in place.

On Karen's point, it is true that nurses and so forth prescribe. They will be able to use the WP10s like everyone else—they will not be in a separate category. The same applies to hospital trusts, and so forth. Everyone will be able to use the new bilingual prescription form, so everyone will be able to avail themselves of the reduced prescription charge.

**Karen Sinclair:** Do people know that they should be using the new form? It is all very well to give a reimbursement, but it is a quite complicated process for people.

**Brian Gibbons:** I think that the number of people who will claim reimbursement will be very small—I cannot imagine that there will be a large number. The official notice would have gone out earlier, except that the Health and Social Services Committee was involved in scrutinising this piece of legislation. In the middle of April, a notice went out to local health boards informing them of the change

